Cynllun Datblygu Lleol Newydd 2018-2033

Papur Cefndir

# PC42a: Pennod: Y Gymraeg ym Mholisi Cynllunio

**Cynllun i'w archwilio gan y cyhoedd**

**Rhagfyr 2025**

**This document is also available in English.**

Mae'r ddogfen hon ar gael i'w gweld a'i lawrlwytho ar wefan y Cyngor yn: www.conwy.gov.uk/cdlln Mae copïau hefyd ar gael i'w gweld yn y prif lyfrgelloedd a swyddfeydd y Cyngor a gellir eu cael gan y Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol, Coed Pella, Ffordd Conwy, Bae Colwyn LL29 7AZ neu drwy ffonio (01492) 575461. Os hoffech chi gael gair â swyddog cynllunio sy'n gweithio ar y Cynllun Datblygu Lleol ynglŷn ag unrhyw agwedd ar y ddogfen hon, cysylltwch â'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol ar (01492) 575181 / 575445/ 575124 / 574232.

**Gellir darparu'r ddogfen hon ar Gryno Ddisg, yn electronig neu mewn print bras a gellir ei chyfieithu i ieithoedd eraill. Cysylltwch â'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar (01492) 575461.**

Rhoddir trwydded ddirymiadwy nad yw'n gyfyngedig, heb freindal, i chi weld y Data Trwyddedig ar gyfer defnydd anfasnachol yn unig, o'r cyfnod y bydd ar gael gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy;
Ni chewch gopïo, is-drwyddedu, dosbarthu, gwerthu neu fel arall drefnu bod y Data Trwyddedig ar gael mewn unrhyw ffurf i drydydd partïon; a
Neilltuir hawliau trydydd parti i orfodi telerau'r drwydded hon i'r Arolwg Ordnans.

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

**Sir Conwy, yr amgylchedd iawn i fyw, gweithio a darganfod**

**Conwy County, the right environment to live, work and discover**

# Pennod: Y Gymraeg ym Mholisi Cynllunio

## Paratowyd ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Chwefror 2025

# Cynnwys


Cyflwyniad .... 4

Cefndir y gwaith .... 4

Strwythur yr Adroddiad .... 6

Rhan 1: Cyd-destun Polisi a Deddfwriaeth y Gymraeg yn Genedlaethol .... 7

Cyflwyniad .... 7

Polisi a deddfwriaeth cenedlaethol .... 7

Cymunedau Cymraeg cynaliadwy .... 13

Polisi Addysg a'r Bil Addysg Gymraeg .... 17

Rhan 2 - Deddfwriaeth, Polisi a Chanllawiau Cenedlaethol .... 21

Cyflwyniad .... 21

Cipolwg ar y rhwymedigaethau .... 22

Cymru'r Dyfodol .... 23

Polisi Cynllunio Cymru .... 25

Nodyn Cyngor Technegol 20 .... 32

Cyfraniadau .... 36

Diwygio'r Cynllun Ymgysylltu â'r Gymuned yn unol â Nodyn Cyngor Technegol 20 a Safonau'r Gymraeg .... 37

Nodyn Cyngor Technegol 6 – Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy, 2010 .... 37

Tai fforddiadwy mewn ardaloedd gwledig .... 38

Tai'r farchnad agored at anghenion lleol .... 38

Gwasanaethau mewn cymunedau gwledig .... 39

Tai fforddiadwy ac effaith ail gartrefi .... 39

Diffinio ardaloedd sy'n sensitif o ran y Gymraeg .... 41

Rhan 3: Adolygu polisi cynllunio presennol CBSC ar y Gymraeg .... 44

Cyflwyniad .... 44

Cefndir y gwaith .... 44

Prif Ganfyddiadau .... 45

Sylwadau manylach eraill .... 47

Argymhellion .... 48

Strategaeth a Ffefrir 2018-33 .... 53

Rhan 4 Y Gymraeg ym Mwrdeistref Sirol Conwy .... 59

Cyflwyniad .... 59

Ymrwymiad yr awdurdod lleol .... 59

Trosolwg o'r Gymraeg ym Mwrdeistref Sirol Conwy .... 60

Ardaloedd sy’n Sensitif o ran y Gymraeg yng Nghonwy ... 63
Ardaloedd sensitif o ran y Gymraeg sydd wedi’u diffinio ym Mwrdeistref Sirol Conwy ... 67
Rhan 5 – Polisi iaith Gymraeg ar gyfer y CDLlN ... 71
Cyflwyniad ... 71
Paratoi’r CDLlN ... 71
Ymrwymiad i’r Iaith Gymraeg ... 72
Y Gymraeg yng Nghonwy - Sefydlu’r Llinell Sylfaen ... 74
Ardaloedd sensitif o ran y Gymraeg wedi’u diffinio ... 74
Gofynion cyffredinol - Arwyddion ac enwau lleoedd ... 75
Angen am Asesiadau o’r Effaith ar y Gymraeg ... 75
Cynnal asesiadau o’r effaith ar y Gymraeg ... 78
Camau Lliniaru a Gwelliannau ... 79
Cyfraniadau ... 80
Mesurau lliniaru i’w defnyddio i leihau effeithiau andwyol ... 81
Camau gweithredu i hyrwyddo’r Gymraeg a’i defnydd ... 84
Gweithgareddau hyrwyddo a ariennir drwy gyfraniadau ariannol ... 85
Arwyddion ac enwau lleoedd ... 86
Canllawiau Cynllunio Atodol a gwybodaeth ddefnyddiol arall ... 86
Monitro ac Adrodd ... 87
Atodiad 1: Rhestr o Derminoleg a Thalfyriadau ... 88
Atodiad 2: Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy - Safonau’r Gymraeg - Llunio Polisi ... 89
Atodiad 3: Llyfryddiaeth ... 91
Atodiad 4 Polisi CTH/5 CDLl Mabwysiedig Conwy ... 94

# Cyflwyniad

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn datblygu Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLIN) i gwmpasu'r cyfnod o 2018-33.

Ers 1988 (Cylchlythyr 53/88) mae'r Gymraeg wedi bod yn ystyriaeth gynllunio berthnasol sydd i gael sylw wrth lunio polisïau defnydd tir ac wrth benderfynu ceisiadau cynllunio. Mae polisi cynllunio Llywodraeth Cymru wedi'i gynnwys ym Mholisi Cynllunio Cymru: Rhifyn 12 (2024), Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2050 a Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 20: Cynllunio a'r Gymraeg.

Fel y nodir mewn canllawiau statudol cenedlaethol:

> "Un o'r pynciau y bydd gofyn ei ystyried wrth baratoi CDLI yw sut y bydd y strategaeth a'r polisïau'n debygol o effeithio ar y defnydd o'r Gymraeg a chynaliadwyedd cymunedau."[1]

## Cefndir y gwaith

Comisiynwyd YmgynghorIaith RHD Cyf. gan yr awdurdod i adolygu'r cyd-destun deddfwriaethol a pholisi cenedlaethol a darparu'r adroddiad hwn i gefnogi'r gwaith o ddatblygu'r CDLIN, ynghyd â chynhyrchu polisi iaith Gymraeg newydd ar gyfer cynllunio i gefnogi gweithrediad y CDLIN hyd at 2033.

Cyflawnwyd y gwaith ar y cyd-destun cenedlaethol o ran deddfwriaeth a pholisi (Cam 1) rhwng Mai a Gorffennaf 2019 er mwyn cyfrannu at y Strategaeth a Ffefrir a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf (a oedd yn cynnwys asesiad lefel uchel o effeithiau'r cynllun ar y Gymraeg). Cynhaliwyd ail gam y gwaith adolygu polisi rhwng 2023 a 2024, ac fe dynnodd sylw at sawl newid sylweddol i'r polisi iaith Gymraeg a'r polisi cynllunio yn berthnasol i'r Gymraeg a chymunedau Cymraeg, a arweiniodd at ddiweddariad sylweddol i gyfrannu at ddatblygiad y CDLIN.

[1] Nodyn Cyngor Technegol 20, Hydref 2017

Roedd sawl elfen ym methodoleg y rhaglen waith ac roedd yn gwneud defnydd o wahanol fathau o dystiolaeth ystadegol a thystiolaeth ddogfennol ehangach. Roedd tair prif ran i'r gwaith:

1. Ymchwil a dadansoddi wrth ddesg:
   i. Adolygu deddfwriaeth a pholisïau cenedlaethol – ar gynllunio ac ar y Gymraeg – Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040, Polisi Cynllunio Cymru, Nodyn Cyngor Technegol 20, Nodyn Cyngor Technegol 6, Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, Cymraeg 2050 – Strategaeth Genedlaethol Llywodraeth Cymru, a Safonau'r Gymraeg (yn benodol, yr Hysbysiad Cydymffurfio ar gyfer Bwrdeistref Sirol Conwy).
   ii. Dadansoddi dogfennau – Strategaeth a Ffefrir Conwy (fersiwn ddrafft i'w chyhoeddi Gorffennaf 2019), Cynllunio a'r Iaith Gymraeg: y ffordd ymlaen (2005), Grymuso Cymunedau: cryfhau'r Gymraeg (2024)[2], PC07 Cyflenwad Tir ar gyfer Tai, Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg Conwy, dadansoddiad Uned Ymchwil Conwy, Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg, Cynllun Corfforaethol Conwy 2022-27, Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Conwy, y polisi iaith Gymraeg presennol CHT/5 ar gyfer cynllunio a'r Canllaw Cynllunio Atodol.
   iii. Dadansoddi ystadegau - canlyniadau Cyfrifiad 2021, Adroddiad yr Iaith Gymraeg Uned Ymchwil Gorfforaethol Conwy, Arolwg Defnydd Iaith y Comisiynydd Iaith, Bwletinau Ystadegol y Swyddfa Ystadegau Gwladol, bwletinau Stats Cymru ar y Gymraeg, adroddiadau tai, adroddiad data cyflogaeth, ardaloedd o amddifadedd yng Nghymru, adroddiadau ar deithio i'r gwaith, gweithgarwch a thueddiadau economaidd a'r galw am ddata ysgolion cyfrwng Cymraeg.
   iv. Arolwg llenyddiaeth – darllen ehangach ar y Gymraeg a hunaniaeth, naws am le a chreu lleoedd, cadarnleoedd y Gymraeg, yr economi a thai, a chymunedau a sefydliadau Cymraeg.
2. Adolygu a mapio polisi cynllunio presennol ar y Gymraeg ar sail canfyddiadau'r ymchwil ddesg:

[2] Comisiwn Cymunedau Cymraeg: adroddiad | LLYW.CYMRU

i. Mapio polisi cynllunio presennol ar y Gymraeg ar sail canfyddiadau'r dadansoddiad uchod.
ii. Nodi'r ardaloedd sy'n sensitif o ran y Gymraeg (ar sail data'r Cyfrifiad a throthwyon o'r adolygiad llenyddiaeth) a safleoedd eraill sy'n strategol bwysig.

3. Llunio'r polisi iaith Gymraeg ar gyfer y CDLIN yn cynnwys paratoi methodoleg a thempled yr asesiad o'r effaith ar y Gymraeg a nodi mesurau lliniaru ar gyfer ystod o amgylchiadau a ragwelir dros oes y CDLIN, yn cynnwys y rheini i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg.
4. Ymgysylltu ag amrywiaeth o fudd-ddeiliaid ynglŷn â'r dull.

## Strwythur yr Adroddiad

Mae pum rhan i'r adroddiad. Mae Rhan 1 yn gosod y cyd-destun o ran deddfwriaeth a pholisi ar y Gymraeg yn genedlaethol a diweddariadau ers mabwysiadau'r Cynllun Datblygu Lleol (2007-2022). Mae Rhan 2 yn amlinellu'r diweddariadau a'r datblygiadau o ran deddfwriaeth, polisi a chanllawiau cynllunio ers y CDLl diwethaf - yn cynnwys Creu Lleoedd, Cymru'r Dyfodol a diweddariad i Nodyn Cyngor Technegol 20 - sy'n fwyaf perthnasol i'r Gymraeg, yn cynnwys newidiadau cyfreithiol diweddar i dai fforddiadwy a'r effaith ar ail gartrefi a llety gwyliau, gyda newidiadau i ddosbarth defnydd.

Mae Rhan 3 yn crynhoi'r canfyddiadau o'r adolygiad o'r polisi iaith Gymraeg presennol ar gyfer cynllunio a fabwysiadwyd gan yr awdurdod, yn ogystal ag adolygiad o ystyriaethau'r iaith Gymraeg yn y Strategaeth a Ffefrir 2019.

Mae Rhan 4 yn disgrifio'r defnydd o'r Gymraeg ym Mwrdeistref Sirol Conwy, sy'n gosod y llwyfan ar gyfer yr adran derfynol.

Mae Rhan 5 yn amlinellu'r polisi y bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn ei fabwysiadu wrth ymgymryd â phenderfyniadau cynllunio'n ymwneud â'r CDLIN hyd at 2033.

Yn ogystal, mae atodiadau'n cefnogi'r adroddiad hwn, yn cynnwys rhestr o derminoleg a llyfryddiaeth. Adolygwyd adrannau unigol o'r CDLIN i'w Archwilio gan y Cyhoedd gan adlewyrchu'r newidiadau.

# Rhan 1: Cyd-destun Polisi a Deddfwriaeth y Gymraeg yn Genedlaethol

## Cyflwyniad

Mae'r rhan gyntaf hon yn gosod y fframwaith cyfreithiol a'r cyd-destun polisi ar gyfer paratoi Cynllun Datblygu Lleol Newydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Mae'n rhaid iddo gydymffurfio â deddfwriaeth y Gymraeg a deddfwriaethau eraill, gan ddangos sut y mae'n hyrwyddo'r Gymraeg ac yn hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg mewn bywyd bob dydd.

## Polisi a deddfwriaeth cenedlaethol

### Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011

Mae Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011 wedi'i gyflwyno ers mabwysiadu'r CDLl diwethaf ac wedi creu fframwaith deddfwriaethol newydd a oedd yn cynnwys creu swydd Comisiynydd y Gymraeg, Tribiwnlys y Gymraeg a Safonau'r Gymraeg. Mae hwn yn disodli'r Cynllun Iaith Gymraeg yr oedd yn ofynnol i'r awdurdod ei gynhyrchu yn y gorffennol dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

Mae'r datblygiad diweddaraf hwn mewn deddfwriaeth yn bwysig iawn gan ei fod yn gwneud y Gymraeg yn iaith swyddogol. Mae hefyd yn bwysig am ei fod yn datgan nad yw'r Gymraeg i'w thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae hyn yn wahanol i Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993, lle'r oedd y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin ar y sail eu bod yn gyfartal. O dan y ddeddfwriaeth newydd hon, mae'r dyletswyddau sy'n deillio o'r safonau newydd yn golygu bod yn rhaid i'r Cyngor beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, sy'n golygu hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg (gan ei gwneud yn haws i bobl ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg mewn bywyd bob dydd).

Rhaid i awdurdod lleol Conwy gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg a osodir ar awdurdod Conwy gan Gomisiynydd y Gymraeg.

Rhaid rhoi ystyriaeth i'r holl Safonau perthnasol at ddibenion cynllunio, ac mae'r safonau llunio polisi 89-93 sydd wedi'u rhestru yn Atodiad 2 yn hynod o berthnasol.

Wrth baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd, mae'n rhaid i'r awdurdod cynllunio lleol ystyried y Gymraeg yn ei benderfyniadau polisi fel y nodir yn glir yng nghanllawiau'r Comisiynydd Iaith ar y safonau llunio polisi[3].

Yn unol â'r safonau llunio polisi a osodir ar CBSC, mae'n rhaid iddynt:

1. ystyried pa effeithiau (boed nhw'n gadarnhaol neu'n niweidiol) a gaiff penderfyniadau ar - (a) cyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
2. ystyried sut y gellid llunio'r polisi fel y bydd
    a. yn cael effeithiau cadarnhaol, neu effeithiau cadarnhaol mwy,
    b. ac yn peidio â chael effeithiau andwyol ar - (a) cyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
3. cynnwys yn y ddogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, yr effeithiau y mae'r penderfyniad polisi yn debygol o'u cael ar - (a) cyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a cheisio barn ar y rheini.

Felly, wrth baratoi'r CDLIN a'i weithredu, mae'n rhaid i'r awdurdod asesu'r effeithiau (cadarnhaol a negyddol) ar y defnydd o'r Gymraeg a chymryd cyfleoedd i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae hyn yn berthnasol i unrhyw drydydd parti sy'n cyflenwi ar ran yr awdurdod hefyd.

Wrth ymgynghori ac ymchwilio, mae'n rhaid i'r awdurdod geisio barn am yr effeithiau ar y Gymraeg a sicrhau eich bod yn ymgysylltu ag ymgyngoreion Cymraeg eu hiaith fel rhan o'r broses. Fel rhan o'r ymgynghoriad hwn, mae'r canllaw statudol Nodyn Cyngor Technegol 20 hefyd yn gofyn i'r awdurdod cynllunio lleol baratoi Cynllun Cynnwys Cymunedau (CCC). Dylai'r CCC restru'r ffyrdd y gall pobl gyfrannu at y broses o baratoi Cynlluniau Datblygu Lleol. Felly, yn unol â'r safonau llunio polisi,

[33] Safonau Llunio Polisi: Creu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg


mae angen cynnwys ymgynghoriad gyda phobl sy'n defnyddio'r Gymraeg. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn ymgynghorai statudol y CDLl.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ymwneud â gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'n cynnwys saith nod lles, y mae'n rhaid i awdurdodau lleol geisio eu cyflawni er mwyn gwella lles nawr ac yn y dyfodol.

Un o'r saith nod lles yw Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.

**Ffigur 1 – Y Saith Nod Lles**




Ffynhonnell: Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015

Fel y dengys yn y diagram uchod, mae'r ddeddfwriaeth yn cynnwys gofyniad i'r awdurdod lleol fynd ar drywydd y nod i gyflawni "Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu."

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i sicrhau datblygiad cynaliadwy. Nid yw hwn yn gysyniad newydd mewn perthynas â'r system gynllunio gan fod egwyddorion datblygiad cynaliadwy wedi bod wrth wraidd polisïau cynllunio ers pan gyhoeddwyd Polisi Cynllunio Cymru gyntaf yn 2002. Fodd bynnag, mae'r cysyniad wedi'i ehangu o dan y Ddeddf Llesiant ac mae'n gofyn am

welliant yn narpariaeth pob un o'r pedair elfen o lesiant - cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol[4].

Mae'r system gynllunio yn ganolog er mwyn cyflawni datblygu cynaliadwy yng Nghymru. Mae'n darparu fframwaith polisi a deddfwriaethol i reoli'r defnydd a datblygiad o dir ym mudd y cyhoedd fel ei fod yn cyfrannu'n gadarnhaol i gyflawniad y nodau lles.

Mae'r Ddeddf hefyd yn cyflwyno'r cysyniad o fod yn ystyriol o'r penderfyniadau a wneir heddiw sy'n effeithio ar genedlaethau'r dyfodol. Heb gefnogaeth i gymunedau Cymraeg heddiw, ni fydd modd i genedlaethau'r dyfodol arddel y Gymraeg yn naturiol yn y cymunedau hyn.

Gyda'i gilydd, mae'r gofynion hyn yn cryfhau'r ddadl bod yn rhaid i gynaliadwyedd y Gymraeg fel iaith fyw o fewn cymunedau ym Mwrdeistref Sirol Conwy, fod wrth wraidd polisi cynllunio a phenderfyniadau.

## Strategaeth Genedlaethol y Gymraeg - Cymraeg 2050

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi gosod targed cenedlaethol i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn erbyn 2050. Mae hyn wedi'i amlinellu yn y strategaeth genedlaethol ar gyfer y Gymraeg, Cymraeg 2050. Mae'r Llywodraeth wedi datgan y bydd angen cyrraedd sefyllfa yng Nghymru lle mae'r Gymraeg yn elfen gwbl naturiol ym mhob agwedd ar fywyd pob dydd. Os ydym am gyflawni hynny, rhaid i'r genedl gyfan fod yn rhan o'r drafodaeth – siaradwyr Cymraeg rhugl, siaradwyr Cymraeg sy'n amharod i ddefnyddio'r iaith, siaradwyr newydd sydd wedi dysgu'r iaith, a phobl nad ydynt yn eu cyfrif eu hunain yn siaradwyr Cymraeg.

Mae 'Cymraeg 2050' yn cynnwys dau brif darged:

- Nifer y siaradwyr Cymraeg i gyrraedd 1 miliwn erbyn 2050.

[4] Polisi Cynllunio Cymru, Rhifyn 10 (2018) https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-02/planning-policy-wales-edition-10.pdf

- Canran y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg bob dydd, ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg, i gynyddu o 10% (yn 2013-15) i 20% erbyn 2050.

Er mwyn cyflawni'r uchelgais hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi gosod tair thema:

1. Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg
2. Cynyddu defnydd o'r Gymraeg
3. Creu amodau ffafriol - isadeiledd a chyd-destun

Pan ysgrifennwyd y strategaeth, roedd 19% o'r boblogaeth yng Nghymru yn siarad Cymraeg yn ôl Cyfrifiad 2011, a oedd yn cyfateb i 562,000 o bobl - felly ychydig dros hanner miliwn. Fodd bynnag, ers hynny, ac ar ôl Covid-19, mae'r Cyfrifiad diweddaraf a gynhaliwyd yn 2021 wedi nodi gostyngiad yng nghanran a nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghymru, i 17.8% neu 538,296.

Er hynny, cynyddodd nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg ychydig i bron 21% yn 2001– y cynnydd cyntaf ers 100 mlynedd. Gwelwyd gostyngiad eto i 19% yng Nghyfrifiad 2011. Mewn ymateb i hynny, fe luniodd Llywodraeth Cymru strategaeth genedlaethol newydd - Cymraeg 2050, a oedd yn gosod targed i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

> "Rhoddodd canlyniadau Cyfrifiad 2011 gyfle i ni gael trafodaethau agored ac ailasesu pa ddyfodol y dymunwn ei weld i'r iaith. Mae angen i bethau newid. Mae angen i ni ddod o hyd i egni newydd, cynllunio mewn modd systematig a gwella sut rydym yn cydweithredu er mwyn sicrhau etifeddiaeth haeddiannol i'n hiaith."

## Cynlluniau gweithredu blynyddol Llywodraeth Cymru

Bob blwyddyn, mae Llywodraeth Cymru yn llunio cynllun gweithredu mewn perthynas â'r strategaeth Cymraeg 2050 ac mae'r datganiad ochr yn ochr cynllun 2023-24 yn cydnabod y dirywiad a'r hyn maent wedi'i ymrwymo i'w wneud i ymchwilio ymhellach i hyn:

"Ers cyhoeddi ein cynllun gweithredu diwethaf, mae peth o ddata Cyfrifiad 2021 wedi'i ryddhau. Cyhoeddwyd y canlyniadau cychwynnol o ran y Gymraeg ym mis Rhagfyr 2022. Gwelwyd cwymp yn nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg tair oed neu'n hŷn o 562,000 (19.0%) yn 2011 i 538,300 (17.8%) yn 2021 ac roedd hyn yn destun siom. Mae'n bwysig nodi nad yw'r cyfrifiad yn cynnig data am ddefnydd iaith.

Rydym eisoes wrthi'n dadansoddi'r canlyniadau hyn, ac yn eu hystyried ochr yn ochr â'r holl ffynonellau data ac ymchwil eraill sydd ar gael i ni gan gynnwys y data diweddaraf am y boblogaeth. Mae data ysgolion yn dweud wrthym ni bod mwy o blant nag erioed mewn addysg cyfrwng Cymraeg, ac mae Arolwg Cenedlaethol Cymru yn dweud wrthym ni bod nifer cynyddol o oedolion yn nodi bod ganddynt rywfaint o allu i siarad Cymraeg."

Mae Cynllun 2024-25 Llywodraeth Cymru yn nodi eu bod bellach wedi dadansoddi llawer o ddata Cyfrifiad 2021 ac wedi cyhoeddi cynllun gwaith ar y cyd â'r Swyddfa Ystadegau Gwladol er mwyn gwella dealltwriaeth o'r arolygon a'r prif ffynonellau data gweinyddol am y Gymraeg. Maent hefyd wedi rhestru'r ymrwymiadau canlynol i'r dyfodol:

- Pwysigrwydd cynnal y Gymraeg fel y brif iaith sy'n cael ei siarad mewn cymunedau yn y gorllewin a'r gogledd-orllewin sydd â dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg.
- Parhau i gynyddu mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg yn unol â'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) a'r bwriad i gyflwyno Bil Addysg Gymraeg.
- Cynnig cyfleoedd i bawb o bob oed ddysgu Cymraeg ac i'w defnyddio'n rheolaidd.
- Paratoi'r cynllun gweithredu technoleg Cymraeg nesaf.
- Parhau i roi ffocws ar drosglwyddo'r iaith yn y cartref.
- Datblygu'r gweithlu cyfrwng Cymraeg, yn enwedig yn y byd addysg a'r blynyddoedd cynnar.

- Parhau gyda rhaglen Safonau'r Gymraeg.
- Bydd y Comisiwn Cymunedau Cymraeg yn cyflwyno ei adroddiad terfynol a'i argymhellion.

## Cymunedau Cymraeg cynaliadwy

Disgrifiodd Aitchinson a Carter[5] gadarnleoedd y Gymraeg yn eu hymchwil academaidd, ac mae'n parhau i gael ei ystyried yn berthnasol heddiw. Mae eu hymchwil yn dadlau bod y tebygolrwydd o glywed y Gymraeg a'r duedd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn bywyd bob dydd yn llawer iawn uwch mewn ardaloedd daearyddol agos sydd â dwysedd uwch o'r boblogaeth sy'n siarad Cymraeg. Yn hanesyddol, roedd y rhain yn ardaloedd o Gymru lle'r oedd 70-80% yn siarad Cymraeg, ond erbyn heddiw mae tuedd i gyfeirio at ardaloedd lle mae 50-60% yn siarad Cymraeg fel cadarnleoedd Cymraeg.

Mae'r gostyngiad cyffredinol o ran nifer a chanrannau'r siaradwyr Cymraeg drwy gydol yr ugeinfed ganrif wedi arwain at ddarnio'r ardaloedd a ddisgrifiwyd fel 'cadarnleoedd y Gymraeg' - lle mae dwysedd neu ganran uwch o siaradwyr Cymraeg o fewn ardal ddaearyddol ddiffiniedig. Ym 1961, cofnodwyd bod 279 o gymunedau yng Nghymru (o gyfanswm o 993) lle'r oedd o leiaf 80% o'r gymuned yn gallu siarad Cymraeg. Erbyn 2001, roedd hyn yn wir am ddim ond 20 o ranbarthau etholiadol er bod 37 ychwanegol lle'r oedd mwy na 70% yn gallu siarad Cymraeg. Erbyn 2021, ledled Cymru, roedd cyfanswm o 231 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is lle'r oedd dros 40% o'r boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg ac roedd 194 o'r 231 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is hynny (84%) yn Sir Fôn, Gwynedd, Ceredigion a Sir Gâr. Yng Nghonwy, mae gan 12 o'r 71 (17%) o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is 40%+ o siaradwyr Cymraeg.

Er bod yr ardaloedd dwysedd uchel hyn wedi bod yn dirywio, maent yn parhau i fod yn ardaloedd â'r dwysedd uchaf o ran y Gymraeg lle mae'r iaith (a diwylliant) yn

[5] Aitchison, J. a Carter, H. (1998) 'The Regeneration of the Welsh Language: An analysis' An Annual Review of Economic and Social Research Contemporary Wales Cyfrol 11, tud. 167-185

ffynnu ac yn cael ei siarad wrth gynnal gweithgareddau cymdeithasol, hamdden a busnes ac nid yw'n cael ei chyfyngu i'r cartref neu'r ysgol yn unig. Yn yr ardaloedd hyn, mae'r Gymraeg yn iaith fyw, bob dydd sy'n cael ei siarad, ei chlywed a'i gweld yn y gymuned; mae'n rhan o wead y gymuned.

Mewn cyferbyniad â'r duedd hon, rydym wedi gweld cynnydd mewn siaradwyr Cymraeg yn rhanbarth Dinas Caerdydd yn cynnwys clystyrau o siaradwyr Cymraeg wedi'u lleoli gyda'i gilydd, o bosib yn creu cymunedau iaith Gymraeg dwysedd uchel newydd y dyfodol. Yn ogystal â hyn, mae cyfleoedd i siaradwyr Cymraeg greu cymunedau ar-lein lle gallant ddod at ei gilydd i ddefnyddio'r Gymraeg bob dydd, lle nad ydynt o reidrwydd wedi'u lleoli yn yr un ardal ddaearyddol, ond ar draws y byd, ac yn defnyddio technoleg i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'i gilydd. Yn ogystal, oherwydd nifer y siaradwyr Cymraeg sydd wedi allfudo o Gymru, amcangyfrifir bod oddeutu 3-4 miliwn yn awr yn byw mewn rhannau eraill o'r byd a bod oddeutu 9% ohonynt yn siarad Cymraeg 'gartref' yn y gwledydd hynny. Gellir dadlau bod nifer sylweddol o siaradwyr Cymraeg yn byw ar draws y byd ac nad ydynt yn cael eu cofnodi yng nghanlyniadau'r Cyfrifiad[6].

Wedi dweud hyn, dangosodd ganlyniadau Cyfrifiad 2021 ostyngiad clir mewn crynodiad o siaradwyr Cymraeg yng nghadarnleoedd traddodiadol y Gymraeg yng ngogledd a de-orllewin Cymru ac mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo yng nghynllun gweithredu 2024-25 i fynd i'r afael â hyn ac fe wnaethant gomisiynu Comisiwn i edrych ar gryfhau cymunedau Cymraeg.

Mae 'Dyfodol Dwyieithog/A Bilingual Future' (2002) yn cydnabod mai'r gostyngiad yn nifer y cymunedau lle siaredir y Gymraeg yn bennaf yw un o'r bygythiadau mwyaf i ddyfodol y Gymraeg. Er mwyn wynebu'r bygythiad hwn, mae Llywodraeth Cymru yn argymell creu cymunedau economaidd a chymdeithasol gynaliadwy a chefnogi polisïau a phenderfyniadau ar gynllunio a thai sy'n ystyriol o gymeriad ieithyddol y cymunedau.

Bydd lles yr iaith yn y dyfodol yn dibynnu ar amrywiaeth o ffactorau, megis addysg, y defnydd o'r Gymraeg mewn ystod eang o gyd-destunau yn cynnwys maes gwaith a

[6] Brain Drain to Brain Gain, Prifysgol Toyo Gokuen, Tokyo - Adroddiad Global Welsh Brain drain to brain gain

busnes, newid demograffig a symudiad y boblogaeth, a sylfaen economaidd gadarn a chymunedau cynaliadwy a bywiog.

Sefydlwyd y Comisiwn Cymunedau Cymraeg gan Lywodraeth Cymru yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad 'Ail gartrefi – Datblygu polisïau newydd yng Nghymru'. Roedd yr adroddiad, a gyhoeddwyd ym mis Awst 2024[7] yn amlygu bod cymunedau Cymraeg eu hiaith yn wynebu heriau strwythurol sydd wedi gwaethygu yn y blynyddoedd diweddar.

> "Mae dwysedd siaradwyr Cymraeg yn allweddol bwysig o safbwynt defnydd iaith ar lefel gymunedol. Er gwaethaf cynnydd o ran y gydnabyddiaeth genedlaethol o'r Gymraeg, bu gostyngiad sylweddol yng nghanran y siaradwyr Cymraeg yn y cymunedau hynny lle mae siaradwyr Cymraeg yn ffurfio mwyafrif, neu leiafrif sylweddol, o'r boblogaeth. Mae'r dirywiad yn fygythiad i ddyfodol y Gymraeg fel iaith gymunedol, ac felly fel iaith genedlaethol hefyd. Mae cynaliadwyedd cymunedol yn greiddiol o safbwynt dyfodol y Gymraeg."

Mae'r adroddiad yn mynd yn ei flaen i ddweud y dylid dynodi cymunedau sydd â chanran uchel, neu gymharol uchel, o siaradwyr Cymraeg fel 'ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch'. Mae'r Comisiwn o'r farn y dylai fod rhagdybiaeth o blaid dynodi'r trothwy hwn fel 40%.

Mae Adroddiad y Comisiwn yn awgrymu bod ardaloedd gyda 40% neu fwy o siaradwyr Cymraeg yn arwyddocaol oherwydd y dwysedd uwch sy'n golygu eu bod yn fwy tebygol o gael cymuned neu rwydwaith o siaradwyr Cymraeg sy'n dod at ei gilydd i hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg o ddydd i ddydd. Mae dwysedd siaradwyr Cymraeg mewn cymunedau Cymraeg yn gysylltiedig ag amlder y defnydd ohoni yn y cymunedau hynny, ac mae i hyn oblygiadau cenedlaethol o ran cwrdd â thargedau o ran defnydd o'r Gymraeg. O ganlyniad, mae meithrin cymunedau sydd â dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg yn ganolog i strategaeth iaith Llywodraeth Cymru ac i gynllunio ieithyddol yng Nghymru yn gyffredinol.

Mae'r adroddiad hefyd yn dadlau bod ardaloedd â 25% neu fwy o siaradwyr Cymraeg hefyd yn arwyddocaol. Mae'r ddau dabl canlynol o adroddiad y Comisiwn

---

[77] [Datganiad Ysgrifenedig: Comisiwn Cymunedau Cymraeg – Cam 2 (8 Awst 2024) | LLYW.CYMRU]

yn amlinellu'r Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is hynny yng Nghonwy gyda 25% a 40% o siaradwyr Cymraeg.

**Ffigur 1: Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is ym Mwrdeistref Sirol Conwy lle mae mwy na 40% yn gallu siarad Cymraeg**

| Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Is | Yn gallu siarad Cymraeg (%) |
|---|---|
| Uwchaled | 64% |
| Uwch Conwy | 62% |
| Llangernyw | 62% |
| Gower | 61% |
| Llansannan | 60% |
| Crwst | 57% |
| Eglwysbach | 54% |
| Betws-y-coed | 47% |
| Pandy | 45% |
| Bryn | 42% |
| Trefriw | 42% |
| Betws-yn-Rhos | 41% |

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2021

Noder: yn cynnwys Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is sydd o fewn ardal awdurdod cynllunio Parc Cenedlaethol Eryri

**Ffigur 2: Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is ym Mwrdeistref Sirol Conwy lle mae 25-40% yn gallu siarad Cymraeg**

| Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Is | Yn gallu siarad Cymraeg (%) |
|---|---|
| Caerhun | 39% |
| Conwy 3 | 34% |
| Pant-yr-afon / Penmaenan 2 | 34% |
| Llansanffraid 1 a 2 | 32% |

| | |
|---|---|
| Capelulo | 31% |
| Pant-yr-afon / Penmaenan 1 | 31% |
| Pensarn 1 | 29% |
| Pensarn 2 | 29% |
| Marl 2 | 28% |
| Marl 1 | 26% |

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2021

## Polisi Addysg a'r Bil Addysg Gymraeg

Yn sgil canlyniadau'r Cyfrifiad yn 2021, aeth Llywodraeth Cymru ati i ymgynghori ar Fil Addysg newydd sydd wedi bod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus ac wedi cael ei gyflwyno gerbron y Senedd ym mis Gorffennaf 2024. Mae'r taflwybr a osodwyd gan 'Cymraeg 2050' yn 2017 yn gosod nod y bydd o leiaf 40% o holl ddysgwyr mewn addysg cyfrwng Cymraeg erbyn 2050. Felly, mae'r Llywodraeth yn dymuno rhoi'r targed hwn ar sail statudol, gan ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol osod hyn fel eu targedau wrth gynllunio lleoedd ysgol. Mae'r Llywodraeth hefyd yn dymuno cyflwyno cyfres o ddiffiniadau wedi'u diwygio yn categoreiddio ysgolion yn ôl iaith ac i awdurdodau lleol nodi yn eu cynlluniau gweithredu sut y maent yn bwriadu cynyddu darpariaeth ysgolion / categorïau o ysgolion yn cynnig addysg cyfrwng Cymraeg. Mae'r Bil hefyd yn ceisio cysylltu'r cynllunio ieithyddol a wneir ar lefel genedlaethol (drwy osod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i lunio Fframwaith Cenedlaethol ar Addysg Gymraeg a Dysgu Cymraeg), ar lefel awdurdod lleol (drwy osod dyletswydd ar awdurdodau lleol i lunio Cynlluniau Strategol Lleol Cymraeg mewn Addysg), ac ar lefel ysgol (drwy osod dyletswydd ar ysgolion i lunio cynlluniau cyflawni addysg Gymraeg).

Er bod pwysigrwydd y system addysg wrth ddatblygu siaradwyr Cymraeg a sgiliau iaith Gymraeg yn amlwg yn yr ymgynghoriad, fe wnaeth yr ymatebion i'r ymgynghoriad hefyd dynnu sylw at y pwysigrwydd o roi mwy o bwyslais ar hyrwyddo'r Gymraeg y tu hwnt i addysg ac yn y gymuned ehangach. Felly, y pwysigrwydd o hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn y gwaith ac ym mywyd bob dydd.

Ar 27 Mawrth 2023, cyhoeddwyd y Papur Gwyn yn amlinellu cynigion ar gyfer Bil Addysg Gymraeg a'r rhaglen bolisi ehangach.

Pwrpas y cynigion yn y Papur Gwyn fydd hwyluso'r gwaith o gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg er mwyn cyrraedd miliwn o siaradwyr erbyn 2050. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig camau deddfwriaethol er mwyn cefnogi cynnydd disgyblion ar hyd y continwwm iaith a chefnogi pob disgybl i ddod yn siaradwr Cymraeg erbyn diwedd ei addysg statudol, a hynny erbyn 2050. Mae hyn yn cynnwys gosod seiliau cadarn i gynyddu nifer yr ysgolion cyfrwng Cymraeg, yn ogystal â chynllunio am gynnydd parhaus i wella deilliannau ieithyddol disgyblion ym mhob ysgol.

Mae Pennod 1 yn nodi'r cynigion ar gyfer gwneud y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 yn darged statudol a gwneud darpariaeth ynghylch deilliant ieithyddol i ddysgwyr drwy'r system addysg. Cynigir hefyd y dylai'r system addysg fod yn anelu i bob dysgwr gyrraedd deilliant ieithyddol penodol erbyn eu bod yn gadael yr ysgol – a hynny fel isafswm ar lefel sy'n gyfystyr â B2 Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewrop ar gyfer Ieithoedd.

Ym Mhennod 3, mae ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru i gynyddu faint o addysg Gymraeg y bydd pob ysgol sydd ddim eisoes yn un cyfrwng Cymraeg penodedig yn ei ddarparu, tra'n cynyddu'r gyfran o ddysgwyr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg. Mae'n nodi cynigion i gyflwyno categorïau ysgol newydd yn ôl cyfrwng iaith ac i alluogi Llywodraeth Cymru i bennu categori bob ysgol a gallu cynyddu'r lefel o Gymraeg dros amser.

Ar ben hynny, mae'r cynigion yn ceisio cyflawni dull mwy cydlynol o ran caffael iaith o blentyndod a blynyddoedd ysgol i ddod yn oedolyn, yn ogystal â phlethu ag awdurdodau lleol gyda'r targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg. Mae yna hefyd gynigion ar gyfer gosod targedau cenedlaethol i gynyddu nifer y staff addysgu sy'n siarad Cymraeg.

Mae Pennod 5 yn cynnig trefn newydd i'r Cynlluniau Cymraeg mewn Addysg, a fydd yn gynlluniau gweithredu ar gyfer awdurdodau lleol, yn nodi'n glir sut y maent yn

anelu i gyflawni eu targedau a fydd yn cael eu hadolygu gan Estyn, arolygydd ysgolion yng Nghymru.

## Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg

Mae'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) yn parhau i fod yn sail ar gyfer cynllunio addysg cyfrwng Cymraeg ledled Cymru. Fel hyn, bydd Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn cefnogi'r uchelgais cenedlaethol ar gyfer y Gymraeg fel y nodir yn ein strategaeth Cymraeg 2050.Eu nod yw cynyddu mynediad at ddysgu Cymraeg ar draws pob categori ysgol ym mhob rhan o Gymru, waeth beth fo cyfrwng y dysgu, er mwyn i bob dysgwr allu gwneud cynnydd parhaus o ran dysgu'r iaith a magu hyder i'w defnyddio y tu allan i leoliadau addysgol.

Mae pob CSCA yn ei le ers mis Medi 2022 ac mae pob awdurdod lleol wedi cyflwyno cynllun gweithredu ar gyfer 5-mlynedd gyntaf y Cynlluniau. Mae CSCA 2022-32 Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn gosod ei weledigaeth fel a ganlyn:

> "Rydym eisiau gweld y Gymraeg yn ffynnu. Ein huchelgais yw atal y dirywiad a chynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg. Byddwn yn parhau i hyrwyddo'r cyfleoedd i gael addysg drwy gyfrwng y Gymraeg i bob disgybl sy'n dymuno hynny, yn ogystal â datblygu a chryfhau sgiliau dwyieithog ar draws yr holl sectorau. Ein targed yw cynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg Conwy o 14%+ dros y deng mlynedd nesaf er mwyn cyrraedd nod Llywodraeth Cymru o 30% erbyn 2031."

Dyma'r canlyniadau a ymrwymwyd iddynt i gynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar draws ystod o ardaloedd:

1. Mwy o blant meithrin/plant 3 oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg
2. Mwy o blant dosbarth derbyn/plant 5 oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg
3. Mwy o blant i barhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cam o'u haddysg statudol i gam arall

4. Mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau a asesir yn y Gymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg
5. Mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau yn yr ysgol
6. Cynnydd yn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol
7. Cynnydd yn y nifer o staff addysgu sy'n gallu addysgu'r Gymraeg (fel pwnc) ac addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg

Mae gan gynllunio o fewn yr awdurdod a'r CDLIN rôl i'w chwarae i gefnogi cyflawniad y 7 nod uchod yn y CSCA presennol.

# Rhan 2 - Deddfwriaeth, Polisi a Chanllawiau Cenedlaethol

## Cyflwyniad

Mae'r holl benderfyniadau cynllunio'n destun y ddeddfwriaeth a'r canllawiau statudol a nodir yn rhan un yr adroddiad hwn. Fel hyn mae'n rhaid i bob penderfyniad cynllunio ystyried effeithiau ar y Gymraeg - yr effeithiau cadarnhaol a negyddol - a cheisio lliniaru unrhyw risgiau yn ogystal â hwyluso a hyrwyddo'r Gymraeg. Yn ogystal, mae deddfwriaeth a chanllawiau statudol penodol ar gyfer cynllunio sydd hefyd yn berthnasol ac mae'r rhan hon o'r adroddiad yn amlinellu'r prif ddeddfwriaethau, polisïau a chanllawiau cynllunio sy'n rhaid eu hystyried wrth wneud penderfyniadau cynllunio sy'n debygol o effeithio ar yr iaith Gymraeg, boed hynny mewn ffordd gadarnhaol neu negyddol.

Ers 1988 (Cylchlythyr 53/88) mae'r Gymraeg wedi bod yn ystyriaeth gynllunio berthnasol sydd i gael sylw wrth lunio polisïau defnydd tir ac wrth benderfynu ceisiadau cynllunio. Mae polisi cynllunio Llywodraeth Cymru wedi'i gynnwys ym Mholisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 12 2024), Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 a chyngor technegol yn Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 20.

Mae Adran 70(2) Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn egluro bod ystyriaethau sy'n ymwneud â'r defnydd o'r Gymraeg yn cael eu hystyried wrth bennu ceisiadau ar gyfer caniatâd cynllunio, cyn belled â'u bod yn berthnasol i'r cais. Gall hyn fod yn berthnasol yn unrhyw ran o Gymru. Mae'r ddarpariaeth hon yn golygu bod y Gymraeg yn ystyriaeth berthnasol ond nid yw'n rhoi mwy o bwys ar yr iaith Gymraeg nag ar unrhyw ystyriaeth berthnasol arall.

Mae'r system gynllunio'n gweithio yn unol â darpariaethau deddfwriaeth cynllunio gwlad a thref a deddfwriaeth ddomestig ac Ewropeaidd arall. O ran y Gymraeg a chynllunio, mae'n rhaid cadw at Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Safonau'r Gymraeg. Yn benodol, mae pob penderfyniad polisi, yn cynnwys rhai yn ymwneud â chynllunio, yn ddarostyngedig i'r safonau llunio polisi. Mae Deddf Cydraddoldeb

2010 a Deddf Hawliau Dynol 1998 hefyd yn berthnasol a dylai penderfynwyr fod yn ystyriol o'r gofynion cyfreithiol ehangach.

## Cipolwg ar y rhwymedigaethau

### Deddf yr Amgylchedd 2016

Mae Deddf yr Amgylchedd 2016 yn nodi'r ddeddfwriaeth i gynllunio a rheoli adnoddau naturiol Cymru. Mae'n cynnwys dyletswydd bioamrywiaeth uwch sy'n ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Cyhoeddus gynnal a gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo gwytnwch ecosystemau.

### Deddf Cynllunio (Cymru) 2015

Mae adrannau 11 a 31 o'r Ddeddf yn ymwneud â'r Gymraeg. Mae Adran 11 y Ddeddf yn ei gwneud yn orfodol i'r holl awdurdodau cynllunio lleol ystyried effaith eu cynlluniau datblygu ar yr iaith Gymraeg. Mae Adran 31 y Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw ystyriaethau sy'n ymwneud â'r defnydd o'r Gymraeg, i'r graddau y mae'n berthnasol i'r cais, gael eu hystyried wrth bennu ceisiadau ar gyfer caniatâd cynllunio. Gyda'i gilydd, mae'r ddwy adran yn sicrhau bod y Gymraeg yn cael ystyriaeth briodol a chyson wrth baratoi cynlluniau datblygu ac wrth bennu ceisiadau cynllunio.

### Polisi Cynllunio Cymru

Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 12) 2024 yw polisi cynllunio defnydd tir Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru a dylid ei ystyried wrth baratoi cynlluniau datblygu.

Mae Pennod 4 (Cynllunio ar gyfer Cynaliadwyedd) yn nodi bod y Gymraeg yn rhan o wead diwylliannol a chymdeithasol Cymru ac yn cadarnhau bod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei chefnogi a'i hannog i ffynnu. Gallai ystyriaethau sy'n ymwneud â'r defnydd o'r Gymraeg gael eu hystyried wrth bennu ceisiadau ar gyfer caniatâd cynllunio cyn belled â'u bod yn berthnasol i'r cais.

### Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040[8]

[8] Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 | LLYW.CYMRU

Ar ôl pandemig COVID-19, dyma strategaeth gynllunio genedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer mynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol allweddol drwy'r system gynllunio, gan gynnwys cynnal a datblygu economi bywiog; datgarboneiddio ac atal newidiadau yn yr hinsawdd; datblygu ecosystemau cryf a gwella iechyd a lles ein cymunedau. Mae meysydd allweddol yn cynnwys darparu tai cymdeithasol a fforddiadwy ac adfywio canol trefi. Mae hefyd yn dod â nifer o strategaethau a chynlluniau ynghyd (e.e. cynllun cludiant, cynllun morol) gyda'r bwriad o gyd-fynd â'i gilydd, yn hytrach na chystadlu. Mae'r strategaeth yn cynnwys yr ymrwymiad o Strategaeth y Gymraeg Llywodraeth Cymru - bod y Gymraeg yn iaith fyw, gyda dros 562,000 o siaradwyr ar draws y genedl. Yr uchelgais ar gyfer y Gymraeg yw cyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg, yn ogystal â chynyddu canran y bobl sy'n siarad Cymraeg bob dydd o 10%, erbyn 2050.

**NCT 20 - Nodyn Cyngor Technegol ar y Gymraeg**

Mae'n cydnabod bod y Gymraeg yn rhan o fywyd cymdeithasol a diwylliannol Cymru. Bydd dyfodol yr iaith ledled Cymru yn dibynnu ar nifer fawr o ffactorau tu hwnt i'r system gynllunio gwlad a thref, yn enwedig addysg, newid demograffig, gweithgareddau cymunedol a sylfaen economaidd gadarn i gynnal cymunedau ffyniannus, cynaliadwy.

Mae NCT 20 yn gofyn am asesiadau o'r effaith ar y Gymraeg ac i awdurdodau bennu ym mha amgylchiadau y mae angen cynnal yr asesiadau hyn, yn cynnwys nodi ardaloedd sy'n sensitif o ran y Gymraeg sydd angen asesiadau effaith.

**Newidiadau deddfwriaethol Erthygl 4 ar ail gartrefi a llety gwyliau**


Cyflwynwyd dau Offeryn Statudol newydd ym mis Hydref 2022 sy'n creu dosbarthiadau defnydd newydd, C5 a C6.

## Cymru'r Dyfodol

Mae'r strategaeth yn tynnu sylw at y tueddiadau, y materion a'r heriau canlynol i gynllunwyr wrth symud ymlaen:

- Rydym yn boblogaeth sy'n tyfu - mae poblogaeth Cymru wedi cynyddu 8% rhwng 1997 a 2017 a disgwylir y bydd yn cynyddu 3.7% arall erbyn 2043.
- Rydym yn boblogaeth sy'n heneiddio - rhwng 1998 a 2018, cynyddodd cyfran y boblogaeth 65 oed a throsodd o 17.4% i 20.8% a gostyngodd cyfran y boblogaeth 15 oed ac iau o 20.6% i 17.9%. Erbyn 2043 bydd gennym 30.6% yn fwy o bobl 65 oed a throsodd, a 64.9% yn fwy o bobl 75 oed a throsodd.
- Rydym yn byw'n hirach ond mae disgwyliad oes islaw'r DU yn gyffredinol. Dengys adroddiadau iechyd cyffredinol wahaniaethau gofodol amlwg ledled Cymru, gyda Chonwy a Gwynedd yn nodi'r cyfraddau uchaf o iechyd cyffredinol da neu dda iawn ar 77-78%.
- Ni allwn gymryd adnoddau naturiol, yn cynnwys y môr, mwynau, dŵr a thir a ddefnyddir i gynhyrchu'r bwyd yr ydym yn dibynnu arno, yn ganiataol.
- Ein heconomi - er i'r Gwerth Ychwanegol Gros gynyddu rhwng 1999 a 2018, mae gweithgarwch economaidd, cyflogau a chynhyrchiant yng Nghymru yn is na chyfartaledd y DU. Mae'r economi yn awr yn dibynnu'n fwy ar wasanaethau. Y sectorau a dyfodd gyflymaf rhwng 2008 a 2018 oedd gwasanaethau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol, dyletswyddau gweinyddol a chymorth; a gweinyddu cyhoeddus, amddiffyn, addysg ac iechyd.
- Teithio i'r gwaith a mewnfudiad/allfudiad - mae bron 8 miliwn o bobl yn byw o fewn 50 milltir i ffin Cymru a Lloegr. Ganed mwy nag un rhan o bump o'n poblogaeth yn Lloegr. Mae pobl yn teithio bob dydd i'r ddau gyfeiriad i weithio, siopa, cymdeithasu a defnyddio gwasanaethau a sefydliadau. Yng Nghonwy, mae rhwng 7,500 a 14,999 o bobl yn teithio allan o'r sir i'r gwaith.
- Heriau teithio yn fwy cyffredinol, yn enwedig cludiant cyhoeddus ar reilffordd - mae symud ledled Cymru yn cael ei lywio gan ein topograffi a'r pellter rhwng y prif ardaloedd adeiledig yn y gogledd a'r de. Mae'r cysylltiadau rhwng y gogledd a'r de yn dameidiog ac nid oes modd teithio rhwng rhai rhannau o Gymru yn y trên heb adael y wlad. Mae'r cysylltiadau rhwng y dwyrain a'r gorllewin yn well, ond gall y ffyrdd a'r rheilffyrdd fod dan eu sang.
- Newid hinsawdd - yn cynnwys ein targed i leihau carbon, perygl llifogydd, cynnydd o ran lefel y môr a dŵr, a chyfleoedd drwy ynni adnewyddadwy.
- Tai - yr angen i gynyddu nifer y tai cymdeithasol a fforddiadwy ledled Cymru.

Mae'r holl heriau a thueddiadau uchod wedi cael effaith ar yr iaith Gymraeg yng Nghonwy, yn cynnwys heriau o ran yr economi a thai, gan arwain at effaith allfudo net, lle mae siaradwyr Cymraeg yn teithio neu'n symud i ganfod tai fforddiadwy a chyflogaeth y tu allan i'r sir.




Mae'r strategaeth yn gosod 11 o ganlyniadau i'w cyflawni erbyn 2040: cysylltedd drwy gludiant a thechnoleg, ffyniant, cymunedau gwledig ffyniannus a threfi wedi'u hadfywio, mynd i'r afael ag iechyd a lles, y Gymraeg yn ffynnu a mwy yn ei defnyddio bob dydd, defnyddio adnoddau'n gynaliadwy, bioamrywiaeth sy'n ffynnu a gwytnwch yn erbyn newid hinsawdd.

## Polisi Cynllunio Cymru

Mae Polisi Cynllunio Cymru yn cynnwys polisïau cynllunio defnydd tir Llywodraeth Cymru. Prif nod Polisi Cynllunio Cymru yw sicrhau bod y system gynllunio yn cyfrannu at ddarparu datblygu cynaliadwy a gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru fel bo angen gan y Ddeddf Cynllunio (Cymru)

2015, y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a deddfwriaeth arall allweddol.

Mae PCC yn cael ei ategu gan gyfres o Nodiadau Cyngor Technegol, Cylchlythyrau Llywodraeth Cymru, a llythyrau'n egluro'r polisi, sydd ynghyd â PCC yn darparu'r fframwaith polisi cynllunio cenedlaethol ar gyfer Cymru.

Mae Polisi Cynllunio Cymru (PCC)[9] yn anelu i gyflawni'r weledigaeth o Gymru fel y disgrifir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: Cymru lewyrchus, Cymru gydnerth (2015), sy'n cefnogi ecosystemau iach ac yn cydnabod cyfyngiadau'r amgylchedd byd-eang, Cymru iachach, Cymru sy'n fwy cyfartal, Cymru o gymunedau mwy cydlynol, Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu a Chymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

Mae PCC yn ymgorffori ysbryd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol drwy ein symud tuag at gymdeithas gydnerth, garbon isel, darparu swyddi diogel sy'n talu'n dda, a chreu amgylcheddau sydd â chysylltiadau da i bawb yng Nghymru sy'n gwella ein bywydau a'n hiechyd ac yn gwella ein lles.

Mae PCC yn helpu i integreiddio gwasanaethau, sefydlu cydlyniant cymdeithasol, a sicrhau bod safleoedd tai newydd yn sicrhau cydraddoldeb, y gallu i ddefnyddio'r Gymraeg, ac yn hyrwyddo ymdeimlad o berthyn.

Mae hefyd yn cyfleu neges glir ein bod yn cynllunio ar gyfer ardaloedd trefol a chymunedau gwledig cydnerth yn y dyfodol, yn croesawu technoleg ac arloesi, yn cynnwys gweithio clyfar, sydd hefyd yn rhagweld cynnydd i sicrhau bod Cymru ar y blaen o ran cynllunio.

Y pum egwyddor gynllunio lefel uchel sydd wedi'u hamlinellu yn PCC yw:

1. Tyfu ein heconomi mewn ffordd gynaliadwy – sicrhau datblygu economaidd cynaliadwy i bob grŵp, yn cynnwys siaradwyr Cymraeg a defnyddwyr yr iaith yn eu cymunedau cynaliadwy a chydnerth
2. Gwneud y gorau o adnoddau – rhaid dilyn egwyddor agosatrwydd i sicrhau bod problemau'n cael eu datrys yn lleol a bod pobl leol yn gysylltiedig â nhw a'u bod yn cael eu grymuso i gyfrannu at greu'r ateb, yn hytrach na'u pasio i

[9] Polisi Cynllunio Cymru, 2018 https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-02/planning-policy-wales-edition-10.pdf

leoedd eraill neu genedlaethau'r dyfodol. Bydd hyn yn sicrhau bod tir ac adnoddau eraill yn cael eu defnyddio'n gynaliadwy yn y tymor hir a bod y Gymraeg yn tyfu'n iach.

3. Hwyluso amgylcheddau hygyrch ac iach – darparu mynediad i bawb, yn cynnwys siaradwyr Cymraeg; sicrhau bod problemau'n cael eu deall a'u datrys ar y cyfle cyntaf drwy ymgysylltu effeithiol â'r rheini y mae'r datblygiad yn effeithio arnynt neu'n gysylltiedig â nhw.
4. Creu a chynnal cymunedau – mae ar siaradwyr Cymraeg a chymunedau Cymraeg angen y cymysgedd priodol o gartrefi o ansawdd/dyluniad da, swyddi, gwasanaethau, isadeiledd a chyfleusterau fel y byddant yn teimlo'n ddiogel a bodlon yn eu bywyd pob dydd.
5. Amddiffyn yr amgylchedd a chyfyngu'r effeithiau ar yr amgylchedd – rhaid gwarchod, hyrwyddo, cadw a gwella asedau naturiol, hanesyddol ac ieithyddol/diwylliannol.

Mae'r holl egwyddorion uchod yn berthnasol i'r un graddau i'r Gymraeg a chymunedau Cymraeg – rhai trefol a gwledig. Maent yn darparu sail ddefnyddiol i asesu effaith proses llunio'r cynllun ar y Gymraeg.

## Creu lleoedd

Mae PCC yn nodi y dylai pob penderfyniad datblygu, naill ai trwy ddewisiadau polisi mewn cynlluniau datblygu neu drwy benderfyniadau rheoli datblygu unigol, geisio cyfrannu at greu mannau cynaliadwy a gwella llesiant.


> "Dylai pob penderfyniad datblygu, naill ai trwy ddewisiadau polisi mewn cynlluniau datblygu neu drwy benderfyniadau rheoli datblygu unigol, geisio cyfrannu at greu mannau cynaliadwy a gwella llesiant.[10]"

Dylai'r system gynllunio greu lleoedd cynaliadwy, sy'n ddeniadol, cymdeithasol, hygyrch, actif, diogel, croesawgar, iach a chyfeillgar. Dylai cynigion datblygu greu'r amodau i ddod â phobl at ei gilydd, gan greu awydd i fyw, gweithio a chwarae mewn ardaloedd sydd ag ymdeimlad o le a lles, gan greu ffyniant i bawb.

[10] PCC 2018 - Polisi Cynllunio Cymru (2018) Llywodraeth Cymru


Er bod PCC yn datgan na fydd pob cynnig ar ddatblygu neu bolisi yn gallu dangos ei fod yn cwrdd â'r holl ganlyniadau creu lleoedd, nid yw hyn yn golygu na ddylid eu hystyried yn y broses rheoli datblygu i weld a ellir gwella neu ehangu'r cynnig i hyrwyddo lles ehangach. Cyfrifoldeb datblygwyr ac awdurdodau cynllunio yw nodi'r cyfleoedd hyn a gweithredu arnynt.

Un o Ganlyniadau Creu Lleoedd yw - Creu a Chynnal Cymunedau:
Galluogi'r Gymraeg i Ffynnu.




Mae'r Gymraeg wedi'i rhestru o dan Thema Dewisiadau Strategol a Gofodol yn y diagram yn Ffigur 5 yn PCC, sydd wedi'i ddangos uchod. Rhaid asesu pob penderfyniad cynllunio yn gyntaf ar sail y Dewisiadau Strategol a Gofodol, fel y mae'r diagram llif ar wneud penderfyniadau yn dangos isod.

Diagram Llif Gwneud Penderfyniadau (PCC 2018):




## Creu Lleoedd a'r Gymraeg

Mae'r gwerth cynhenid sydd mewn lle i bobl a'u cymunedau yn bwysig iawn, ac yn gysylltiedig â ffactorau sy'n cynnwys iaith, diwylliant, hanes, treftadaeth a hunaniaethau. Mae'r ymdeimlad o le a pherthynas pobl a lleoedd yn bwysig. Mae ymdeimlad o le yn gysylltiedig ag ymdeimlad o berthyn, ymdeimlad o hunaniaeth a phan fydd y rhain yn gadarn a chynaliadwy, byddant yn hybu iechyd a llesiant pobl[11].

Mae'r Gymraeg yn rhan o wead cymdeithasol a diwylliannol Conwy a Chymru a bydd ei lles yn y dyfodol yn dibynnu ar amrywiaeth eang o ffactorau, yn enwedig addysg, newid demograffig, gweithgareddau cymunedol a sylfaen economaidd gadarn i gynnal cymunedau a lleoedd cynaliadwy. Dylai'r system cynllunio defnydd tir roi sylw i'r amodau sy'n hanfodol i'r Gymraeg a chyfrannu, wrth wneud hynny, at y defnydd ohoni a'r nod lles ar gyfer 'Y Gymraeg yn Ffynnu'. Mae hyn wedi'i gyfleu'n glir yn PCC i'w ddilyn gan awdurdodau cynllunio.

Mae cymunedau bywiog a chynaliadwy yn allweddol i Bolisi Cynllunio Cymru - polisi cynllunio cenedlaethol. Mae'n nodi y dylai cynigion datblygu greu'r amodau i ddod â phobl at ei gilydd, gan greu awydd i fyw, gweithio a chwarae mewn ardaloedd sydd ag ymdeimlad o le a lles, gan greu ffyniant i bawb. Mae hyn yn berthnasol i siaradwyr Cymraeg a'u cymunedau - ac felly mae angen i'r penderfyniadau cynllunio a wneir gan yr awdurdod lleol hyrwyddo a hwyluso hyn.

[11] Gweler cyfeiriadau yn y llyfryddiaeth yn cynnwys Etzioni, Bernstein, Baker, Carter ac Aitchinson.

Mae cyfleusterau cymunedol yn cyfrannu at synnwyr o le sy'n bwysig i iechyd, lles ac amwynder cymunedau lleol ac mae eu bodolaeth yn aml yn elfen allweddol mewn creu lleoedd hyfyw a chynaliadwy. Gallant gynnwys ysgolion, cyfleusterau diwylliannol, gwasanaethau iechyd, llyfrgelloedd, rhandiroedd a mannau addoli.

Mae Cymunedau Cymraeg Cydlynus yn cael eu cynnal a'u creu drwy ddarparu lleoedd i bobl ryngweithio a chynnal gweithgareddau cymunedol, gan gynnwys mannau hamdden, chwarae, tyfu bwyd a chyfleoedd i gysylltu â natur. Mae cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn bywyd pob dydd yn bwysig.

Mae PCC hefyd yn trafod Lleoedd Unigryw. Pan fydd y Gymraeg yn cael ei gweld a'i chlywed mewn lle, bydd hyn yn rhoi ymdeimlad o le unigryw. Pan fydd y Gymraeg yn egnïol a bywiog, bydd hyn hefyd yn ei dro yn sicrhau bod y gymuned yn egnïol.

Mae PCC yn nodi hefyd fod Lleoedd Strategol – ac mae'r Gymraeg yn rhan o'r disgrifiad hwn – yn flaenoriaeth genedlaethol bwysig.

> "Bydd Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu yn golygu adeiladu ar y nodweddion unigryw ac arbennig sy'n rhoi 'ymdeimlad' a hunaniaeth unigryw i leoedd. Meithrin a chynnal ymdeimlad o le drwy amddiffyn a gwella'r amgylchedd naturiol, hanesyddol ac adeiledig a darparu ar gyfer a chefnogi defnyddiau a gweithgareddau sy'n darparu ar gyfer profiadau creadigol a diwylliannol" (PCC, 2018).

Mae Lleoedd Cynhyrchiol a Mentrus yn rhai sy'n hyrwyddo ein lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol trwy ddarparu cyflogaeth gysylltiedig a datblygiad economaidd cynaliadwy.

Bydd diwylliant bywiog a ffyniant y Gymraeg yn cael eu cefnogi drwy ddarparu swyddi a gweithgarwch economaidd y bydd angen eu cynllunio a'u rheoli'n strategol. Mae'r Gymraeg a'i diwylliant yn cyfrannu mewn ffordd unigryw at hyfywedd cymunedau. Mae angen hyrwyddo ein harlwy i ymwelwyr hefyd er mwyn elwa o'r gefnogaeth i weithgareddau sy'n adlewyrchu ein diwylliant unigryw. Yn wir, mae grŵp y Gymraeg a'r economi yn Llywodraeth Cymru wedi cynnal ymchwil sy'n dangos bod economi fywiog yn cynnal iaith a diwylliant bywiog, a hefyd bod iaith a diwylliant byw yn hybu'r economi.

Fel y mae PCC yn datgan, “Y system gynllunio yw’r prif fecanwaith ar gyfer darparu mannau cynaliadwy. Mae’n darparu mecanwaith hollbwysig lle mae cyfleoedd ar gyfer budd hirdymor a phenderfyniadau integredig yn dod ynghyd, sy’n caniatáu dod o hyd i atebion ataliol a rhagweithiol.”

Rhaid i bolisïau, cynigion a phenderfyniadau geisio hyrwyddo datblygu cynaliadwy a chefnogi lles pobl a chymunedau ledled Cymru.

**Crynodeb o’r Prif Ofynion o dan PCC**

Rhaid i awdurdodau cynllunio ystyried effeithiau tebygol eu cynlluniau datblygu ar y defnydd o’r Gymraeg fel rhan o’r Arfarniad Cynaliadwyedd.

Dylai awdurdodau cynllunio geisio sicrhau dosbarthiad a chyflwyniad eang i’r datblygiad sy’n ystyried gallu’r ardal neu’r gymuned i ganiatáu’r datblygiad heb gael effaith andwyol ar y defnydd o’r Gymraeg.

Dylai cynlluniau datblygu gynnwys datganiad ar sut mae awdurdodau cynllunio wedi ystyried anghenion a buddiannau’r Gymraeg wrth baratoi’r cynllun a sut mae unrhyw bolisïau yn ymwneud â’r Gymraeg yn rhyngweithio â pholisïau eraill.

Gall ystyriaethau yn ymwneud â’r defnydd o’r Gymraeg gael sylw gan y rhai sy’n gwneud penderfyniadau cyn belled â’u bod yn berthnasol i geisiadau am ganiatâd cynllunio. Ni ddylai polisïau a phenderfyniadau gyflwyno unrhyw elfen o wahaniaethu rhwng unigolion yn seiliedig ar eu gallu ieithyddol, ac ni ddylent geisio rheoli deiliadaeth tai ar sail ieithyddol.

Os bydd angen, gellir cynnal asesiadau o’r effaith ar yr iaith mewn perthynas â datblygiadau mawr na ddyrannwyd mewn cynllun datblygu sy’n cael eu cynnig mewn ardaloedd o sensitifrwydd neu bwysigrwydd arbennig i’r iaith. Dylai unrhyw ardaloedd o’r fath fod wedi’u diffinio’n glir yn y cynllun datblygu.

Nodwyd yn y Strategaeth a Ffefrir (2019) gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy:

> “bydd y cysyniad o greu lleoedd yn elfen allweddol yn Strategaeth a Ffefrir Conwy ar gyfer cyflawni nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a gwneud penderfyniadau yng Nghonwy wrth lunio'r cynllun a rheoli datblygu i greu lleoedd cynaliadwy.”

## Nodyn Cyngor Technegol 20

Mae 'Nodyn Cyngor Technegol (NCT) 20: Cynllunio a'r Gymraeg[12]' yn darparu canllawiau atodol i Ran 4 Polisi Cynllunio Cymru. Dylai awdurdodau cynllunio ystyried Nodiadau Cyngor Technegol a Chylchlythyrau wrth baratoi cynlluniau datblygu ac wrth benderfynu ceisiadau cynllunio.

Diweddarwyd NCT 20 ym mis Hydref 2017. Mae Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 20 "Cynllunio a'r Gymraeg" (Hydref 2013) wedi'i ganslo. Mae'r ddogfen atodol Nodyn Cyngor Technegol 20: Canllaw Ymarfer (Mehefin 2014) wedi'i chanslo hefyd.

Fel y nodir yn Nodyn Cyngor Technegol 20 (Hydref 2017):

> "Gall y system gynllunio gyfrannu at les y Gymraeg yn y dyfodol trwy greu'r amodau fyddai'n caniatáu i gymunedau cynaliadwy ffynnu. Er enghraifft, mae creu'r amgylchiadau ar gyfer cyfleoedd gwaith sy'n talu'n dda ac ystod eang o dai o safon yn greiddiol i gynllunio ar gyfer cymunedau cynaliadwy."

Mae prif egwyddorion y dull hwn o weithredu fel a ganlyn:

- Dull a arweinir gan gynllun - fel bod penderfyniadau cynllunio'n seiliedig ar y Cynllun Datblygu Lleol. Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i system wedi'i harwain gan gynllun, lle mae penderfyniadau ar geisiadau cynllunio ac apeliadau yn cael eu gwneud yn unol â chynllun datblygu a fabwysiadwyd oni bai bod ystyriaethau perthnasol eraill yn gorbwyso. Mae'r Gymraeg yn un ystyriaeth berthnasol o'r fath.
- Seiliedig ar anghenion ac wedi'i wreiddio mewn datblygu cynaliadwy – mae'n amlinellu gweledigaeth o'r ffordd y disgwylir i leoedd newid o ran defnydd tir i ddarparu ar gyfer anghenion datblygu dros gyfnod y cynllun.
- Penderfyniadau cynllunio tryloyw, cyson a theg sydd wedi'u seilio ar dystiolaeth a dull rhesymegol o weithredu
- Prosesau cynllunio effeithiol ac effeithlon
- Ystyried effeithiau cronnol cynigion/penderfyniadau cynllunio ar y Gymraeg

[12] Llywodraeth Cymru (2017) Nodyn Cyngor Technegol (NCT) 20: cynllunio a'r Gymraeg https://www.llyw.cymru/nodyn-cyngor-technegol-tan-20-cynllunio-ar-gymraeg

- Darparu cyfle i ystyried effeithiau'r cynllun ar y gymuned ehangach ac ardal ehangach y cynllun gyda'i gilydd.

Mae Nodyn Cyngor Technegol 20 (2017) yn datgan bod y Gymraeg yn ystyriaeth berthnasol sydd i gael sylw ochr yn ochr â materion perthnasol eraill. Nid yw adran 70(2) Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (fel y'i diwygiwyd) yn rhoi mwy o bwys ar yr iaith Gymraeg nag ar unrhyw ystyriaeth berthnasol arall a rhaid i bob penderfyniad ynghylch cais am ganiatâd cynllunio fod yn seiliedig ar yr ystyriaethau cynllunio yn unig a bod yn rhesymol.

Efallai y bydd achlysuron pan fydd un budd o gynnig datblygu neu ddyraniad safle yn bwysicach nag eraill ac, mewn achosion o'r fath, dylid cyflwyno tystiolaeth gadarn i ategu'r penderfyniadau hyn, gan geisio sicrhau'r cyfraniadau mwyaf posibl yr un pryd at gyflawni'r holl nodau lles.

Dylid nodi: "Rhaid gofalu nad yw polisïau'r CDLl yn gwahaniaethu yn erbyn unigolion ar sail eu gallu ieithyddol". Rhaid i bolisïau cynllunio beidio â cheisio rheoli pwy sy'n byw mewn tŷ ar sail ieithyddol." (paragraff 2.6.4 Nodyn Cyngor Technegol 20).

## Asesiadau effaith

Mae Nodyn Cyngor Technegol 20 yn nodi nad yw o reidrwydd yn ofynnol i gynnal asesiadau effaith ar gyfer pob safle. Mae angen cynnal asesiadau effaith ar gyfer y canlynol:

1. Penderfyniadau polisi arwyddocaol (fel y nodir yn safonau'r Gymraeg)
2. Datblygiad ar raddfa fawr – sy'n cael ei ddiffinio fel arfer fel datblygiad o 10 neu ragor o anheddau preswyl neu ddatblygiad o fwy na 1,000 metr sgwâr neu 1 hectar, ond gall Awdurdodau Cynllunio Lleol osod trothwyon priodol lleol yn y CDLl, yn seiliedig ar dystiolaeth.
3. Ardaloedd ieithyddol sensitif
4. Ardaloedd diffiniedig

Mae rhan pedwar yr adroddiad hwn yn nodi ymagwedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy tuag at yr uchod yn eu polisi.

O dan Nodyn Cyngor Technegol 20 mae gofyn i awdurdodau cynllunio bennu ardaloedd ieithyddol sensitif.  Yr ardaloedd diffiniedig hyn yw'r rheini lle mae'r Gymraeg yn cael ei hystyried yn fater neilltuol o sensitif neu bwysig. Rhaid dangos unrhyw ardaloedd o'r fath yn glir ar Fap Cynigion y CDLl a darparu'r sail resymegol iddynt a thystiolaeth i ddangos sut y pennwyd eu ffiniau.

Trwy ddiffinio ardaloedd o'r fath, bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn gallu dangos yn glir i gymunedau a datblygwyr lle gall defnydd o'r Gymraeg fod yn ystyriaeth. Bydd hyn hefyd yn dangos yr ardaloedd lle y gall mesurau i liniaru effeithiau datblygu ar y Gymraeg fod yn angenrheidiol.

Disgwylir i awdurdodau cynllunio bennu eu hardaloedd ieithyddol sensitif ac amlinellu eu dull o asesu effeithiau.

Mae'n bosibl na fydd union leoliad a graddfa'r datblygiadau ar hap-safleoedd unigol yn hysbys ar gam llunio'r cynllun, ond fe all awdurdodau lleol ystyried maint eu cyfraniad ac a fydd lefel y datblygiadau disgwyliedig ar hap-safleoedd yn gallu effeithio ar y defnydd o'r Gymraeg.

Mae angen i'r awdurdod gynnal asesiad lefel uchel o'r effaith ar y Gymraeg wrth baratoi'r CDLlN. Rhaid cynnwys asesiad o effaith fel rhan o'r Arfarniad Strategol. Bydd yr asesiad lefel uchel o effeithiau ar gam llunio'r CDLl yn ceisio canfod pa waith ychwanegol fydd ei angen i asesu effeithiau, yn cynnwys unrhyw asesiadau o effeithiau ar y cam ymgeisio ar gyfer datblygiadau ar raddfa fawr ar hap-safleoedd.

## Ffactorau i'w hystyried

Mae'r canllawiau yn Nodyn Cyngor Technegol 20 hefyd yn cynnwys rhestr ddangosol o ffactorau y gellid eu cynnwys mewn asesiad o effeithiau, ac ni fwriedir i'r rhestr fod yn hollgynhwysol:

<u>Tai</u>

- graddfa a lleoliad twf
- math, deiliadaeth a maint y cartrefi newydd arfaethedig
- polisïau a thargedau tai fforddiadwy
- polisi fesul cyfnod

- datblygiadau tai ar hap-safleoedd[13].

Tir Cyflogaeth

- graddfa a lleoliad y ddarpariaeth
- darpariaeth ar gyfer busnesau lleol, busnesau bach a chanolig a chynlluniau mewnfuddsoddi ar raddfa fawr.

Cyfleusterau Cymunedol ac Isadeiledd Addysg

- lleoliad y cyfleusterau arfaethedig a'u hagosrwydd at ardaloedd preswyl

Rhwymedigaethau Cynllunio

- y defnydd priodol o gytundebau a.106 a/neu restr taliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol ar gyfer darparu isadeiledd i gefnogi'r Gymraeg.

Arwyddion

- hybu'r defnydd o arwyddion Cymraeg sy'n gallu arwain at ddatblygu'r Gymraeg yn nodwedd weledol mewn ardal.

## Mesurau lliniaru a chamau gweithredu i hyrwyddo effeithiau cadarnhaol

Mae Nodyn Cyngor Technegol 20 yn datgan y dylid pennu mesurau i liniaru effeithiau niweidiol a chamau i hyrwyddo effeithiau cadarnhaol ar gam llunio'r cynllun datblygu. Drwy wneud hyn ar y cam hwn, bydd y datblygwr yn ymwybodol o oblygiadau'r mesurau hynny wrth baratoi cais cynllunio. Dylai hyn fod o gymorth i ymgysylltu â'r gymuned hefyd -gan y bydd cynigion mwy cadarn ac adeiladol ar gam llunio'r cynllun yn lleihau gwrthdaro posibl ar gam y cais cynllunio.

Dylid amlinellu mesurau lliniaru yn y Cynllun i'w Archwilio gan y Cyhoedd, a gellir cynnwys materion manwl hefyd mewn Canllawiau Cynllunio Atodol. Gallai hyn gynnwys briffio ar gyfer datblygu ar safleoedd penodol.

[13]Tybir mai hap-safleoedd mawr yw'r rheini ar gyfer 10+ o anheddau nad oeddent wedi'u dyrannu i'w datblygu, ond lle'r oedd egwyddor datblygu preswyl yn cael ei hystyried yn dderbyniol, beth bynnag am y sefyllfa o ran y cyflenwad o dir ar gyfer tai (PC07 – Cyflenwad Tir ar gyfer Tai).

Er mwyn sicrhau bod mesurau lliniaru yn cael eu cymryd, mae'n bosibl y bydd angen defnyddio'r Ardreth Seilwaith Cymunedol neu gytundebau adran 106. Gellir cynnwys darpariaeth o isadeiledd i gefnogi'r defnydd o'r Gymraeg mewn rhestr taliadau Ardreth Seilwaith Cymunedol yn unol â'r holl ddeddfwriaeth gymwysadwy, yn cynnwys darpariaethau Deddf Cynllunio 2008 a Rheoliadau'r Ardreth Seilwaith Cymunedol 2010.

Mae Nodyn Cyngor Technegol 20 yn darparu awgrymiadau am ddulliau strategol a all hybu'r iaith, fel y canlynol:

- camau pendant i hyrwyddo diwylliant a threftadaeth leol;
- cynllunio maint a dosbarthiad gofodol y datblygiadau a'r seilwaith newydd, yn enwedig lle byddai hyn yn helpu i hybu cynaliadwyedd y gymuned;
- cyflawni datblygiadau tai a chyflogaeth strategol yn raddol;
- pennu ardaloedd ieithyddol sensitif neu bwysig;

## Cyfraniadau

Mae'r canlynol yn bedwar math o gyfraniad – rhai ariannol ac eraill:

a) Cyfraniadau mewn Nwyddau neu Wasanaethau – Y datblygwr yn cyflawni'r gwaith gofynnol yn uniongyrchol.
b) Cyfraniadau Ar y Safle / Oddi ar y Safle – Y datblygwr yn cyfrannu'n ariannol at ddarparu mesurau a fyddai'n lliniaru effeithiau niweidiol y datblygiad.
c) Cyfraniadau Cyfun – Gall y Cyngor geisio cyfuno cyfraniadau gan un neu ragor o ddatblygwyr ledled y Fwrdeistref Sirol, er mwyn delio â'r effeithiau ehangach ar draws datblygiadau.
d) Cyfraniad drwy ardoll o dan A106 yn unol â Nodyn Cyngor Technegol 20 at dai fforddiadwy.

### Arwyddion

Mae Nodyn Cyngor Technegol 20 hefyd yn cynnwys canllawiau ar ddefnyddio'r Gymraeg ar arwyddion. Gall hyn hybu'r ymdeimlad o berthyn a hunaniaeth ymysg

siaradwyr Cymraeg a dysgwyr Cymraeg a helpu i hybu'r defnydd o'r Gymraeg mewn bywyd bob dydd. Mae'r defnydd o'r Gymraeg ar arwyddion hefyd yn rhoi ymdeimlad o le a gall wella'r arlwy i ymwelwyr o ran y gyrchfan a thwristiaeth ddiwylliannol - gan wneud Conwy yn lle unigryw ac arbennig.

Felly, meddai Nodyn Cyngor Technegol 20; "Gall arwyddion gael effaith weledol drom ar gymeriad ardal, gan gynnwys ei chymeriad ieithyddol. Maent hefyd yn un ffordd o hybu diwylliant unigryw Cymru, sy'n arwyddocaol o safbwynt hunaniaeth gwahanol gymunedau a'r diwydiant twristiaeth. Gall polisïau CDLlau ar arwyddion a hysbysebion sy'n destun rheolau cynllunio hybu darparu arwyddion dwyieithog."

## Diwygio'r Cynllun Ymgysylltu â'r Gymuned yn unol â Nodyn Cyngor Technegol 20 a Safonau'r Gymraeg

Yn unol â gofynion Safonau'r Gymraeg, mae'n rhaid i'r awdurdod ddiweddaru ei Gynllun Ymgysylltu â'r Gymuned yn unol â safonau 88-90.Safonau'r Gymraeg. Yn ogystal â darparu dogfennau'r Strategaeth a Ffefrir a'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg yn Gymraeg ar gyfer darparu adborth yn Gymraeg, rhaid i'r Gymraeg fod yn rhan o gynnwys y ddogfen ymgynghori. Yn benodol, rhaid i'r awdurdod ofyn am farn ar yr effeithiau ar y Gymraeg – barn gadarnhaol a negyddol – a chyfleoedd i'w hyrwyddo a'i chefnogi.

## Nodyn Cyngor Technegol 6 – Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy, 2010

Mae Nodyn Cyngor Technegol 6[14] yn datgan y dylai awdurdodau cynllunio gefnogi arallgyfeirio yn yr economi wledig fel modd i ddarparu cyfleoedd cyflogaeth lleol, cynyddu ffyniant economaidd lleol a lleihau'r angen i deithio i gael cyflogaeth. Gan fod nifer o'r cynghorau cymuned a wardiau ledled Conwy lle mae mwy na chwarter neu hanner y boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg yn rhai sydd mewn ardaloedd

[14] Nodyn Cyngor Technegol 6, Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy, Gorffennaf 2010 https://gweddill.gov.wales/docs/desh/policy/100722tan6en.pdf

gwledig, mae Nodyn Cyngor Technegol 6 yn ddefnyddiol a pherthnasol iawn. Mae Papur Cefndir 16: Cynllunio a'r Economi Wledig CDLIN Conwy hefyd yn berthnasol.

## Tai fforddiadwy mewn ardaloedd gwledig

Mewn ardaloedd gwledig, mae Nodyn Cyngor Technegol 6 yn datgan efallai y bydd awdurdodau cynllunio am roi blaenoriaeth i dai fforddiadwy er mwyn diwallu anghenion lleol. Gallant wneud hyn drwy glustnodi'r clystyrau a'r pentrefi llai hynny lle bydd datblygu tai yn y dyfodol yn gyfyngedig i'r categori hwn. Dylid darparu ar gyfer yr angen am dai fforddiadwy cyffredinol a thai'r farchnad agored rywle arall yn ardal yr awdurdod cynllunio.

Dylai awdurdodau cynllunio ddefnyddio pob ymagwedd bolisi sydd ar gael, mewn modd arloesol, i sicrhau'r cyflenwad mwyaf posibl o dai fforddiadwy fel y'i diffinnir yn Nodyn Cyngor Technegol 2. Dylai awdurdodau cynllunio fabwysiadu dull hyblyg o gyflenwi mewn cymunedau gwledig llai. Mewn clystyrau ac aneddiadau llai, dylai awdurdodau cynllunio ymgysylltu'n rhagweithiol â'r gymuned leol a swyddogion galluogi tai gwledig i gyflwyno safleoedd ar gyfer tai fforddiadwy i ddiwallu anghenion lleol. Dylent anelu at ddatblygu gweledigaeth eglur o sut y gellir diwallu'r angen lleol am dai fforddiadwy a gwella cynaliadwyedd y gymuned gyfan.

Dylai awdurdodau cynllunio sicrhau bod y tai fforddiadwy'n darparu ar gyfer anghenion lleol gwirioneddol, eu bod yn fforddiadwy am byth, wedi'u dylunio'n dda ac o'r raddfa gywir. Dylid naill ai dethol safleoedd ar gyfer tai fforddiadwy fel rhan o broses y cynllun datblygu neu eu cyflwyno fel safleoedd eithriedig tai fforddiadwy.

## Tai'r farchnad agored at anghenion lleol

Mae PCC yn caniatáu i awdurdodau cynllunio lleol ddargyfeirio o'r dull polisi cenedlaethol arferol ar gyfer tai drwy gyfyngu ar feddiannaeth tai'r farchnad agored i ddiwallu anghenion tai lleol. Mae Papur Cefndir 69 y CDLIN yn darparu manylion pellach ar hyn.

## Gwasanaethau mewn cymunedau gwledig

Er mwyn sicrhau bod cymunedau'n gynaliadwy yn y tymor hir bydd angen i breswylwyr gwledig gael mynediad rhesymol at wasanaethau lleol hanfodol. Wrth baratoi cynlluniau datblygu dylai awdurdodau cynllunio gael gwybodaeth am y gwasanaethau sydd ar gael ar draws yr ardal. Bydd hyn yn help i nodi'r lleoliadau mwyaf cynaliadwy ar gyfer datblygiad sydd i fod i ddiwallu angen cyffredinol a lleoliadau lle dylid mynd ati yn fwy rhyngweithiol i ddiwallu anghenion gwasanaeth cymunedol hanfodol.

## Tai fforddiadwy ac effaith ail gartrefi

Cyflwynwyd dau Offeryn Statudol newydd ym mis Hydref 2022 sy'n creu dosbarthiadau defnydd newydd, C5 a C6. Dyma'r 3 dosbarth defnydd sydd bellach wedi'u cynnwys:

i) C3 (tai annedd a ddefnyddir fel unig neu brif breswylfa a'i feddiannu am fwy na 183 diwrnod mewn blwyddyn galendr);
ii) C5 (tai annedd a ddefnyddir yn wahanol i unig neu brif breswylfa a'u meddiannu am 183 diwrnod neu lai mewn blwyddyn galendr);
iii) C6 (tai annedd a ddefnyddir ar gyfer llety gosod tymor byr masnachol heb fod am fwy na 31 diwrnod ar gyfer pob cyfnod o feddiannaeth).

Ar yr un pryd, diwygiodd Llywodraeth Cymru y Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 i ganiatáu ar gyfer newidiadau a ganiateir rhwng y dosbarthiadau defnydd newydd. Yn ogystal â newid dosbarthiadau defnydd, mae awdurdodau lleol hefyd yn gallu cyfyngu defnydd datblygiad i un dosbarth defnydd penodol.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi diwygio Polisi Cynllunio Cymru (yn rhifyn 12) er mwyn ei gwneud yn glir, lle bo'n berthnasol, bod yn rhaid rhoi ystyriaeth i nifer yr ail gartrefi a llety tymor byr mewn ardal wrth ystyried gofynion tai ac ymagweddau polisi mewn Cynlluniau Datblygu Lleol. Mae Conwy wedi ystyried hyn ers dechrau'r CDLIN

fel rhan o’r strategaeth dwf. Gellir gweld rhagor o fanylion ym mhapur cefndir 1 y CDLIN.

Bydd cyffredinolrwydd ail gartrefi a llety tymor byr yn yr ardal, yn ogystal â thystiolaeth o heriau mewn perthynas â fforddiadwyedd tai neu argaeledd y stoc dai yn yr ardal, yn ogystal â thystiolaeth o allfudo, yn ystyriaethau perthnasol yn y CDLIN wrth symud ymlaen. Mae Papur Cefndir 52 yn ystyried y dull polisi hwn.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi diwygio Polisi Cynllunio Cymru er mwyn ei gwneud yn glir, lle bo’n berthnasol, bod yn rhaid rhoi ystyriaeth i nifer yr ail gartrefi a llety tymor byr mewn ardal wrth ystyried gofynion tai ac ymagweddau polisi mewn Cynlluniau Datblygu Lleol. Mae Papur Cefndir 52 yn ystyried hyn ymhellach:

1. Bydd yr angen am dai fforddiadwy i bobl leol a mynd i’r afael â’r flaenoriaeth yn y CDLIN i ddarparu cyfleoedd deniadol ac ymarferol i barhau i fyw a gweithio yn y fwrdeistref yn cael eu hystyried.
2. Mae Papur Cefndir 69: Tai Gwledig yn ystyried ystod o ddangosyddion ar gyfer asesu dewisiadau polisi tai mewn ardaloedd gwledig. Mae polisi sy’n caniatáu cyfyngu meddiannaeth tai’r farchnad agored i drigolion gyda chysylltiad lleol yn un maes y mae’r papur yn ei argymell ar gyfer Ardal Strategaeth Datblygu Gwledig y CDLIN. Mae’r papur hefyd yn argymell amod meddiannaeth C3 ar gyfer unrhyw gartref newydd, sy’n ei gyfyngu i ddefnydd C3 preswylfa barhaol yn unig, ac ni fydd yn caniatáu newidiadau i C5 ail gartrefi neu C6 llety gwyliau tymor byr.

Ceir tystiolaeth helaeth o effaith negyddol cyffredinolrwydd ail gartrefi ar y Gymraeg. Mae’r dystiolaeth hon i’w gweld gan Lywodraeth Cymru, grwpiau buddiant o ran y Gymraeg a’r wasg. Yn 2022, cyhoeddodd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg gyfres o gamau gweithredu i fynd i’r afael â heriau ail gartrefi ar y Gymraeg. Mae’r rhain yn cynnwys cynllun i annog gwerthwyr tai i werthu i bobl leol a chynllun trwyddedu ar gyfer llety i ymwelwyr / twristiaid. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi ymestyn y pwerau disgresiwn i awdurdodau lleol gynyddu treth y cyngor ar ail gartrefi a thai sy’n wag am gyfnod hir hyd at 300%. Penderfynwyd yng nghyfarfod Cyngor Llawn CBSC ar 17/10/2024 i godi premiwm o 150% ar ail gartrefi o fis Ebrill 2025, gyda

phremiwm dangosol o 200% o fis Ebrill 2026. Mae premiwm o 100% ar ail gartrefi ar hyn o bryd.

## Diffinio ardaloedd sy'n sensitif o ran y Gymraeg

Mae canllaw statudol NCT 20 yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r awdurdod cynllunio lleol bennu ardaloedd ieithyddol sensitif o fewn ardal y cynllun. Mae'n rhaid i'r rhain gael eu diffinio gan yr awdurdod lleol gan nad oes unrhyw ganllawiau cenedlaethol ar yr union ardaloedd i'w cynnwys. Fodd bynnag, mae yna adroddiadau cenedlaethol y mae'r awdurdod wedi gallu eu defnyddio; sef 'Cynllunio a'r Iaith Gymraeg: y ffordd ymlaen (2015)' sy'n parhau i fod yn berthnasol er ei fod wedi dyddio, ac adroddiad mwy diweddar o fis Awst 2024 gan y Comisiwn Cymunedau Cymraeg ar gymunedau gyda dwysedd uwch o siaradwyr Cymraeg.

### Cynllunio a'r Gymraeg: y Ffordd Ymlaen (2005)[15]

Mae'r ddogfen hon yn arddangos y gwaith a gwblhawyd gan gonsortiwm o sefydliadau, yn cynnwys awdurdodau lleol, Bwrdd yr Iaith Gymraeg, Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi a Llywodraeth Cymru. Mae'r ddogfen yn cynrychioli ymdrechion yr holl bartneriaid gyda'i gilydd ac yn darparu canllawiau arferion gorau ar y fethodoleg ar gyfer ymgymryd ag asesiadau o'r effaith ar y Gymraeg.

Er bod y Gymraeg wedi bod yn ystyriaeth gynllunio berthnasol ers 1988, "mae Awdurdodau Cynllunio Lleol wedi'i chael yn anodd cymhwyso'r polisi a'r canllawiau. Mewn ymateb i hyn, roedd 16 o awdurdodau cynllunio lleol, Bwrdd yr Iaith Gymraeg a Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi comisiynu astudiaeth gan Ysgol Gynllunio Bartlett, University College London (UCL) o dan arweiniad y Dr Mark Tewdwr-Jones, i lunio pecyn gwaith ar y Gymraeg mewn cynllunio."

Roedd argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:

[15] Cynllunio a'r Gymraeg: y Ffordd Ymlaen (2005) file:///C:/Users/Rachel/Documents/Rachel/RHD%20Consultancy/Tendrau/Conwy%20-%20cynllunio/Conwy%20-%20planning%20-%20the%20way%20ahead_and_the_welsh_language_document.pdf

- Dylai Awdurdodau Cynllunio Lleol roi sylw i’w strategaethau cymunedol ac ymgysylltu â’u cymunedau drwy Gynlluniau Cynnwys Cymunedau y CDLl wrth baratoi polisïau ieithyddol ar ddefnydd tir
- Ar gyfer y proffilio cychwynnol, dylai Awdurdodau Cynllunio Lleol ddechrau diffinio Ardaloedd Ieithyddol Sensitif yn eu hardaloedd ar sail trothwy lle mae 25% neu ragor o ardal y Cyngor Cymuned yn siarad Cymraeg. Fodd bynnag, mater i’r Awdurdod Cynllunio Lleol fydd penderfynu dalgylch yr Ardaloedd Ieithyddol Sensitif diffiniedig drwy broses y cynllun datblygu a gallai gynnwys aneddiadau unigol y tu allan i’r ardal a ddiffinnir ar sail y trothwy a awgrymwyd.

Mae'r adroddiad yn nodi:

> ‘‘y gall ac y dylai’r system cynllunio defnydd tir roi sylw i anghenion a buddiannau’r Gymraeg ac, wrth wneud hynny, cyfrannu at ei lles.”

Roedd yr adroddiad yn bapur trafod a oedd yn ymdrin yn benodol â pha bryd i asesu’r Gymraeg fel ystyriaeth berthnasol – h.y. pwyso a mesur y manteision ac anfanteision i’r Gymraeg a chymunedau Cymraeg ochr yn ochr ag ystyriaethau perthnasol eraill. Gallai’r penderfyniad cynllunio fod yn un sy’n gwrthod y cynnig neu’n derbyn y cynnig ar yr amod bod mesurau lliniaru wedi’u cynnwys.

> Bydd prosesau’r Arfarniad o Gynaliadwyedd ar gyfer Cynlluniau Datblygu Lleol yn gwneud y mantoli rhwng yr effaith ar yr iaith ac ystyriaethau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol eraill yn dryloyw.

Ar gyfer yr holl ardaloedd lle mae’r Gymraeg yn rhan o wead cymdeithasol y gymuned, mae’r adroddiad yn argymell cynnal asesiad o’r effaith ar y Gymraeg. Y ffordd i ddiffinio cymunedau o’r fath, a elwir hefyd yn ardaloedd ieithyddol sensitif, yw gosod trothwy lle mae canran y siaradwyr Cymraeg yn 25% neu’n fwy.

**Adroddiad y Comisiwn Cymunedau Cymraeg ar gymunedau â dwysedd uwch o siaradwyr Cymraeg (2024)**

Mae’r adroddiad hwn yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn diffinio ardaloedd Cymraeg dwysedd uchel, ond bydd hyn yn cymryd peth amser os yw’n dod i rym ac nid mewn pryd ar gyfer CDLlN Conwy.

Mae’r adroddiad yn awgrymu bod ardaloedd gyda 40% neu fwy o siaradwyr Cymraeg yn arwyddocaol oherwydd eu dwysedd uchel. Fodd bynnag, mae’r adroddiad hefyd yn cydnabod pwysigrwydd cymunedau gyda 25% neu fwy o siaradwyr Cymraeg. Mae hefyd yn dadlau bod nifer y siaradwyr Cymraeg yr un mor bwysig â chanrannau ac y dylid hefyd rhoi ystyriaeth i ardaloedd ffiniol oherwydd bod defnydd iaith yn mynd tu hwnt i ffiniau, gyda siaradwyr yn byw, gweithio ac yn defnyddio eu Cymraeg y tu hwnt i ffiniau sydd wedi’u darlunio megis wardiau, ardaloedd cynnyrch ehangach a siroedd. Mae’r adroddiad hefyd yn argymell bod awdurdodau lleol yn y sefyllfa orau i ddiffinio ardaloedd o bwys a dylent allu dynodi’n lleol. Gan gadw’r adroddiad hwn mewn cof, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi nodi ei ardaloedd sy’n sensitif o ran y Gymraeg yn unol â Nodyn Cyngor Technegol 20 ac mae hyn wedi’i nodi yn Rhan 4 y papur hwn.

# Rhan 3: Adolygu polisi cynllunio presennol CBSC ar y Gymraeg

## Cyflwyniad

Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn amlinellu'r gwaith a wnaed yn 2023 i adolygu polisi iaith Gymraeg (CTH/5) presennol yr awdurdod cynllunio lleol ar gyfer cynllunio yn y CDLl a fabwysiadwyd (2007-2022). O ystyried y newidiadau a'r diweddariadau o ran polisi a deddfwriaeth a amlinellwyd yn rhan 1 a rhan 2, daeth yr adolygiad i'r casgliad bod angen diwygiad llawn i gefnogi gweithrediad y CDLlN nesaf hyd at 2033 mewn ffordd sy'n cydymffurfio.

Mae ail adran Rhan 3 yn crynhoi'r adolygiad polisi diweddaraf a gynhaliwyd yn 2024 ynghyd ag adolygiad o'r Strategaeth a Ffefrir (2019), gan nodi'r argymhellion ar gyfer diweddariadau sydd eu hangen erbyn y cam archwilio gan y cyhoedd yn 2025.

## Cefndir y gwaith

Mae'r polisi Iaith Gymraeg (CTH/5) yn rhan o Gynllun Datblygu Lleol Conwy, a fabwysiadwyd yn 2013. Mae copi ar gael yn Atodiad 4. Fel rhan o'r broses o ddatblygu'r CDLlN yn 2022, comisiynodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy YmgynghorIaith RHD Cyf i gynnal adolygiad o'r ddogfen bolisi bresennol a darparu argymhellion i baratoi polisi newydd. Cynhaliwyd yr adolygiad ym mis Awst 2023 ac roedd yn amlwg, oherwydd y newidiadau sylweddol i bolisi a deddfwriaeth yr iaith Gymraeg yn ogystal â newidiadau i bolisi cynllunio, y byddai angen diwygio'r polisi'n llawn.

Mae'r papur hwn yn amlygu prif ganfyddiadau'r adolygiad o'r polisi presennol, ac mae'r ail ran yn darparu rhai sylwadau manylach ar y cynnwys a adroddwyd yn ôl i swyddogion ynghyd â fersiwn wedi'i marcio o'r polisi ei hun. Mae'r drydedd adran yn darparu argymhellion, yn cynnwys yr angen i'r awdurdod gael polisi iaith Gymraeg

diwygiedig ar gyfer ei CDLIN, sydd angen adlewyrchu Safonau'r Gymraeg a diffinio ei ardaloedd ieithyddol sensitif.

Mae adran olaf papur hwn yn trafod prif ganfyddiadau'r adolygiad i'r Strategaeth a Ffefrir ac yn cyflwyno sawl diwygiad a diweddariad a argymhellir, sydd angen eu cwblhau erbyn cynnal y cam archwilio yn 2025.

## Prif Ganfyddiadau

Cynhaliwyd adolygiad llawn o bolisi'r Gymraeg ar gyfer cynllunio yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ac roedd y prif ganfyddiadau fel a ganlyn:

1. Mae'r polisi presennol yn cynnwys elfennau cadarnhaol yn cynnwys ymrwymiad clir ar ddechrau'r polisi i'r Gymraeg a sawl enghraifft amrywiol o ddulliau a chamau lliniaru ar gyfer safleoedd arfaethedig. Fodd bynnag, byddai'r polisi'n elwa o ddatganiad o weledigaeth cryfach sy'n nodi'n glir bod yr awdurdod yn ceisio hyrwyddo'r Gymraeg a'i defnydd yn unol â Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011.
2. Mae'r canllawiau yn NCT 20 hefyd wedi cael eu diweddaru ers cyhoeddi'r cynllun ac mae'n rhaid i'r polisi newydd ar y Gymraeg ar gyfer cynllunio ar gyfer cyfnod y CDLIN adlewyrchu'r canllawiau diweddaraf hyn ar beth i'w gynnwys yn y polisi.
3. Nid yw'r polisi'n darparu unrhyw wybodaeth ar y fframwaith cyfreithiol a ddilynwyd wrth ysgrifennu'r polisi a byddai'n elwa o ddatganiad yn cyd-fynd â'r gofyniad cyfreithiol a osodwyd ar CBSC gan Gomisiynydd y Gymraeg yn Safonau'r Gymraeg (2015). Nid yw'r datganiad ar arwyddion dwyieithog, er enghraifft, yn ei gwneud yn glir eu bod yn ofyniad cyfreithiol yn y Safonau a osodwyd.
4. Mae'r polisi'n cynnwys ymrwymiadau polisi buddiol ar arwyddion dwyieithog a chadw enwau lleoedd Cymraeg ac mae'n cydnabod pwysigrwydd diwylliant, treftadaeth, ac ymdeimlad o greu lleoedd.
5. Mae safleoedd arfaethedig wedi'u henwi yn y polisi ond byddai'n ddefnyddiol darparu gwybodaeth gefndir amdanynt neu gyfeirio at ddogfennau eraill lle

gall y darllenwyr ganfod rhagor o wybodaeth. Byddai eglurhad o ran pam bod safleoedd penodol wedi'u henwi a'u cynnwys yn wybodaeth ddefnyddiol.

6. Bydd angen sôn am ddyraniadau safle newydd oherwydd eu maint gan y bydd angen cynnal asesiad o'r effaith ar y Gymraeg. Bydd hefyd angen cyfeirio at y manylion lliniaru a amlygwyd yn uniongyrchol ynghyd â gofynion wedi'u hysgrifennu'n glir a chryno. Os bydd angen rhagor o fanylion, efallai y byddai'n well eu cynnwys mewn Canllaw Atodol neu ym mholisi creu lleoedd y safle.

7. Mae'r polisi presennol yn crybwyll mesurau lliniaru, ond cyfeirir yn bennaf at yr angen i gwblhau asesiad o effaith ar y Gymraeg. Gallai fod perygl o ddiffyg polisi yma a byddai'r polisi'n elwa o adran yn amlinellu'r mathau o fesurau lliniaru sy'n dod o dan gwmpas y polisi. Ar hyn o bryd, nid yw'n glir beth yw cwmpas llawn y mesurau lliniaru sydd ar gael, a gellid ei ddarllen i olygu mai dim ond y rheini y sonnir yn benodol amdanynt yn y polisi sy'n berthnasol, os y rhain yn unig sy'n berthnasol, neu os gallai eraill fod yn berthnasol hefyd.

8. Ymddengys bod maint a graddfa yn ffactor pwysig ar gyfer penderfynu, fel y nodir yn natganiad agoriadol y polisi presennol, ac er bod hwn yn ffactor ac y dylai barhau i fod yn ffactor, nid yw'n mynd i'r afael â'r rhwymedigaethau statudol a nodir yn NCT 20 i nodi ardaloedd ieithyddol sensitif (a gyhoeddwyd ar ôl mabwysiadu'r CDLl). Argymhellir bod hyn yn cael ei ychwanegu at y polisi, yn ogystal â llinell ar natur y safleoedd oherwydd weithiau byddai natur y cynnig neu safle arfaethedig yn gwarantu cynnal asesiad o'r effaith ar y Gymraeg,

9. Nid yw'r polisi'n cyfeirio at bolisïau allweddol, canllawiau statudol a dogfennau perthnasol ar lefel awdurdod lleol a lefel genedlaethol e.e. Safonau'r Gymraeg, Nodyn Cyngor Technegol 20: Cynllunio a'r Gymraeg.

10. Tra bod y polisi'n ceisio mynd i'r afael â niwed i'r iaith Gymraeg, nid yw'n cynnwys camau gweithredu i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg. Mae hyn yn ofyniad cyfreithiol yn Safonau'r Gymraeg.

11. Yn unol â NCT 20, sydd wedi cael ei ddiwygio ers mabwysiadu'r polisi CTH/5 presennol, mae gofyn i'r awdurdod cynllunio ddiffinio ardaloedd sy'n sensitif o ran y Gymraeg. Gweler yr adrannau perthnasol isod ar gyfer argymhellion.

## Sylwadau manylach eraill

Gweler isod sylwadau manylach ar y ddogfen bolisi ei hun i'w hystyried gan y swyddogion:

**Pwrpas a Chyd-destun**

Mae cyflwyniad a datganiad o'r prif ddibenion ar goll o'r polisi ac fe allai hyn olygu bod y darllenydd yn ansicr ynghylch beth yn union y mae'n ei ddarllen, y statws sydd ganddo a pha benderfyniadau neu safleoedd y mae'n berthnasol iddynt.

**Diffinio Termau**

O ran rhai termau a ddefnyddir yn y polisi, byddai o fudd i ddiffinio neu ddarparu cyfeiriad neu ddolen gyswllt i wybodaeth ategol. Dau derm pwysig yw Asesiad Effaith Cymunedol ac Ieithyddol, a Datganiadau Lliniaru.

Yn fwy cyffredinol, mae rhai enghreifftiau o eiriau disgrifiadol: arwyddocaol, mwy - sydd angen eu diffinio er mwyn sicrhau eu bod yn glir ac nad ydynt yn agored i gael eu dehongli neu herio.

**Polisi Iaith Gymraeg yr Awdurdod Lleol**

Mae Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg Conwy wedi gosod ymrwymiad i gynyddu canran y siaradwyr Cymraeg o 2%. Mae'r canran wedi gostwng rhwng Cyfrifiad 2011 a Chyfrifiad 2021.

Mae yna hefyd bolisïau ehangach, megis y rhai hynny ar addysg ac ail dai, y byddem yn argymell eu cynnwys er mwyn rhoi cyd-destun pwysig yn y polisi, oherwydd eu bod yn cael effaith uniongyrchol ar y penderfyniadau cynllunio mae / y bydd yr awdurdod lleol yn eu gwneud. E.e. CSCA, Ail gartrefi, Erthygl 4.

**Cyfeiriadau at Bolisi'r Gymraeg - cynllunio**

Nid oes unrhyw at gyfeiriadau at y polisïau cenedlaethol mewn canllawiau statudol, fframweithiau a chynllunio sy'n berthnasol i'r Gymraeg mewn penderfyniadau cynllunio.   Byddai'r cyd-destun hwn o gymorth i egluro pwrpas y ddogfen a'r fframwaith yr ydych yn gweithredu ynddo.

**Camau Lliniaru a Gofynion**

Nid yw'n glir ar ba sail y mae unrhyw un o'r camau lliniaru / gofynion yn y ddogfen yn cael eu gosod ar y safleoedd a enwir ynddi.

Byddai rhestr o'r holl gamau lliniaru posibl a'r pwerau perthnasol sydd ar gael i chi eu defnyddio yn ddefnyddiol i'w cynnwys yn gynharach yn y ddogfen. Er enghraifft, nid oes unrhyw sôn am gytundebau a106.

**Monitro ac Adolygu**

Byddai'r polisi'n elwa o adran ar sut a phryd y bydd yn cael ei adolygu nesaf. Byddai'n ddefnyddiol i gael cyfnod adolygu hanner ffordd rhwng 2023 a 2033 - yn 2028. Byddai'r polisi hefyd yn elwa o adran ar fonitro - felly, nodi sut yr ydych yn bwriadu monitro cydymffurfiaeth â'r polisi hwn a sicrhau bod yr holl safleoedd arfaethedig yn cadw ato.

## Argymhellion

1. O ystyried graddfa ac arwyddocâd y datblygiadau deddfwriaethol a pholisi yng nghyd-destun y Gymraeg, mae angen ailysgrifennu'r polisi presennol yn gyfan gwbl. Mae angen i'r polisi adlewyrchu a chyfeirio at y ddeddfwriaeth newydd - Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011 a gofynion dilynol Safonau'r Gymraeg. Yn benodol y ddyletswydd i gynnal asesiadau effaith, yr angen i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg, a'r angen i ymgynghori ar effeithiau o'r fath gyda siaradwyr Cymraeg.
2. Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Strategaeth Iaith Gymraeg newydd gydag ymrwymiad i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae angen i'r awdurdod cynllunio adlewyrchu'r ymrwymiad sydd wedi cael ei wneud gan CBSC yn ei strategaeth hyrwyddo i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn y sir hefyd, i gyfrannu at y targed cenedlaethol o filiwn

o siaradwyr. Mae gan gynllunio ran hanfodol i'w chwarae mewn perthynas â sicrhau bod y Gymraeg yn goroesi yn y dyfodol, fel yr amlinellwyd hefyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

3. Mae canllawiau a pholisi cynllunio hefyd wedi newid yn sylweddol yn ystod y cyfnod hwn. Mae Nodyn Cyngor Technegol 20 yn benodol wedi ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod cynllunio ddiffinio ardaloedd ieithyddol sensitif Cymraeg. Mae canlyniadau Cyfrifiad 2021, ynghyd ag adroddiadau cynhwysfawr yn amlinellu'r dulliau i'w dilyn i ddiffinio'r ardaloedd ieithyddol sensitif hyn yn awr ar gael i'w defnyddio.

**Ardaloedd ieithyddol sensitif Cymraeg**

Yn unol â chanllawiau Nodyn Cyngor Technegol 20, mae'n rhai i'r awdurdod cynllunio lleol bennu ei ardaloedd ieithyddol sensitif. Yn ôl 'Cynllunio a'r Iaith Gymraeg: y ffordd ymlaen', cynghorir bod y trothwy hwn yn 25%[16].

Yn seiliedig ar ganlyniadau Cyfrifiad 2021, mae gan yr Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is canlynol 25% neu fwy o siaradwyr Cymraeg.

**Ffigur 3: Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is ym Mwrdeistref Sirol Conwy lle mae mwy na 25% yn gallu siarad Cymraeg**

| Enw'r Ardal | Enw'r Ardal - Swyddfa Ystadegau Gwladol | Cod ardal | Yn gallu siarad Cymraeg | Yn gallu siarad Cymraeg (%) |
|---|---|---|---|---|
| Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Is Uwchaled | Conwy 014D | W01000190 | 874 | 64.3% |
| Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Is Llangernyw | Conwy 014B | W01000159 | 860 | 61.9% |

[16] Cynllunio a'r Gymraeg: y Ffordd Ymlaen (2005)
file:///C:/Users/Rachel/Documents/Rachel/RHD%20Consultancy/Tendrau/Conwy%20-%20cynllunio/Conwy%20-%20planning%20-%20the%20way%20ahead_and_the_welsh_language_document.pdf

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Is Uwch Conwy | Conwy 015F | W01000189 | 883 | 61.8% |
| Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Is Gower | Conwy 015D | W01000148 | 635 | 60.7% |
| Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Is Llansannan | Conwy 014C | W01000162 | 1,055 | 59.5% |
| Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Is Crwst | Conwy 015B | W01000134 | 1,142 | 57.4% |
| Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Is Betws-y-coed | Conwy 015A | W01000121 | 529 | 47.1% |
| Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Is Pandy | Conwy 013C | W01000170 | 796 | 45.5% |
| Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Is Eglwysbach | Conwy 015C | W01000137 | 810 | 53.7% |
| Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Is Trefriw | Conwy 015E | W01000185 | 513 | 42.6% |
| Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Is Betws-yn-Rhos | Conwy 014A | W01000122 | 796 | 41.5% |
| Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Is Bryn | Conwy 013A | W01000123 | 720 | 42.4% |
| Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Is Caerhun | Conwy 012A | W01000124 | 748 | 39.3% |
| Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Is Conwy 3 | Conwy 012D | W01000131 | 547 | 33.7% |
| Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Is Pant-yr-afon / Penmaenan 2 | Conwy 013E | W01000172 | 409 | 33.5% |
| Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Is Llansanffraid | Conwy 011F | W01001926 | 666 | 32.3% |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Is Capelulo | Conwy 013B | W01000125 | 469 | 31.4% |
| Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Is Pant-yr-afon / Penmaenan 1 | Conwy 013D | W01000171 | 451 | 31.1% |
| Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Is Pensarn 1 | Conwy 011D | W01000176 | 446 | 28.7% |
| Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Is Pensarn 2 | Conwy 011E | W01000177 | 399 | 28.7% |
| Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Is Marl 2 | Conwy 006D | W01000166 | 746 | 28.0% |
| Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Is Marl 1 | Conwy 006C | W01000165 | 470 | 25.7% |

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2021, Swyddfa Ystadegau Gwladol

Er gwybodaeth, yn ystod cam y Strategaeth a Ffefrir, nodwyd y canlynol, yn seiliedig ar ddata lefel ward yng Nghyfrifiad 2021:

**Ffigur 4: Wardiau ym Mwrdeistref Sirol Conwy a nodwyd fel rhai arwyddocaol yn Strategaeth a Ffefrir CDLIN Conwy**

| **Ardal ward** | **Siaradwyr Cymraeg (%) Cyfrifiad 2011** |
|---|---|
| Cerrigydrudion | 77.20% |
| Pentrefoelas | 69.90% |
| Llanfihangel Glyn Myfyr | 69.60% |
| Llangernyw | 64.40% |

| | |
|---|---|
| Llansannan | 64.00% |
| Llanddoged a Maenan | 62.40% |
| Llangwm | 61.50% |
| Llanrwst | 61.00% |
| Llannefydd | 60.90% |
| Bro Garmon | 58.60% |
| Eglwysbach | 49.00% |
| Dolgarrog | 46.80% |
| Llanfairfechan | 46.70% |
| Betws-yn-Rhos | 46.40% |
| Trefriw | 44.90% |
| Caerhun | 44.60% |
| Llanfairtalhaearn | 44.50% |
| Henryd | 37.10% |
| Llansanffraid Glan Conwy | 35.80% |
| Penmaenmawr | 33.80% |
| Conwy | 27.30% |

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011, Swyddfa Ystadegau Gwladol

Mae angen llunio rhestr gytunedig o ardaloedd sy'n sensitif o ran y Gymraeg i'w chynnwys ym Mholisi'r Gymraeg ar gyfer Cynllunio wrth symud ymlaen.

**Sylwadau i gloi**

Yn dilyn yr adolygiad polisi hwn, cyflwynwyd dewisiadau i'r awdurdod ac fe ddiffiniwyd yr ardaloedd ieithyddol a gytunwyd arnynt ac maent wedi'u rhestru yn Rhan 4.

## Strategaeth a Ffefrir 2018-33

Cynhaliwyd adolygiad o'r Strategaeth a Ffefrir[17] a baratowyd ym mis Gorffennaf 2019 fel rhan o gamau cychwynnol cyflwyno dull gweithredu arfaethedig yr awdurdod cynllunio o ran ei Gynllun Datblygu Lleol Newydd. Bydd angen diweddaru'r strategaeth hon fel rhan o'r cam i'w archwilio gan y cyhoedd yn 2025 ac fe wnaeth yr awdurdod cynllunio gomisiynu adolygiad o'r ddogfen hon gan ofyn am gyngor ynglŷn â pha ddiwygiadau a diweddariadau a fyddai eu hangen.

Mae Polisi SP/7 yn y Strategaeth a Ffefrir 2019 (ar dudalen 70) yn nodi beth yr oedd yr awdurdod cynllunio yn cynnig ei wneud o ran rhoi sylw dyledus i'r Gymraeg wrth wneud penderfyniadau cynllunio drwy gydol oes y cynllun.

Yn gyntaf, dangosodd yr adolygiad o'r Strategaeth a Ffefrir gyfredol bod yr awdurdod cynllunio wedi ymrwymo i'r Gymraeg ac mae nifer o gyfeiriadau drwy gydol y Strategaeth a Ffefrir i adlewyrchu hyn. Mae'r Datganiad o Weledigaeth a nodir ar Dudalen 30 y Strategaeth a Ffefrir yn cynnwys yr ymrwymiad canlynol i'r Gymraeg, sy'n gadarnhaol iawn i'w weld:

> Erbyn 2033, bydd Conwy yn cynnig mwy o gyfleoedd i drigolion, gweithwyr ac ymwelwyr. Bydd ansawdd bywyd da yn cael ei gynnig i bawb, gan gefnogi amrywiaeth pobl a lleoedd Conwy.  Bydd pwysigrwydd y Gymraeg mewn sawl cymuned yn cael ei gydnabod a'i hyrwyddo….

Fodd bynnag, gellid ei ddarllen neu'i ddehongli i olygu bod yr ymrwymiad ond yn berthnasol i rai cymunedau yn unig, a bod y Gymraeg ond yn cael ei chydnabod mewn llawer, ond nid yr holl gymunedau. O ystyried bod canran y siaradwyr Cymraeg dros chwarter y boblogaeth gyfan, ac yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol ar draws Cymru, a bod siaradwyr Cymraeg yn byw ac yn gweithio ym mhob cymuned ar draws y sir, nid yw'r geiriad yn cyfleu hynny. Nid yw'n cyd-fynd â'r ysbryd yn strategaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru, sef y dylid annog defnyddio'r Gymraeg mewn bywyd bob dydd a'i bod yn rhywbeth y dylem fod yn

[17] Strategaeth a Ffefrir

falch ohoni. Byddai'r geiriad hwn yn elwa o gael ei ddiweddaru ar gyfer y Cynllun i'w Archwilio gan y Cyhoedd. Dros y dudalen, mae'r ymrwymiad clir bod y Gymraeg yn flaenoriaeth wedi'i gynnwys a'i restru'n glir yn Nhabl 2 ar dudalen 31.

Byddai'r geiriad newydd a awgrymwyd yn debyg i'r canlynol:

> Erbyn 2033, bydd Conwy yn cynnig mwy o gyfleoedd i drigolion, gweithwyr ac ymwelwyr. Bydd ansawdd bywyd da yn cael ei gynnig i bawb, gan gefnogi amrywiaeth pobl a lleoedd Conwy. Bydd y Gymraeg yn fywiog ac yn ffynnu gyda phobl yn defnyddio'r Gymraeg mewn bywyd bob dydd, yn cynnwys ym maes addysg, gwaith a bywyd cymdeithasol, gan gyfrannu at yr uchelgais cenedlaethol o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Bydd cymunedau Conwy'n nodedig am eu hymdeimlad o le, oherwydd y Gymraeg a diwylliant Cymru, gyda thai fforddiadwy a deniadol, cyfleusterau, cyfleoedd teithio a gwaith yn denu ac yn cadw siaradwyr Cymraeg, gan gynnal cymunedau byw ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Yn ogystal, mae'r CDLIN yn cynnwys Amcan Strategol (1) y gellid ei gryfhau drwy gynnwys yr ymrwymiad i hyrwyddo'r Gymraeg, fel a ganlyn:

> **Amcan Strategol 1: Cyfrannu at greu mannau cynaliadwy, cynhwysiad cymdeithasol a lles gwell yn gyffredinol yng Nghonwy drwy ddarparu proses creu lleoedd ac adfywio cynhwysol sy'n sicrhau bod lefelau twf yn y dyfodol a datblygiad yn digwydd mewn lleoliadau cynaliadwy a hygyrch, yn ceisio hyrwyddo dyluniad da a lleoedd mwy iach, yn diogelu'r Gymraeg a'i hanes a hybu ei defnydd ac yn cael ei gefnogi gan yr isadeiledd cymdeithasol, amgylcheddol, diwylliannol ac economaidd angenrheidiol i gynnal lleoedd gwych a chreu rhai newydd.**

Yn ail, er bod cyfeiriadau at y Gymraeg drwy gydol y ddogfen, mae cyfleoedd wedi'u colli i wneud cysylltiadau mwy cyfannol a strategol yn dangos sut mae iechyd y Gymraeg wedi'i gydblethu â phenderfyniadau cynllunio, gan ddangos yn fwy amlwg y rhyngwynebau a'r rhyng-berthnasoedd gyda'r economi, iechyd, treftadaeth ddiwylliannol a thwristiaeth. Er bod y strategaeth yn nodi ei bod yn ceisio adlewyrchu a chroesawu egwyddorion Datblygu Cynaliadwy, y cysyniad o greu lleoedd ac ymgorffori'r dyletswyddau a osodir drwy Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

2015, byddai'n gryfach pe bai'n cynnwys cyfeiriadau strategol dan bob un o'r prif benawdau - lleoedd ffyniannus, economi wledig gynaliadwy - ac yn y blaen.

Mae cymuned ac economi cynaliadwy wedi'u cyd-blethu â diwylliant a chymuned Gymreig iach a ffyniannus. Mae ymchwil a llenyddiaeth wedi dadlau bod iaith Gymraeg fywiog yn gysylltiedig ag economi iach yng Nghymru. Mae Nodyn Cyngor Technegol 20 yn nodi'r angen i amlinellu cynlluniau'r awdurdod cynllunio yn strategol yn y ffordd hon. Yn ogystal, mae Polisi Cynllunio Cenedlaethol Cymru yn mynegi'n glir yr angen i ystyried y Gymraeg a diwylliant Cymru fel rhan o'r lle, gan ystyried pobl, lleoedd ac iaith yn gyfannol.

Byddai'r Cynllun i'w Archwilio gan y Cyhoedd yn elwa o drafod hyn pan fydd yn cyfeirio at yr ymagwedd creu lleoedd yn ogystal â chyfeirio at yr amcan lles (Deddf, 2015) o iaith Gymraeg ffyniannus. Fel hyn, mae'n hanfodol bod y Cynllun i'w Archwilio gan y Cyhoedd yn nodi'n glir sut y mae'r nodau i gynyddu tai a bodloni amcanestyniadau twf y boblogaeth yn y dyfodol yn cael eu cydbwyso ochr yn ochr â hyrwyddo a hwyluso dyfodol siaradwyr Cymraeg yng Nghonwy. (Er enghraifft, ar ôl cyfeirio at yr angen i gydbwyso dosbarthiad twf ym mharagraff 2.37, fe allai fersiwn ddiweddaraf y Cynllun i'w Archwilio gan y Cyhoedd gynnwys y cydbwysedd o'r effeithiau cadarnhaol a negyddol ar y Gymraeg a'i defnydd a fydd yn cael eu cyflawni gan yr awdurdod cynllunio). Mae geiriad a chyfeiriadau defnyddiol wedi'u nodi ar dudalennau 28-29 yr adroddiad hwn y gellid eu defnyddio.

Yn drydydd, mae polisi'r Gymraeg a nodir ar dudalen 70 yn darllen fel a ganlyn ar hyn o bryd:

| |
|---|
| Polisi Strategol 7 (PS/7): Yr Iaith Gymraeg. Bydd y defnydd o'r Gymraeg yng Nghonwy yn cael ei gefnogi a'i annog drwy'r CDLIN, drwy gefnogi'r ddarpariaeth o gyflogaeth leol a datblygiadau preswyl yn gymesur ag anghenion y cymunedau lleol. Bydd asesiad effaith y Gymraeg yn cael ei gyflawni a fydd yn amlygu pa gamau lliniaru, os oes rhai, fydd eu hangen i rwystro niwed posibl i'r defnydd o'r Gymraeg all gael ei achosi gan gynigion datblygu. Bydd ardaloedd sy'n sensitif i iaith yn cael eu diffinio, a bydd polisi yn seiliedig ar feini prawf yn cael ei gynnwys yn y Cynllun i'w Archwilio gan y Cyhoedd, er mwyn canfod datblygiadau anrhagweladwy a fydd angen asesiad effaith yn ystod y cam ymgeisio. |

Mae angen diweddaru hwn yn sylweddol yn unol â’r argymhellion fel yr amlinellir yn yr adroddiad hwn. Mae angen adlewyrchu Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011 i ddweud y bydd yr awdurdod cynllunio lleol yn hyrwyddo ac yn hwyluso'r defnydd o’r Gymraeg ac yn gweithio tuag at y targedau cenedlaethol ar gyfer twf a nodir hefyd yn Strategaeth Hyrwyddo’r Gymraeg yr awdurdod ei hun. Bydd angen cynnal asesiadau o’r effaith ar y Gymraeg mewn sawl achos; felly mae angen i’r datganiad adlewyrchu hyn, gan newid y cyfeiriad presennol i ‘Datganiad Iaith Gymraeg’. Mae angen diweddaru’r frawddeg hon hefyd yn unol â’r newidiadau i ddeddfwriaeth sy’n ei gwneud yn ofynnol i asesiad o effaith ar y Gymraeg hyrwyddo a hwyluso’r defnydd o’r Gymraeg yn rhagweithiol, nid yn unig ceisio lliniaru niweidiau ac effeithiau negyddol. Mae gofyniad hefyd i gasglu adborth ar yr effeithiau cadarnhaol a negyddol a chamau lliniaru gan siaradwyr Cymraeg ar fersiynau drafft yr asesiadau o effaith.

Awgrymir y dylid gwneud y diweddariadau canlynol i’r datganiad polisi ar gyfer y Cynllun i’w Archwilio gan y Cyhoedd:

Polisi Strategol 7 (PS/7): Bydd y Gymraeg yn cael ei hyrwyddo a defnydd o’r Gymraeg yn cael ei hwyluso’n rhagweithiol drwy ein penderfyniadau cynllunio. Drwy weithredu’r Cynllun Datblygu Lleol Newydd byddwn yn ceisio cyfrannu at yr uchelgais genedlaethol o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg a chefnogi gweithrediad Strategaeth Hyrwyddo’r Gymraeg yng Nghonwy. Fel hyn, bydd yr holl safleoedd strategol yn y Cynllun (h.y. rhai yn cynnwys 6 hectar neu fwy) yn cael eu hasesu mewn perthynas ag effeithiau cadarnhaol a negyddol ar y Gymraeg. Bydd yn rhaid cynnal asesiadau o effaith ar y Gymraeg a chynllun gweithredu camau lliniaru ar bob safle arfaethedig mewn ardaloedd ieithyddol sensitif. Mae’n rhaid i bob cynnig ddilyn y gofynion sylfaenol, megis arwyddion dwyieithog a gall yr awdurdod cynllunio ei gwneud hi’n ofynnol i gynnal asesiadau effaith a chyflwyno camau lliniaru penodol ar sail achos i achos. Am ragor o wybodaeth, gweler y manylion fel y nodir yn Rhan 4.

Mae’r ffigur canlynol yn darparu rhestr bellach o gyfeiriadau o fewn y ddogfen Strategaeth a Ffefrir bresennol a fyddai’n elwa o gael eu diwygio a’u diweddaru wrth baratoi’r Cynllun i’w Archwilio gan y Cyhoedd ar gyfer 2025:

| Rhif y dudalen | Sylw |
|---|---|
| Tudalen 16 - Proffil ystadegol y Gymraeg | Mae angen diweddaru hwn i adlewyrchu'r newid mewn deddfwriaeth o drin y Gymraeg a'r Saesneg ar sail gyfartal i hyrwyddo'r Gymraeg a hwyluso ei defnydd fel y nodir ym Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011. |
| | Nid yw'r ystadegau ychwaith yn cydnabod y dirywiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn ôl y Cyfrifiad diwethaf a gynhaliwyd yn 2011.<br>Mae angen cydbwyso twf y boblogaeth yn fwy cyffredinol ar draws Conwy yn erbyn y tueddiadau hynny sy'n dangos bod pobl leol, pobl ifanc, a siaradwyr Cymraeg yn gadael y sir. Dylid hefyd cysylltu'r canrannau o bobl sy'n gweithio y tu allan i'r sir ac yn teithio allan o'r sir ar gyfer gwaith gyda thueddiadau ystadegol y Gymraeg. |
| Tudalen 18 – ymrwymiad i leoedd cynaliadwy | Er bod y naratif yn cynnwys y Gymraeg, mae wedi dyddio yn yr ystyr nad yw'n adlewyrchu'r ddeddfwriaeth ddiweddaraf ynglŷn â hyrwyddo a chefnogi cymunedau Cymraeg eu hiaith a'r defnydd o'r Gymraeg mewn bywyd bob dydd.<br>Gellid elwa o ychwanegu naratif mwy strategol ac ehangach, gan egluro sut mae iechyd a chynaliadwyedd y Gymraeg a lleoedd wedi'u cydblethu.<br>Mae hyn wedi'i gadarnhau'n gryf yn y cadarnleoedd Cymraeg lle mae dros 40% yn siarad Cymraeg - ond maent hefyd ymysg y 10% uchaf o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru e.e. Llansannan, Llangernyw, Eglwysbach, Caerhun, Trefriw, Betws yn Rhos. |
| Tudalen 25 – economi wledig Conwy | Byddai'r adran hon yn elwa o gynnwys y rhyng-berthynas rhwng tyfu economi wledig iach sy'n |

| | |
|---|---|
| | cynnwys hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg. Gellid cynnwys ymwelwyr a'r economi dwristiaeth yma - oherwydd ei bod yn darparu ymdeimlad unigryw o le. |
| Tudalen 28 – adfywio drwy ddiwylliant | Ar gam uwch y Cynllun i'w Archwilio gan y Cyhoedd, mae'n rhaid i'r naratif ddarparu amcanion a chynlluniau mwy datblygedig a byddai hefyd yn elwa o gysylltu hunaniaeth Gymraeg ac ymdeimlad o le. Nid oes unrhyw sôn am dreftadaeth hanesyddol a diwylliannol gyfoethog sir Conwy yn gysylltiedig â'r Gymraeg - gorffennol a phresennol. |
| Tudalen 45 - Llanrwst a datblygu economaidd gwledig | Byddai'r naratif fel ag y mae wedi'i eirio yn y Strategaeth a Ffefrir yn ôl pob tebyg yn helpu i hwyluso twf cynaliadwy cadarnleoedd Cymraeg gwledig yn defnyddio Llanrwst fel y disgrifiwyd, fodd bynnag, byddai'r cam archwilio gan y cyhoedd yn elwa o gynlluniau cryfach o amgylch sut y bydd cryfhau tref Llanrwst hefyd yn hyrwyddo ac yn cefnogi defnydd cynaliadwy o'r Gymraeg yno ac yn yr aneddiadau gwledig o'i hamgylch. |
| 3.8.3 - dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y bydd angen i geisiadau cynllunio unigol gyflwyno asesiad effaith. | Mae angen dileu'r cyfeiriad hwn a'i ddisodli â'r gofynion diweddaraf yn unol â'r adroddiad hwn i osgoi unrhyw ddryswch ac i sicrhau bod cynigwyr yn glir o ran yr hyn a fydd yn ddisgwyliedig ohonynt. |
| 3.8.5 – cyfeiriadau at y DU yn gadael yr UE | Mae'r cyfeiriad hwn wedi dyddio ac mae angen ei ddileu (roedd hefyd yn aneglur pam yr oedd wedi'i gynnwys yn yr adran ar bolisi'r Gymraeg beth bynnag). |

# Rhan 4 Y Gymraeg ym Mwrdeistref Sirol Conwy

## Cyflwyniad

Mae'r rhan hon o'r papur yn nodi ymrwymiad yr awdurdod lleol i'r Gymraeg a'i gweld yn goroesi ac yn ffynnu ac, fel hyn, cyfrannu at darged Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae'r adran hon hefyd yn darparu trosolwg o nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg yn y sir ac mae hefyd yn diffinio'r ardaloedd sy'n sensitif o ran y Gymraeg.

## Ymrwymiad yr awdurdod lleol

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi ymrwymo i gefnogi a hyrwyddo'r Gymraeg.

Fel y nodwyd yng Nghynllun Datblygu Lleol Conwy 2007 – 2022:

**"Mae'r Gymraeg yn rhan annatod o gymunedau lleol a'u treftadaeth. Bydd y Cyngor yn cefnogi ac yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg, drwy sicrhau bod digon o gyfleoedd o ran cyflogaeth a thai i gadw siaradwyr Cymraeg ledled Ardal y Cynllun a chyfyngu ar ddatblygu yn y Pentrefi a'r Pentrefannau."[18]**

Mae'r CDLIN yn parhau â'r ymrwymiad hwn drwy Amcan Strategol 1 (AS1):
**Cyfrannu at greu mannau cynaliadwy, cynhwysiant cymdeithasol a lles gwell yn gyffredinol yng Nghonwy drwy ddarparu proses creu lleoedd ac adfywio cynhwysol sy'n sicrhau bod lefelau twf yn y dyfodol a datblygiad yn digwydd mewn lleoliadau cynaliadwy a hygyrch, yn ceisio hyrwyddo dyluniad da a lleoedd mwy iach, yn diogelu'r Gymraeg a'i hanes a hybu ei defnydd ac yn cael ei gefnogi gan yr isadeiledd cymdeithasol, amgylcheddol, diwylliannol ac economaidd angenrheidiol i gynnal lleoedd gwych a chreu rhai newydd.**

[1818] Cynllun Datblygu Lleol Conwy 2007-22 - Cynllun Datblygu Lleol Conwy 2007 - 2022: Adran Pedwar - Polisïau Gofodol a Chefnogi Polisïau Rheoli Datblygiad (opus3.co.uk)

Mae awdurdod Conwy wedi paratoi ei Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg yn unol â'r gofynion dan Safonau'r Gymraeg. Yn unol â Cymraeg 2050, strategaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg, mae Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg CBSC wedi cael ei diweddaru yn 2024. Yma, mae'n gosod y targedau ar gyfer cynyddu canran y siaradwyr Cymraeg yn y fwrdeistref sirol.

**Y weledigaeth yw:**

**Conwy ddwyieithog lle mae pobl yn hyderus ac yn falch o'u llais Cymraeg, lle caiff Cymraeg ei siarad o fewn y teulu, y gymuned a'r gweithle a lle caiff diwylliant Cymreig ei ddathlu a lle mae pobl yn teimlo eu bod yn perthyn.**

Uchelgais yr awdurdod ar gyfer y pum mlynedd nesaf yw atal y dirywiad a chynyddu'r nifer o siaradwyr Cymraeg ym Mwrdeistref Sirol Conwy. O ganlyniad i hyn, mae'r awdurdod wedi gosod targed i gynyddu'r canran o siaradwyr Cymraeg yng Nghonwy o 2% dros y pum mlynedd nesaf, gyda'r golwg o ystyried targed mwy hirdymor i gynyddu'r nifer o siaradwyr Cymraeg dros y 15 mlynedd nesaf.


Mae ei Gynllun Addysg Strategol 2022-2032 wedi gosod targed i'r awdurdod gynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg Conwy o 14%+ dros y deng mlynedd nesaf er mwyn cyrraedd nod Llywodraeth Cymru o 30% erbyn 2031.

Drwy'r targedau a'r ymrwymiadau hyn, mae'r awdurdod yn dangos ei fod wedi ymrwymo i gyfrannu at uchelgais Llywodraeth Cymru i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2030.

## Trosolwg o'r Gymraeg ym Mwrdeistref Sirol Conwy

Mae'r Gymraeg yn rhan o wead cymdeithasol a diwylliannol Bwrdeistref Sirol Conwy ac mae'n cael ei siarad gan 25.9% o'r boblogaeth. Mae hyn yn cynnwys rhan o Barc Cenedlaethol Eryri sydd o fewn y Fwrdeistref Sirol, lle mae cymaint ag 85% o'r boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg (yn ôl Cyfrifiad 2021).

Mae Map 1 yn dangos y canrannau o siaradwyr Cymraeg ar draws Cymru fesul sir, gan ddangos yn glir bod gan Sir Conwy rhwng 25-40% o siaradwyr Cymraeg yn ôl canlyniadau Cyfrifiad 2021.




Fodd bynnag, mae canran y siaradwyr Cymraeg wedi gostwng rhwng y ddau Gyfrifiad yn 2011 a 2021 yng Nghonwy (-1.5%) ac yng Nghymru (-1.2%) yn y drefn honno. Er bod dros chwarter o boblogaeth y Sir yn siarad Cymraeg, gwelwyd gostyngiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn y Fwrdeistref Sirol rhwng canlyniad Cyfrifiad 2001 (31,276) a chanlyniad Cyfrifiad 2021 (29,000).

**Tabl 1: Siaradwyr Cymraeg 1981 - 2021**

| Blwyddyn | Bwrdeistref Sirol Conwy (Nifer) | Bwrdeistref Sirol Conwy % | Cymru (Nifer) | Cymru % |
|---|---|---|---|---|


| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfrifiad 2021** | 29,000 | 25.9% | 538,296 | 17.8% |
| **Cyfrifiad 2011** | 30,600 | 27.4% | 562,016 | 19.0% |
| **Cyfrifiad 2001** | 31,042 | 29.2% | 575,640 | 20.5% |
| **Cyfrifiad 1991** | 31,431 | 30.6% | 508,098 | 18.7% |
| **Cyfrifiad 1981** | 30,276 | 32.7% | 508,207 | 19.0% |

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2021, Swyddfa Ystadegau Gwladol

Fel y dengys yn Nhabl 1, mae gan Gonwy 29,000 o siaradwyr Cymraeg a datganodd 25.9% o'r boblogaeth ym Mwrdeistref Sirol Conwy eu bod yn siarad Cymraeg (yn ôl Cyfrifiad 2021). Mae bwrdeistref sirol Conwy wedi gweld gostyngiad o ran nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg rhwng 2001 a 2021. Mae hyn yn cynrychioli gostyngiad o 5.2% neu 1,600 mewn nifer. Yn ôl y Cyfrifiad diwethaf, gwelwyd gostyngiad o 4.2% mewn siaradwyr Cymraeg ar draws Cymru hefyd. Fodd bynnag, er bod y gyfran gyffredinol o siaradwyr yn 17.8% ar draws Cymru, mae'r gyfran yn llawer uwch ar draws Sir Conwy ar 25.9%. Mae dros chwarter o boblogaeth Conwy yn siarad Cymraeg.

Fodd bynnag, nid yw pob ardal yng Nghonwy wedi gweld gostyngiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg. Mae Conwy (Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Is 3) a Glyn (Conwy) (Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Is 1) wedi cynyddu o 2.8% ers 2011 yn ogystal ag ardaloedd Rhiw sydd wedi cynyddu cymaint â 3.4% mewn rhai mannau ac 1.9% ar gyfartaledd. Rhwng 2001 a 2011, cafwyd cynnydd cyffredinol yn nifer a chyfran y siaradwyr Cymraeg yn y boblogaeth mewn 4 rhanbarth etholiadol – Penrhyn (Llandudno), Bae Cinmel, Llandrillo yn Rhos ac Eglwysbach - mewn 11 o ranbarthau etholiadol ychwanegol gwelwyd cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg, er bod cyfran y siaradwyr Cymraeg wedi gostwng.

**Map 2 - Siaradwyr Cymraeg ym Mwrdeistref Sirol Conwy yn ôl Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Is (2021)**




Ffynhonnell: Cyfrifiad 2021, Swyddfa Ystadegau Gwladol

## Ardaloedd sy'n Sensitif o ran y Gymraeg yng Nghonwy

Fel yr eglurwyd yn Rhan 2, mae Nodyn Cyngor Technegol 20 yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol ddiffinio ei ardaloedd sy'n sensitif o ran y Gymraeg. Nid

yw'r CDLl a fabwysiadwyd rhwng 2007-22 yn diffinio ardal, gan nad oedd hyn yn ofyniad polisi ar adeg ysgrifennu'r Cynllun.

Roedd adroddiad y Comisiwn Cymunedau Cymraeg, a gyhoeddwyd ym mis Awst 2024[19] yn amlygu bod cymunedau Cymraeg eu hiaith yn wynebu heriau strwythurol sydd wedi gwaethygu yn y blynyddoedd diweddar. "Mae dwysedd siaradwyr Cymraeg yn allweddol bwysig o safbwynt defnydd iaith ar lefel gymunedol. Er gwaethaf cynnydd o ran y gydnabyddiaeth genedlaethol o'r Gymraeg, bu gostyngiad sylweddol yng nghanran y siaradwyr Cymraeg mewn cymunedau." Maent yn datgan bod cymunedau sydd â chanran uchel, neu gymharol uchel, o siaradwyr Cymraeg fel 'ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch'. Mae'r Comisiwn o'r farn y dylai fod rhagdybiaeth o blaid dynodi'r trothwy hwn fel 40%.

Mae'r adroddiad yn ystyried sut y gellir diffinio ardal sensitif ac yn awgrymu bod Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Is neu glwstwr o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yn golygu y gellir ystyried tref neu aneddiad yn gyfan (adran 3.13). Mae Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yn cwmpasu ardaloedd mawr ym Mwrdeistref Sirol Conwy wledig. Nid ydynt bob amser yn dilyn ffin resymegol. Am y rhesymau hyn, mae ardaloedd Cynghorau Tref a Chymuned wedi cael eu hystyried yn briodol ar gyfer y CDLlN hwn.

Mae Cynghorau Tref a Chymuned Bwrdeistref Sirol Conwy sydd â 40% neu fwy o siaradwyr Cymraeg (bernir hyn yn arwyddocaol o ran dwysedd uchel) i'w gweld yn Nhabl 2 a Map 3 isod. Maent yn ne-ddwyrain gwledig y Fwrdeistref Sirol, ac yn cynnwys aneddiadau Llanfairfechan, Llanrwst, Cerrigydrudion, Llansannan, Llangernyw ac Eglwysbach.

**Tabl 2: Ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch lle mae dros 40% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg (2021)**


| Ardal | Poblogaeth (3+ oed) | Siaradwyr Cymraeg (N) | Siaradwyr Cymraeg (%) |
|---|---|---|---|
| Pentrefoelas | 340 | 248 | 73% |

[1919] Datganiad Ysgrifenedig: Comisiwn Cymunedau Cymraeg – Cam 2 (8 Awst 2024) | LLYW.CYMRU

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ysbyty Ifan | 175 | 121 | 69% |
| Cerrigydrudion | 702 | 474 | 68% |
| Llanfihangel Glyn Myfyr | 199 | 133 | 67% |
| Bro Garmon | 650 | 428 | 66% |
| Llannefydd | 527 | 319 | 61% |
| Llansannan | 1,218 | 727 | 60% |
| Llangernyw | 1,083 | 646 | 60% |
| Llanddoged a Maenan | 596 | 352 | 59% |
| Llanrwst | 3,039 | 1,776 | 58% |
| Llangwm (Conwy) | 462 | 269 | 58% |
| Bro Machno | 583 | 322 | 55% |
| Dolwyddelan | 443 | 225 | 51% |
| Eglwysbach | 894 | 438 | 49% |
| Capel Curig | 207 | 97 | 47% |
| Llanfairfechan | 3,455 | 1,518 | 44% |
| Betws-y-coed | 473 | 206 | 44% |
| Betws-yn-Rhos | 948 | 412 | 43% |
| Trefriw | 783 | 337 | 43% |
| Caerhun | 1,247 | 525 | 42% |
| Dolgarrog | 428 | 180 | 42% |

**Ffynhonnell: Cyfrifiad 2021, Swyddfa Ystadegau Gwladol**

**Map 3: Ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch lle mae dros 40% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg**




Yn cynnwys data OS © Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2024
Yn cynnwys gwybodaeth Cyfoeth Naturiol Cymru © Cyfoeth Naturiol Cymru a Hawl Cronfa Ddata. Cedwir pob hawl. Yn cynnwys data Arolwg Ordnans. Rhif Trwydded Arolwg Ordnans AC0000849444. Hawlfraint y Goron a Hawl Cronfa Ddata.

**Ffynhonnell: Cyfrifiad 2021, Swyddfa Ystadegau Gwladol**

Yn ogystal, mae'r Comisiwn yn amlygu pwysigrwydd ardaloedd gyda 25% neu fwy o siaradwyr Cymraeg. Mae hyn hefyd yn unol â'r adroddiad Cynllunio a'r Iaith Gymraeg: Y Ffordd Ymlaen (2015), a oedd yn datgan y dylai Awdurdodau Cynllunio Lleol ddechrau diffinio Ardaloedd Ieithyddol Sensitif yn eu hardaloedd ar sail trothwy lle mae 25% neu ragor o ardal y Cyngor Cymuned yn siarad Cymraeg. Cafodd ardaloedd gyda 25% neu fwy o siaradwyr Cymraeg eu hystyried. Mae'r ardaloedd

hyn yn cynnwys cymunedau Penmaenmawr, Conwy, Caerhun a Llansanffraid Glan Conwy (gweler map 3 uchod).

Mae'r argymhelliad o'r adroddiad yn nodi y dylid hefyd ystyried rhanbarthau a chlystyrau, ac ardaloedd sy'n ffinio ag ardaloedd Cymraeg dwysedd uchel. Mae hyn yn sicrhau nad yw ffiniau daearyddol neu ffiniau a ddynodir yn ffurfiol megis wardiau a siroedd yn creu terfynau artiffisial, o ystyried fod pobl yn byw, yn gweithio ac yn defnyddio'r Gymraeg ar draws y ffiniau hyn o hyd.

Mae hefyd yn bwysig cofio bod canrannau'n ymwneud â'r boblogaeth gyffredinol. Felly, mewn ardaloedd â phoblogaethau mwy, fe allai canran y siaradwyr Cymraeg ymddangos yn llai, fodd bynnag, fe allai nifer gwirioneddol y siaradwyr Cymraeg fod yr un fath neu'n uwch nag ardaloedd gyda chanran uwch. Mae'n bwysig nodi bod siaradwyr Cymraeg yn byw ac yn gweithio ym mhob rhan o'r sir. Er bod y gyfran o siaradwyr Cymraeg ar ei hisaf ar hyd y rhan fwyaf o arfordir y sir, mae'n bwysig nodi y gall nifer y siaradwyr fod yn uwch. Felly, mae'n bwysig nodi nifer y siaradwyr Cymraeg yn ogystal â nodi'r canrannau a dwysedd ardaloedd.

Er enghraifft, mae 26% (bron i 4,000 o bobl) yn gallu siarad Cymraeg yn ardal Cyngor Cymuned Conwy. Mae gan Llandudno a'r ardal gyfagos 4,565 mewn nifer.

Pwrpas y polisi hwn yw cyfrannu tuag at atal dirywiad pellach ac annog twf o ran nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg fel y nodir yng nghynllun gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg, i gyrraedd miliwn o siaradwyr erbyn 2050. Mae'r polisi hwn hefyd yn anelu i annog cyfleoedd i siaradwyr Cymraeg allu defnyddio'r Gymraeg yn amlach ac i wneud hynny ym mhob rhan o'r sir. Gan gadw hyn mewn cof, mae'n hanfodol bwysig bod yr ardaloedd hyn yn gallu parhau, eu bod yn cael eu cynnal, ac yn ffynnu, ac nad yw penderfyniadau cynllunio yn cael effaith andwyol arnynt yn y dyfodol.

## Ardaloedd sensitif o ran y Gymraeg sydd wedi'u diffinio ym Mwrdeistref Sirol Conwy

At ddibenion y CDLIN hyd at 2033, mae'r ardaloedd dwysedd uchel sylweddol yn golygu'r ardaloedd hynny gyda 40% neu fwy o siaradwyr Cymraeg. Yn ogystal, mae

gennym ardaloedd lleol sy’n sensitif o ran y Gymraeg ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ac mae’r rhain wedi’u diffinio fel ardaloedd gyda 25% - 39.99% o siaradwyr Cymraeg, i adlewyrchu argymhellion yr adroddiad a amlygwyd uchod.

**Tabl 3: Ardaloedd sy’n sensitif o ran y Gymraeg lle mae 25% neu fwy yn siarad Cymraeg ym Mwrdeistref Sirol Conwy (2021)**


| Cyngor Cymuned | Pobl (3+ oed) | Yn gallu siarad Cymraeg (Nifer) | Yn gallu siarad Cymraeg % |
|---|---|---|---|
| Pentrefoelas | 340 | 248 | 73% |
| Ysbyty Ifan | 175 | 121 | 69% |
| Cerrigydrudion | 702 | 474 | 68% |
| Llanfihangel Glyn Myfyr | 199 | 133 | 67% |
| Bro Garmon | 650 | 428 | 66% |
| Llannefydd | 527 | 319 | 61% |
| Llansannan | 1,218 | 727 | 60% |
| Llangernyw | 1,083 | 646 | 60% |
| Llanddoged a Maenan | 596 | 352 | 59% |
| Llanrwst | 3,039 | 1,776 | 58% |
| Llangwm | 462 | 269 | 58% |
| Bro Machno | 583 | 322 | 55% |
| Dolwyddelan | 443 | 225 | 51% |
| Eglwysbach | 894 | 438 | 49% |
| Capel Curig | 207 | 97 | 47% |
| Llanfairfechan | 3,455 | 1,518 | 44% |
| Betws-y-coed | 473 | 206 | 44% |
| Betws-yn-Rhos | 948 | 412 | 43% |
| Trefriw | 783 | 337 | 43% |
| Caerhun | 1,247 | 525 | 42% |
| Dolgarrog | 428 | 180 | 42% |
| Llanfair Talhaiarn | 950 | 378 | 40% |
| Henryd | 647 | 223 | 34% |
| Llansanffraid Glan Conwy | 2,070 | 664 | 32% |
| Penmaenmawr | 4,168 | 1,330 | 32% |
| Conwy | 15,311 | 3,974 | 26% |

**Ffynhonnell: Cyfrifiad 2021, Swyddfa Ystadegau Gwladol**

Mae Tabl 3 uchod yn dangos y siaradwyr Cymraeg ym mhob cymuned yn ôl Cyfrifiad 2021. Bydd y rhai hynny gyda 25% neu fwy yn cael eu dynodi’n ardaloedd sy’n sensitif o ran y Gymraeg. Mae ardaloedd ffiniol hefyd wedi’u cynnwys fel yr

argymhellwyd er mwyn sicrhau cydlyniaeth ac mae Map 4 yn dangos yr ardaloedd diffiniedig wedi'u lliwio'n biws isod.

## Map 4: Ardaloedd sy'n sensitif o ran y Gymraeg ar gyfer CDLIN CBSC



# Rhan 5 – Polisi iaith Gymraeg ar gyfer y CDLIN

## Cyflwyniad

Dyma'r polisi iaith Gymraeg i'w ddefnyddio mewn perthynas â gweithrediad Cynllun Datblygu Lleol Newydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy hyd at 2033.

Mae hwn yn seiliedig ar y canllawiau statudol ar gyfer Nodyn Cyngor Technegol 20 gan Lywodraeth Cymru a'r gofynion yn Safonau'r Gymraeg a osodir gan Gomisiynydd y Gymraeg.

## Paratoi'r CDLIN

Wrth baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd, mae'n rhaid i'r awdurdod cynllunio lleol ystyried y Gymraeg yn ei benderfyniadau polisi fel y nodir yn glir yng nghanllawiau'r Comisiynydd Iaith ar y safonau llunio polisi[20]. Sef:

1. ystyried pa effeithiau (boed nhw'n gadarnhaol neu'n niweidiol) a gaiff penderfyniadau ar - (a) cyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
2. ystyried sut y gellid llunio'r polisi fel y bydd
   a. yn cael effeithiau cadarnhaol, neu effeithiau cadarnhaol mwy,
   b. ac yn peidio â chael effeithiau andwyol ar - (a) cyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
3. cynnwys yn y ddogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, yr effeithiau y mae'r penderfyniad polisi yn debygol o'u cael ar - (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a cheisio barn ar y rheini.

[2020] Safonau Llunio Polisi: Creu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

Yn unol â chanllaw statudol Nodyn Cyngor Technegol 20, bydd yr awdurdod cynllunio lleol hefyd yn paratoi Cynllun Cynnwys Cymunedau (CCC). Mae’r CCC yn rhestru’r ffyrdd y gall pobl gyfrannu at y broses o baratoi Cynlluniau Datblygu Lleol. Ymgynghorir hefyd â Chomisiynydd y Gymraeg fel ymgynghorai statudol.

Mae’n rhaid sicrhau bod sylfaen dystiolaeth gadarn ynglŷn â’r Gymraeg yn tanategu unrhyw benderfyniadau a wneir wrth baratoi’r CDLlN (yn cynnwys nodi, diystyru a datblygu cynigion). Bydd unrhyw ddata ychwanegol sydd ei angen yn cael ei gasglu i lywio penderfyniadau CBSC mewn modd amserol.

Wrth ddatblygu dewisiadau strategol ar gyfer y cynllun, bydd hyrwyddo’r defnydd o’r Gymraeg yn cael ei gynnwys fel rhan allweddol o wneud penderfyniadau polisi. Fe allai’r cyfleoedd hyn gynnwys yr enghreifftiau canlynol a ddarperir yn NCT 20, ond nid ydynt yn gyfyngedig i hynny:

- camau pendant i hyrwyddo diwylliant a threftadaeth leol;
- cynllunio maint a dosbarthiad gofodol y datblygiadau a’r seilwaith newydd, yn enwedig lle byddai hyn yn helpu i hybu cynaliadwyedd y gymuned;
- cyflawni datblygiadau tai a chyflogaeth strategol yn raddol;
- pennu ardaloedd ieithyddol sensitif neu bwysig;
- cyfeirio safleoedd strategol i gymunedau lle ceir tystiolaeth sy’n awgrymu y cânt effaith debygol bositif ar y defnydd o’r Gymraeg;
- datblygu mesurau lliniaru os ydy’r dystiolaeth yn awgrymu y bydd yr effaith ar y Gymraeg yn debygol o fod yn negyddol.

Ar y cam i’w archwilio gan y cyhoedd, bydd yr effeithiau tebygol ar y defnydd o’r Gymraeg a chyfleoedd i’w hyrwyddo wedi’u nodi’n glir, ynghyd â’r mesurau lliniaru a gofynion monitro parhaus.

## Ymrwymiad i’r Iaith Gymraeg

**Mae pobl yng Nghonwy yn byw mewn sir ble mae’r Gymraeg yn ffynnu, a gall pobl gymryd rhan mewn pob agwedd ar fywyd cymunedol yn Gymraeg.**

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi ymrwymo i gefnogi a hyrwyddo'r Gymraeg. Fel y nodwyd yng Nghynllun Corfforaethol 2022-27 Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, mae'r Gymraeg yn egwyddor sylfaenol y mae'r Cyngor yn gweithio tuag ati.

Mae awdurdod Conwy wedi paratoi ei Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg yn unol â'r gofynion o dan Safonau'r Gymraeg ac yn unol â Cymraeg 2050, strategaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg.

**Y weledigaeth yw:**

**Conwy ddwyieithog lle mae pobl yn hyderus ac yn falch o'u llais Cymraeg, lle caiff Cymraeg ei siarad o fewn y teulu, y gymuned a'r gweithle a lle caiff diwylliant Cymreig ei ddathlu a lle mae pobl yn teimlo eu bod yn perthyn.**

Uchelgais yr awdurdod ar gyfer y pum mlynedd nesaf yw atal y dirywiad a chynyddu'r nifer o siaradwyr Cymraeg ym Mwrdeistref Sirol Conwy. O ganlyniad i hyn, mae'r awdurdod wedi gosod targed i gynyddu'r canran o siaradwyr Cymraeg yng Nghonwy o 2% dros y pum mlynedd nesaf, gyda'r golwg o ystyried targed mwy hirdymor i gynyddu'r nifer o siaradwyr Cymraeg dros y 15 mlynedd nesaf.

Mae ei Gynllun Addysg Strategol 2022-2032 wedi gosod targed i'r awdurdod gynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg Conwy o 14%+ dros y deng mlynedd nesaf er mwyn cyrraedd nod Llywodraeth Cymru o 30% erbyn 2031.

Drwy'r targedau a'r ymrwymiadau hyn, mae'r awdurdod yn dangos ei fod wedi ymrwymo i gyfrannu at uchelgais Llywodraeth Cymru i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2030.

Mae gan gynllunio o fewn yr awdurdod a'r CDLIN rôl i'w chwarae i gefnogi cyflawniad yr ymrwymiadau a'r targedau hyn.

Fel hyn, mae'r CDLIN yn nodi'n glir y weledigaeth a'r amcanion i ddiogelu'r Gymraeg, ac i hwyluso a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg.

**Amcan Strategol 1: Cyfrannu at greu mannau cynaliadwy, cynhwysiad cymdeithasol a lles gwell yn gyffredinol yng Nghonwy drwy ddarparu proses creu lleoedd ac adfywio cynhwysol sy'n sicrhau bod lefelau twf yn y dyfodol a datblygiad yn digwydd mewn lleoliadau cynaliadwy a hygyrch, yn ceisio hyrwyddo dyluniad da a lleoedd mwy iach, yn diogelu'r Gymraeg a'i hanes a hybu ei defnydd ac yn cael ei gefnogi gan yr isadeiledd cymdeithasol, amgylcheddol, diwylliannol ac economaidd angenrheidiol i gynnal lleoedd gwych a chreu rhai newydd.**

## Y Gymraeg yng Nghonwy - Sefydlu'r Llinell Sylfaen

Mae'r Gymraeg yn rhan o wead cymdeithasol a diwylliannol Bwrdeistref Sirol Conwy ac mae'n cael ei siarad gan 25.9% o'r boblogaeth. Mae hyn yn cynnwys rhan o Barc Cenedlaethol Eryri sydd o fewn y Fwrdeistref Sirol, lle mae cymaint ag 85% o'r boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg (yn ôl Cyfrifiad 2021).

Fodd bynnag, mae canran y siaradwyr Cymraeg wedi gostwng rhwng y ddau Gyfrifiad yn 2011 a 2021 yng Nghonwy (-1.5%) ac yng Nghymru (-1.2%) yn y drefn honno. Er bod dros chwarter o boblogaeth y Sir yn siarad Cymraeg, gwelwyd gostyngiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn y Fwrdeistref Sirol rhwng canlyniad Cyfrifiad 2001 (31,276) a chanlyniad Cyfrifiad 2021 (29,000).

## Ardaloedd sensitif o ran y Gymraeg wedi'u diffinio

Ardaloedd sy'n sensitif o ran y Gymraeg yw'r ardaloedd hynny gyda 25% neu fwy o siaradwyr Cymraeg yn ôl Cyfrifiad 2021. Mae hyn ar lefel cyngor tref a chymuned.

At ddibenion y CDLIN hyd at 2033, mae'r ardaloedd dwysedd uchel sylweddol yn golygu'r ardaloedd hynny gyda 40% neu fwy o siaradwyr Cymraeg. Yn ogystal, mae gennym ardaloedd lleol sy'n sensitif o ran y Gymraeg ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ac mae'r rhain wedi'u diffinio fel ardaloedd gyda 25% - 39.99% o siaradwyr Cymraeg, i adlewyrchu argymhellion yr adroddiad a amlygwyd uchod.

## Gofynion cyffredinol - Arwyddion ac enwau lleoedd

Mae'n rhaid i bob safle yn y CDLIN neu sy'n cael eu cyflwyno yn ystod y cyfnod, waeth beth yw nifer / canran y siaradwyr Cymraeg yn yr ardal benodol honno, gydymffurfio â'r holl ofynion sylfaenol a amlinellir yma, yn ogystal ag unrhyw rai a nodir yn y Canllawiau Cynllunio Atodol perthnasol. Mae hyn yn cynnwys darparu arwyddion ffyrdd dwyieithog a bod yn sensitif i dreftadaeth ieithyddol a diwylliannol yr ardal wrth enwi ffyrdd ac adeiladau. Mae hyn yn cynnwys arwyddion, hysbysebu ac arddangosfeydd cyhoeddus yn ystod y cyfnod adeiladu. Drwy gydol y CDLIN, bydd y Cyngor yn annog ac yn hyrwyddo darpariaeth arwyddion dwyieithog a chadw enwau Cymraeg traddodiadol ar gyfer strydoedd a datblygiadau newydd, gan sicrhau bod yr enwau'n darparu ymdeimlad o le sy'n ddilys, ac yn hyrwyddo hunaniaeth, iaith a threftadaeth ddiwylliannol Bwrdeistref Sirol Conwy.

## Angen am Asesiadau o'r Effaith ar y Gymraeg

Mae angen cynnal asesiadau o'r effaith ar y Gymraeg ar safleoedd arfaethedig i'w datblygu pan fydd y canlynol yn berthnasol:

a. Penderfyniadau polisi sylweddol (fel y nodir yn safonau'r Gymraeg)
b. Datblygiad ar raddfa fawr - a ddiffinnir fel arfer fel 10 neu fwy o anheddau preswyl neu ddatblygiadau dros 1,000 metr sgwâr neu 1 hectar
c. Ardaloedd ieithyddol sensitif (h.y. fel nodir gan CBSC)
d. Ardaloedd diffiniedig (unrhyw rai a nodir gan CBSC)

Yn unol â'r Safonau Llunio Polisi ac (a) uchod, mae asesiadau o'r effaith ar y Gymraeg yn ofynnol ar gyfer pob penderfyniad cynllunio sylweddol. Felly bydd yr holl safleoedd tai a chyflogaeth dyranedig yn y CDLIN yn destun asesiad effaith.

O ran yr holl safleoedd strategol a nodwyd gan yr awdurdod cynllunio lleol ac a restrwyd yn y CDLIN, rhaid sicrhau bod asesiadau o'r effaith ar y Gymraeg wedi cael eu cynnal ar bob un ohonynt, gan nodi'r effeithiau tebygol ar y Gymraeg a'i defnydd - y rhai cadarnhaol a negyddol. Bydd y safleoedd strategol penodol hyn yn cael eu

cynnal gan yr awdurdod cynllunio lleol. O ganlyniad i'r asesiad o'r effaith, efallai y bydd angen i'r awdurdod lleol ddiwygio neu ailystyried ei ddewisiadau a chynigion a/neu nodi mesurau lliniaru priodol a sicrhau eu bod yn cael eu gosod, eu gweithredu a'u monitro.

Hefyd, bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn ei gwneud yn ofynnol i gynnal asesiadau o'r effaith ar y Gymraeg ar gyfer unrhyw ddatblygiadau ar raddfa fawr yn unol â Nodyn Cyngor Technegol 20 fel y diffinnir yn (b) uchod.

O ran cynigion ar gyfer datblygiadau masnachol, diwydiannol a thwristiaeth heb eu dyrannu yn y CDLIN, mae angen cynnal asesiad o'r effaith ar y Gymraeg ar y rhai hynny a fydd yn 1,000 metr sgwâr neu fwy. O ran safleoedd cyflogaeth wedi eu diogelu sy'n cyrraedd y trothwy, bydd angen i'r ceisiadau hynny fodloni gofynion y polisi. Os bydd unrhyw un o'r uchod o fewn ardaloedd sy'n sensitif o ran y Gymraeg, yna bydd angen cynnal asesiad o'r effaith ar y Gymraeg.

Mae'n rhaid i bob safle sy'n cynnig cynllunio a datblygu 10 annedd neu fwy mewn ardaloedd sy'n sensitif o ran y Gymraeg (h.y. y rheini a restrir yn Nhabl 3) gwblhau asesiad o'r effaith ar y Gymraeg (h.y. 25% neu fwy o siaradwyr Cymraeg yn yr ardal neu ardal gyfagos).

Wrth gynnal asesiad o'r effaith ar y Gymraeg, mae'n rhaid i bobl ddilyn y gofynion a nodir yn y safonau llunio polisi a osodir ar CBSC a chadw at adroddiad Comisiynydd y Gymraeg ar asesiadau effaith[21]. Mae hyn yn golygu nodi'r holl effeithiau posibl, y rhai cadarnhaol ac andwyol, ar y Gymraeg a'r defnydd o'r Gymraeg. Mae'n golygu nodi effeithiau negyddol a/neu gadarnhaol ar siaradwyr Cymraeg a'r rhai sy'n defnyddio'r Gymraeg (yn cynnwys dysgwyr) a'r ardaloedd / cymunedau eu hunain. Mae'n rhaid cynnal yr asesiadau effaith yn unol â Safonau'r Gymraeg wedi'u tanategu gan Fesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011, gan ddangos nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg a bod cyfleoedd i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn cael eu cymryd.

Lle mae effeithiau negyddol wedi cael eu nodi, mae'n rhaid nodi mesurau lliniaru a'u gosod mewn cynllun camau lliniaru. Trwy wneud hynny, mae'n rhaid iddynt nodi a gweithredu mesurau lliniaru, ac fe allai hyn hefyd gynnwys unrhyw rai a amlinellir yn

[21] penderfyniadau-polisi-ar-gymraeg-ymdrech-gydwybodol.pdf

y polisi hwn, yn cynnwys talu cyfraniad ariannol drwy fecanwaith cytundeb A106, a/neu unrhyw gamau lliniaru a nodir gan y cyngor bwrdeistref sirol. Bydd angen iddynt hefyd gydymffurfio â'r holl ofynion sylfaenol yn cynnwys arwyddion dwyieithog a bod yn sensitif i dreftadaeth ieithyddol a diwylliannol yr ardal, sydd wedi'i amlinellu yn y polisi hwn.

Yn ogystal, mae'n rhaid i'r holl safleoedd arfaethedig mewn ardaloedd sy'n sensitif o ran y Gymraeg, lle mae 25% neu fwy o siaradwyr Cymraeg, ymgynghori ar eu hasesiad o'r effaith ar y Gymraeg, gan ofyn am adborth ar y graddau y mae'r cynnig yn ceisio hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a dileu neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol ar y Gymraeg, fel y nodir yn safonau llunio polisi'r Gymraeg 91-94 a osodir ar Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Mae'r ymgyngoreion gorfodol yn cynnwys Menter Conwy, Comisiynydd y Gymraeg, Uned y Gymraeg CBSC, Rhieni Dros Addysg Gymraeg a Chymdeithas yr Iaith. Gall awdurdod cynllunio CBSC nodi ymgysylltu gyda'r gymuned leol a chynrychiolwyr sy'n siarad Cymraeg, yn ogystal â chyflwyno camau gweithredu a chamau lliniaru ychwanegol ar sail achosion unigol. Bydd angen cynnwys manylion yr ymgynghoriad hwn fel rhan o'r cais cynllunio.

Yn ogystal, mewn unrhyw safle arfaethedig yn yr ardal lle mae yno 25% neu fwy o siaradwyr Cymraeg yn ôl canlyniadau Cyfrifiad 2021, bydd awdurdod cynllunio CBSC yn gallu gofyn am gamau gweithredu ychwanegol i liniaru effeithiau andwyol a/neu geisio hyrwyddo'r iaith Gymraeg. Mae'n bosib y byddant hefyd angen cyfraniad ariannol a nodi sut y bydd y Cyngor yn ei ddefnyddio. Bydd y camau lliniaru hyn yn cael eu gweithredu fesul achos, drwy ystyried anghenion yr ardaloedd penodol.

Safleoedd a ddyrannwyd. O ran y safleoedd a ddyrannwyd, bydd asesiadau o'r effaith ar y Gymraeg yn cael eu cwblhau a bydd mesurau lliniaru yn cael eu nodi a'u cynnwys mewn polisïau creu lleoedd sy'n benodol i'r safleoedd.

Efallai y bydd angen cynnal asesiad ar fathau annisgwyl o ddatblygiad (datblygiadau ar hap) ar safleoedd heb eu dyrannu yn y CDLIN er mwyn pennu'r effaith ar y Gymraeg, yn dibynnu ar leoliad a maint y safle. Bydd ceisiadau ar safleoedd tai heb eu dyrannu ar gyfer deg uned neu fwy yn yr Ardal Strategaeth Datblygu Trefol a phum uned neu fwy yn yr Ardal Strategaeth Datblygu Gwledig yn gofyn am asesiad o'r effaith ar y Gymraeg, gan gynnwys manylion am fesurau lliniaru. Yn unol â

Nodyn Cyngor Technegol 20, byddai datblygiad ar raddfa fawr fel arfer yn cael eu diffinio fel datblygiad o 10 neu ragor o anheddau preswyl neu ddatblygiad o fwy na 1,000 metr sgwâr neu 1 hectar, ond gall Awdurdodau Cynllunio Lleol osod trothwyon priodol lleol yn y CDLl, yn seiliedig ar dystiolaeth.

Yn olaf, bydd angen i unrhyw gynigion eraill nad ydynt wedi'u cynnwys uchod, ond sydd wedi'u nodi gan CBSC fel rhai sydd angen asesiad o'r effaith ar y Gymraeg a/neu fesurau lliniaru, wneud hynny. Er enghraifft, colli cyfleusterau cymunedol mewn aneddiadau llai'r Ardal Strategaeth Datblygu Gwledig.

## Cynnal asesiadau o'r effaith ar y Gymraeg

Mae angen cynnal asesiadau o'r effaith ar y Gymraeg i nodi effeithiau cadarnhaol a negyddol posibl ar y Gymraeg, siaradwyr Cymraeg, a'r defnydd o'r Gymraeg yn yr ardal arfaethedig ac ardaloedd cyfagos. Mae'r rhaid i hyn gyd-fynd â'r gofynion yn Safonau'r Gymraeg a osodir ar Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy gan Gomisiynydd y Gymraeg yn cynnwys dangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r Gymraeg mewn unrhyw benderfyniad polisi arwyddocaol ac nad ydych yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg h.y. ei hyrwyddo'n rhagweithiol.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 hefyd yn amlinellu pum peth y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus eu gwneud i ddangos eu bod wedi dilyn yr egwyddorion datblygu cynaliadwy. Mae'r rhain yn cynnwys cydbwyso anghenion tymor byr gyda'r gallu i ddiwallu anghenion hirdymor, gan weithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu. Mae'n rhaid i asesiadau o effaith ar y Gymraeg roi ystyriaeth i hyn.

Fel siaradwyr ieithoedd eraill, mae gan siaradwyr Cymraeg nodweddion a hunaniaethau heblaw rhai ieithyddol yn unig a gall y rhain gynnwys nodweddion gwarchodedig wedi'u hymgorffori yn y Ddeddf Cydraddoldeb, felly mae angen i asesiadau o effaith ar y Gymraeg groes gyfeirio â'r asesiadau o effaith ar gydraddoldeb a gynhaliwyd, pan fo hynny'n berthnasol.

Mae gofyn i'r datblygwr ddefnyddio'r templed sydd ynghlwm wrth Atodiad A yn ogystal â'i addasu ar gyfer yr ardal benodol honno ac atodi canlyniadau'r ymgynghoriad a'r camau lliniaru sydd wedi'u cynllunio.

Gall yr Awdurdod Cynllunio Lleol ofyn am gael asesiad o'r effaith ar y Gymraeg a chwblhau templed penodol a gall nodi unrhyw gynllun gweithredu mesurau lliniaru sydd ei angen.

## Camau Lliniaru a Gwelliannau

Mae'r mesurau lliniaru sydd wedi cael eu nodi fel rhan sy'n briodol ar gyfer y CDLIN ar gael gan yr awdurdod lleol. Mae'n rhaid i bawb sy'n gorfod cwblhau asesiad o'r effaith ar y Gymraeg lunio cynllun lliniaru sy'n gorfod cael ei gyflwyno a'i gymeradwyo gan yr awdurdod cynllunio lleol cyn y gellir symud ymlaen ag unrhyw safle arfaethedig.

Er mwyn sicrhau bod mesurau lliniaru yn cael eu cymryd, mae'n bosibl y bydd angen defnyddio'r Ardreth Seilwaith Cymunedol neu gytundebau adran 106. Gellir cynnwys darpariaeth o isadeiledd i gefnogi'r defnydd o'r Gymraeg mewn rhestr taliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol yn unol â'r holl ddeddfwriaeth gymwysadwy, yn cynnwys darpariaethau Deddf Cynllunio 2008 a Rheoliadau'r Ardreth Seilwaith Cymunedol 2010.

Mae'n rhaid dewis mesurau lliniaru ar sail pa mor briodol ydynt i fynd i'r afael â'r effaith bosibl sydd wedi'i nodi yn ystod yr asesiad o effaith. Yr egwyddor yw dileu effaith negyddol ar y Gymraeg, neu lle nad yw hynny'n bosibl, ei dileu gymaint ag sy'n bosibl. Bydd cynigion yn cael eu gwrthod os nad yw'r effaith negyddol ar y Gymraeg yn cael ei lliniaru i foddhad yr awdurdod a gellid eu pennu'n groes i rwymedigaethau'r awdurdod ac ysbryd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 neu Fesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011 a Safonau'r Gymraeg a osodir arnynt.

Mae'n rhaid i'r mesurau lliniaru geisio bod yn gymesur â difrifoldeb a / neu arwyddocâd yr effaith bosibl y bydd y cynnig yn ei gael ar y Gymraeg.

Yn ogystal â cheisio dileu neu leihau'r effeithiau negyddol ar y Gymraeg, yn unol â Safonau'r Gymraeg, mae gofyn i'r awdurdod sicrhau bod ei benderfyniadau (yn

cynnwys penderfyniadau cynllunio) yn ceisio hyrwyddo siaradwyr Cymraeg a defnydd o'r Gymraeg. Fel hyn, mae gofyn i ddatblygwyr gynnwys mesurau i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn yr ardaloedd / safleoedd arfaethedig hynny. Gwneir hyn yng nghyd-destun Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011 sydd i hyrwyddo'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Ar gyfer safleoedd arfaethedig yn yr ardaloedd sy'n sensitif o ran y Gymraeg, lle mae yno 25% neu fwy o siaradwyr Cymraeg ar y safle, mae'n rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy gytuno ar y mesurau lliniaru sy'n cael eu cynnig cyn i unrhyw waith gael ei gymeradwyo. Efallai y bydd swyddogion yn gofyn am fesurau lliniaru ychwanegol i'r rhai a gyflwynwyd.

Mae'n rhaid i gynlluniau gweithredu gael eu paratoi a'u cyflwyno i'r awdurdod, gan nodi'n glir y camau gweithredu y bydd yr ymgeisydd/datblygwr yn eu cymrwd i leihau neu ddileu'r risg o effeithiau andwyol a'r camau y byddant yn eu cymryd i hwyluso a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg.

## Cyfraniadau

Gall mesurau lliniaru fod yn ariannol lle mae'r datblygwr yn talu tuag at gostau gweithgareddau sy'n lliniaru'r effaith andwyol a/neu'n hyrwyddo'r Gymraeg. Fel arall, gall cyfraniadau fod ar ffurf nwyddau neu wasanaeth neu gyfraniadau cyfun. Amlinellir y pedwar math cyffredinol o gyfraniad isod:

- Cyfraniadau mewn Nwyddau neu Wasanaethau – Y datblygwr yn cyflawni'r gwaith gofynnol yn uniongyrchol.
- Cyfraniadau Ar y Safle / Oddi ar y Safle – Y datblygwr yn cyfrannu'n ariannol at ddarparu mesurau a fyddai'n lliniaru effeithiau niweidiol y datblygiad.
- Cyfraniadau Cyfun – Gall y Cyngor geisio cyfuno cyfraniadau gan un neu ragor o ddatblygwyr ledled y Fwrdeistref Sirol, er mwyn delio â'r effeithiau ehangach ar draws datblygiadau.
- Cyfraniad drwy ardoll o dan A106 yn unol â Nodyn Cyngor Technegol 20 at dai fforddiadwy.

Gall mesurau lliniaru gynnwys cyfraniadau ariannol a wneir drwy Gytundeb Adran 106, a / neu weithgareddau neu gamau gweithredu a gymerir yn uniongyrchol gan y datblygwyr. Pan fydd Cytundebau Adran 106 yn ofynnol, bydd yr awdurdod lleol yn trefnu cytundeb cyfreithiol yn nodi'r telerau. Gall cyfraniadau ariannol gael eu defnyddio gan yr awdurdod lleol ar gyfer unrhyw un o weithgareddau'r Cyngor ac mae'n rhaid eu defnyddio ar gyfer cefnogi a hyrwyddo'r Gymraeg.  Mae enghreifftiau'n cynnwys ond nid yn gyfyngedig i ariannu addysg, yn cynnwys cludiant, cludiant cyhoeddus, darpariaeth hyfforddiant a chyfleoedd cyflogaeth, tai fforddiadwy, llyfrgelloedd, cyfleusterau hamdden, adnoddau hyrwyddo a / neu ymwybyddiaeth o'r iaith, a darpariaeth dysgu Cymraeg.

## Mesurau lliniaru i'w defnyddio i leihau effeithiau andwyol

Mae gan ardaloedd sy'n sensitif o ran y Gymraeg yn ardal CDLIN Conwy angen mesurau lliniaru penodol. Os yw'r ardaloedd hyn sydd ag arwyddocâd ieithyddol neu sy'n sensitif o ran yr iaith wedi cael eu nodi o fewn neu'n agos at eich datblygiad arfaethedig, dylech sicrhau nad yw'r datblygiad arfaethedig yn cael effeithiau andwyol ar siaradwyr Cymraeg a'r defnydd o'r Gymraeg.

Os byddai'r cynnig yn debygol o olygu colli cyfleusterau, amwynderau neu weithgareddau cymunedol ar gyfer siaradwyr Cymraeg, mae'n rhaid i'r mesurau lliniaru fod o leiaf yn gyfartal ond nid yn llai ffafriol na'r cyfleusterau yr oedd gan bobl cyn y datblygiad.

Ar gyfer safleoedd lle mae effeithiau andwyol wedi cael eu nodi, mae'n rhaid cyflwyno mesurau lliniaru a dylid cynnwys yr egwyddorion canlynol yn eich asesiadau o effaith, gan ddangos sut yr ydych wedi ystyried elfennau hyn:

- Maint a lledaeniad - cynllunio nifer a dosbarthiad gofodol datblygiad newydd ac isadeiledd mewn ffordd sy'n hyrwyddo'r Gymraeg, siaradwyr Cymraeg a'r cymunedau y maent yn byw ac yn gweithio ynddynt, yn hytrach na mentro achosi unrhyw effeithiau andwyol arnyn nhw a'u defnydd o'r Gymraeg.
- Lleoliad - ystyried yr effaith y bydd y datblygiad yn ei gael ar ddwysedd y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg a defnyddio mesurau lliniaru i gynyddu'r

tebygolrwydd a'r amlder o glywed a defnyddio'r Gymraeg, yn hytrach na gwasgaru neu wahanu nifer fawr o siaradwyr Cymraeg ac felly, lleihau'r siawns o ryngweithio yn Gymraeg mewn bywyd bob dydd.

- Camau ac amseru -
  - cyflwyno datblygiadau tai a chyflogaeth mawr yn raddol i alluogi siaradwyr Cymraeg lleol yn hytrach na'u hatal a'u rhoi dan anfantais. Er enghraifft, peidio â chael effaith andwyol ar alw a phrisiau tai oherwydd i gyfleodd cyflogaeth newydd annog mewnfudo.
  - cyflwyno datblygiadau tai'n raddol ochr yn ochr â darpariaeth ysgolion cyfrwng Cymraeg i leihau amser a chostau teithio i ysgolion sydd ymhellach i ffwrdd, yn ogystal â rhoi siaradwyr Cymraeg dan anfantais neu'u hatal rhag symud i'r datblygiadau tai hynny oherwydd diffyg darpariaeth ysgol cyfrwng Cymraeg ar gael.
  - Dechrau, dilyniant a rhoi blaenoriaeth i bobl leol - mentrau a chynlluniau sy'n blaenoriaethu datblygiadau tai a chyflogaeth newydd i bobl leol yn gyntaf cyn ehangu mynediad yng nghyd-destun daearyddol.
- Cyfathrebu - cefnogi a/neu dargedu cyfathrebu mewn ardaloedd ieithyddol sensitif i gefnogi a hyrwyddo cymunedau bywiog a chynaliadwy fel lleoedd llewyrchus i fyw a gweithio

Ar gyfer safleoedd lle mae effeithiau andwyol wedi cael eu nodi, mae'n rhaid cyflwyno mesurau lliniaru a disgwyliwn i ddatblygwyr ddefnyddio camau lliniaru o'r rhestr hon er nad yw'r rhestr yn gynhwysfawr ac efallai y bydd angen camau lliniaru eraill gan yr awdurdod os ystyrir eu bod yn briodol:

Ar gyfer tai,

- adeiladu'r tai ychydig ar y tro drwy ystyried yr effaith ar gymunedau ac amwynderau lleol e.e. effaith ar gydbwysedd neu ddwysedd y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg neu effaith ar gategorïau ysgolion cyfrwng Cymraeg / dwyieithog

- darparu cymysgedd briodol o dai, gan gynnwys tai fforddiadwy i ddiwallu anghenion lleol a chynnwys trefniadau trefnu i sicrhau bod y tai wedi'u targedu'n bennaf at ddarparu ar gyfer pobl leol ar y cofrestrau tai lleol
- strategaethau marchnata a chyfathrebu o fewn y rhanbarth i ddenu ac apelio i siaradwyr Cymraeg ym Mwrdeistref Sirol Conwy ac awdurdodau lleol cyfagos
- darparu adnoddau ymwybyddiaeth iaith ar gyfer y rhai sy'n newydd i'r ardal
- alinio tai gyda chludiant, addysg a hyfforddiant, teithio i'r gwaith a gwasanaethau hanfodol eraill, i sicrhau bod y safle'n ymarferol ac yn hyfyw ar gyfer pobl leol.

Ar gyfer y gymuned,

- cefnogi gweithgareddau cyfrwng Cymraeg i bobl o bob oed a gallu, gan annog y defnydd o'r Gymraeg mewn bywyd bob dydd
- darparu cyfleusterau a chyllid ar gyfer gofal plant, gofal plant cyn ysgol a chlybiau ar ôl ysgol i siaradwyr Cymraeg drwy gyfrwng y Gymraeg
- noddi, hyrwyddo neu gefnogi digwyddiadau cyfrwng Cymraeg e.e. Eisteddfod leol, sioeau amaethyddol, ffeiriau, diwrnodau chwaraeon, diwrnodau llyfr ac ati.

Ar gyfer addysg,

- hwyluso a chefnogi cludiant i / o ysgolion cyfrwng Cymraeg ar gyfer dysgwyr sydd wedi'u heffeithio gan effeithiau o ddatblygiadau
- ariannu lleoedd addysg cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion a cholegau, a hyfforddiant yn cynnwys yn y gweithle a thrwy brentisiaethau
- cynnig lleoliadau am ddim neu gyllid ar gyfer dosbarthiadau Cymraeg, yn cynnwys darpariaeth drochi ar gyfer rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg sy'n symud i gymuned a fydd angen mynychu ysgol neu goleg Cymraeg lleol, a dosbarthiadau i oedolion sy'n symud i ardal Cymraeg ei hiaith.

Ar gyfer safleoedd sydd â datblygiadau masnachol, diwydiannol neu dwristiaeth, mae'n rhaid i fesurau lliniaru yn gysylltiedig â'r cam adeiladu, creu cyflogaeth, ac yn ymwneud â chreu twf economaidd ar gyfer busnesau lleol gael eu hystyried. Bydd y rhain yn cynnwys, er enghraifft,

- cefnogi cyfleoedd cyflogaeth i siaradwyr Cymraeg a dysgwyr Cymraeg lleol, gan gefnogi addysg neu hyfforddiant cyfrwng Cymraeg
- hyrwyddo'r Gymraeg, diwylliant a threftadaeth yr ardal, gan greu ymdeimlad penodol o le a rheoli cyrchfan wedi'i alinio â'r Gymraeg
- hyrwyddo busnesau cyfrwng Cymraeg i ddechrau a thyfu, gan gefnogi'r economi leol ac annog siaradwyr Cymraeg i aros yng Nghonwy i weithio, datblygu eu busnesau a defnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd.

## Camau gweithredu i hyrwyddo'r Gymraeg a'i defnydd

Gall y datblygwr ymgymryd â gweithgareddau a mentrau i hyrwyddo a chefnogi'r Gymraeg, siaradwyr Cymraeg a'r defnydd o'r iaith, yn unol â Safonau'r Gymraeg, a gall ffyrdd o wneud hyn gynnwys y canlynol, ymhlith eraill:

- Hyrwyddo ardaloedd Cymraeg eu hiaith a chyfleoedd i bobl siarad, dysgu gweithio a byw drwy gyfrwng y Gymraeg - gan ddangos yn glir bod siaradwyr Cymraeg yn cael eu hannog i fyw a gweithio yn y datblygiadau newydd sy'n cael eu hadeiladu.
- Darparu opsiynau ar gyfer teithio i'r gwaith sy'n ddiogel, dibynadwy ac yn cynnig gwerth am arian i siaradwyr Cymraeg, gan eu hannog i barhau i fyw ym Mwrdeistref Sirol Conwy a defnyddio eu Cymraeg yn lleol.
- Cefnogi teithio cynaliadwy i'r gwaith o'r ardaloedd ieithyddol sensitif dynodedig er mwyn galluogi pobl i aros yn y gymuned i fyw, tra'u bod yn teithio i / o'r gwaith, ac felly peidio ag achosi allfudo oherwydd diffyg opsiynau teithio i'r gwaith.
- Cefnogi a hyrwyddo arallgyfeirio mewn mentrau a busnesau gyda siaradwyr Cymraeg mewn ardaloedd gwledig i wella eu ffyniant economaidd a thebygolrwydd o aros.

- Cynlluniau tai fforddiadwy a pherchnogaeth tai ar gyfer siaradwyr Cymraeg.
- Creu ymdeimlad cryf o le mewn datblygiadau tai drwy arwyddion ac enwau lleoedd i ddenu a chadw siaradwyr Cymraeg a hyrwyddo ymdeimlad o le, hunaniaeth a pherthyn.
- Cefnogi cynaliadwyedd cymunedol, lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. Datblygiadau sy'n galluogi ffyniant a thwf economaidd sydd, yn eu tro, yn hwyluso cymunedau cryf a chydnerth lle mae'r iaith a diwylliant Cymru yn fywiog ac yn parhau i dyfu.

## Gweithgareddau hyrwyddo a ariennir drwy gyfraniadau ariannol

Mae'r rhestr ganlynol yn ddangosol yn hytrach na chyflawn, a bydd safleoedd arfaethedig unigol yn nodi'r gweithgareddau y bydd angen y cyfraniad ar eu cyfer.

- ✓ Addysg a hyfforddiant i siaradwyr Cymraeg ddatblygu a gwella eu sgiliau a gwybodaeth er mwyn gallu cael mynediad at gyfleoedd cyflogaeth yn lleol
- ✓ Mae lleoedd ysgol cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn cael eu hariannu ac ar gael yn lleol
- ✓ Grantiau a mentrau eraill i gefnogi darpariaeth y Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg
- ✓ Darparu addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg mewn cymunedau
- ✓ Darparu cyrsiau Cymraeg mewn cymunedau
- ✓ Darparu cludiant i ysgolion cyfrwng Cymraeg am ddim o unrhyw le yn y sir
- ✓ Darparu cludiant i ysgolion cyfrwng Saesneg y tu allan i ddalgylch y safle datblygu i liniaru newid cyfrwng iaith ysgolion cyfrwng Cymraeg lleol yn y dalgylch
- ✓ Codi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg - taflenni ffeithiau, deunyddiau, sesiynau blasu, a chyrsiau
- ✓ Pecyn Croeso i brynwyr tai yn cynnwys gwybodaeth am y Gymraeg yn yr ardal a ble i ddod o hyd i ddosbarthiadau Cymraeg
- ✓ Mentrau a/neu weithgareddau cymunedol drwy gyfrwng y Gymraeg

- ✓ Cyllid / grantiau / nawdd er enghraifft ar gyfer cludiant lleol, mentrau lleol, gweithgareddau, gwasanaethau yn Gymraeg, dysgu a Menter Iaith Conwy

## Arwyddion ac enwau lleoedd

Gall arwyddion gael effaith weledol drom ar gymeriad ardal, gan gynnwys ei chymeriad ieithyddol. Maent hefyd yn ffordd o hyrwyddo diwylliant nodedig Cymru, ac ymdeimlad penodol o le mewn ardal benodol.

Gellid cymhwyso'r camau lliniaru canlynol:

- Arwyddion dwyieithog ar strydoedd ac arwyddion cyfeiriadol eraill gyda'r Gymraeg uwchben y Saesneg
- Arwyddion a brandio dwyieithog neu Gymraeg yn unig ar gyfer safleoedd ac eiddo diwydiannol a masnachol
- Enwau lleoedd Cymraeg sydd ag arwyddocâd lleol ac sy'n cefnogi ymdeimlad o le, iaith, diwylliant a threftadaeth yr ardal leol.

## Canllawiau Cynllunio Atodol a gwybodaeth ddefnyddiol arall

Dyma restr o ganllawiau a gwybodaeth arall sy'n darparu cefndir ychwanegol i ddefnyddwyr y polisi hwn.

- Mae Cynllunio a'r Iaith Gymraeg: Y Ffordd Ymlaen (2005) yn cynnwys templed o gwestiynau ar gyfer asesiad o'r effaith ar y Gymraeg (Atodiad 1).
- Canllaw Cynllunio Atodol a fabwysiadwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ym mis Tachwedd 2014: CDLl6 - Yr Iaith Gymraeg - Mabwysiadwyd Tachwedd 2014 (conwy.gov.uk). Mae Adran 5 a Thabl 3 yn darparu rhai awgrymiadau o gwestiynau enghreifftiol ar gyfer asesiadau effaith cymunedol ac ieithyddol sy'n parhau i fod yn ddefnyddiol wrth nodi effeithiau posibl ar yr iaith. Bydd yn cael ei ddisodli yn dilyn mabwysiadu'r CDLlN.
- Mae ymgysylltu ac ymgynghori â siaradwyr, grwpiau a chymunedau Cymraeg yn rhan bwysig o'r broses gynllunio. Mae'r Cyngor yn annog ymgeiswyr i

gysylltu â budd-ddeiliad lleol fel rhan o'r broses hon. Cynghorwn fod ymgeiswyr yn cysylltu'n benodol â Menter Iaith Conwy, arbenigwyr mewn cynllunio ieithyddol, sy'n gallu cynnig cymorth i ymgeiswyr baratoi datganiadau ac asesiadau ac adnabod y prif ystyriaethau.

## Monitro ac Adrodd

O dan adran 76 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, mae'n ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol fonitro gweithrediad eu Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLl) fel y'u mabwysiadwyd drwy lunio Adroddiad Monitro Blynyddol a gyflwynir i Lywodraeth Cymru erbyn diwedd mis Hydref bob blwyddyn. Bydd yr adroddiad monitro blynyddol yn cynnwys adroddiadau cynnydd yn erbyn y polisi iaith Gymraeg hwn.

Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu'n unol â'r sbardunau a amlinellir yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol. Bydd monitro'n cynnwys y canlynol:

- Nifer yr asesiadau o effaith ar y Gymraeg sy'n cael eu cwblhau ac fel canran o gyfanswm y ceisiadau (ffynhonnell: ceisiadau cynllunio a gyflwynwyd)
- Mudo sirol (mewnfudo, allfudo a mudo net)

Bydd sbardunau'n cynnwys: gostyngiad pellach o ran nifer a / neu % y siaradwyr Cymraeg ers canlyniadau Cyfrifiad 2021, dirywiad pellach o ran defnydd o'r Gymraeg yn ôl yr arolwg blynyddol, a'r awdurdod mewn perygl o beidio â chyrraedd targed ei Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg.

# Atodiad 1: Rhestr o Derminoleg a Thalfyriadau

AMB Adroddiad Monitro Blynyddol

ASC Ardreth Seilwaith Cymunedol

CDLl Cynllun Datblygu Lleol

ACLl Awdurdod Cynllunio Lleol

FfDC Fframwaith Datblygu Cenedlaethol

DCPG Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004

PCC Polisi Cynllunio Cymru

CDLlN Cynllun Datblygu Lleol Newydd

AoG Arfarniad o Gynaliadwyedd

CDS Cynllun Datblygu Strategol

BBaCh Busnes Bach a Chanolig

CCA Canllaw Cynllunio Atodol

NCT Nodyn Cyngor Technegol

DCGT Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990

DAC Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol

AEG Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

YMGYNGHORIAITH RHD CONSULTANCY

# Atodiad 2: Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy - Safonau'r Gymraeg - Llunio Polisi

| Cyfeirnod | Safon y Gymraeg yn ôl Gofyniad |
|---|---|
| 88 | Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid ichi ystyried pa effeithiau, os o gwbl (pa un ai yw'r rheini'n bositif neu'n andwyol) y byddai'r penderfyniad polisi yn eu cael ar - (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. |
| 89 | Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid ichi ystyried sut y gellid llunio'r polisi (neu sut y gellid newid polisi sydd eisoes yn bodoli) fel y byddai'r penderfyniad polisi'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar - (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. |
| 90 | Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid ichi ystyried sut y gellid llunio'r polisi (neu sut y gellid newid polisi sydd eisoes yn bodoli) fel na fyddai'r penderfyniad polisi'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar - (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. |
| 91 | Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen honno ystyried a cheisio barn ynghylch yr effeithiau (pa un ai yw'r rheini'n bositif neu'n andwyol) y byddai'r penderfyniad polisi o dan ystyriaeth yn eu cael ar - (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. |

| | |
|---|---|
| 92 | Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy’n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i’r ddogfen honno ystyried a cheisio barn ynghylch sut y gellid llunio neu addasu’r polisi o dan ystyriaeth fel y byddai’n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio’r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg. |
| 93 | Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy’n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i’r ddogfen honno ystyried a cheisio barn ynghylch sut y gellid llunio neu addasu’r polisi o dan ystyriaeth fel na fyddai’n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai’n cael effeithiau llai andwyol, ar - (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio’r Gymraeg, a<br>(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg. |

# Atodiad 3: Llyfryddiaeth


Aitchison, J. a Carter, H. (1998) ‘The Regeneration of the Welsh Language: An analysis’ An Annual Review of Economic and Social Research Contemporary Wales Cyfrol 11, tud. 167-185

Baker. C, Sylvia Prys Jones, et al. (1998) The Encyclopaedia of bilingualism and bilingual education. Multilingual Matters.

Bernstein, B. (1973) Social Class, Language and Socialisation. Rhif. 28 yn Current Trends in Linguistics Cyfrol 12 tt 472-486

Bwletin Ystadegol y Swyddfa Ystadegau Gwladol (Rhag 2012) - Cyfrifiad 2011: Y Canfyddiadau Cyntaf ar y Gymraeg

Bwrdd yr Iaith Gymraeg, Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi, Llywodraeth Cynulliad Cymru. (2005). Cynllunio a’r Iaith Gymraeg: Y Ffordd Ymlaen.

Carter, H. ac Aitchinson, J. W. (1997) ‘The language patterns of Wales’ yn Griffiths, M. (1997) (Gol.) Addysg Gymraeg: Casgliad o ysgrifau a olygwyd gan Merfyn Griffiths Rhifyn 2 CBAC: Uned Iaith Genedlaethol Cymru tt 15- 25

Comisiwn Cymunedau Cymraeg – Grymuso Cymunedau: Cryfhau’r Gymraeg - adroddiad terfynol (Awst 2024) Comisiwn Cymunedau Cymraeg: adroddiad | LLYW.CYMRU

Coupland, N., Williams, A. a Garrett, A. (1998) ‘‘Welshness’ and ‘Englishness’ as Attitudinal Dimensions of English Language Varieties in Wales’’ yn Preston, D. (Ed) Handbook of Perceptual Dialectology Sage: Newbury Park.

Coupland, N., Williams, A. a Garrett, P. (1994) ‘The Social Meanings of Welsh English: Teachers’ stereotyped judgements’ Journal of Multilingual and Multicultural Development 15 (6) tt471-489

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (Awst 2018), Cyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai http://spp.conwy.gov.uk/upload/public/attachments/692/Conwy_JHLAS_2018_Report.pdf

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (Mai 2019), PC07: Cyflenwad Tir ar gyfer Tai - Asesiad ar gyfer y CDLIN

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, (Gorffennaf 2019) Strategaeth a Ffefrir Conwy 2018-33

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cynllun Corfforaethol 2022-27

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cynllun Datblygu Lleol ac Asesiad o Effaith ar y Gymraeg.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cynllun Lles

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Gwasanaethau Addysg Conwy, (2017) Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2017-20

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Safonau'r Gymraeg yng Nghonwy

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Strategaeth Iaith Gymraeg Conwy

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Uned Ymchwil (Awst 2013) Y Gymraeg yng Nghonwy, Bwletin Ymchwil

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 - https://futuregenerations.wales/wp-content/uploads/2017/01/WFGAct-Welsh.pdf

Ddeddf y Goron, Cynllunio a Phrynu Gorfodol (2004) Adran 62

Etzioni, A. (1996) 'The Responsive Community: A Communitarian Perspective' 1995 Presidential Address Sociology 61 (1) Chwefror, tt1-11

Heath, R (2007) Language, Culture and Markets in the education market in Wales. PhD, Prifysgol Caerdydd.

Llywodraeth Cymru (2017) Cymraeg 2050 https://futuregenerations.wales/wp-content/uploads/2017/01/WFGAct-Welsh.pdf

Llywodraeth Cymru (Rhagfyr 2022) Y Gymraeg yng Nghymru: Cyfrifiad 2021 - Y Gymraeg yng Nghymru (Cyfrifiad 2021) | LLYW.CYMRU

Llywodraeth Cymru, (2010) Nodyn Cyngor Technegol 6 Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy, Gorffennaf 2010 https://gweddill.gov.wales/docs/desh/policy/100722tan6en.pdf

Llywodraeth Cymru, (2017) Nodyn Cyngor Technegol (NCT) 20: Cynllunio a'r Gymraeg https://www.llyw.cymru/nodyn-cyngor-technegol-tan-20-cynllunio-ar-gymraeg

Llywodraeth Cymru, (2023) Cymraeg 2050: cynllun gweithredu strategaeth y Gymraeg, 2023-24 - Cymraeg 2050: cynllun gweithredu strategaeth y Gymraeg 2023 i 2024 [HTML] | LLYW.CYMRU

Llywodraeth Cymru, (Mawrth 2023) Cynigion ar gyfer Bil Addysg Gymraeg - Cynigion ar gyfer Bil Addysg Gymraeg [HTML] | LLYW.CYMRU

Llywodraeth Cymru, Bwletin Stats Cymru - Y Gymraeg, Cyfrifiad 2011

Papur Safbwynt y Comisiwn Cymunedau Cymraeg (Mehefin 2023) - Comisiwn Cymunedau Cymraeg: papur safbwynt [HTML] | LLYW.CYMRU

Polisi Cynllunio Cymru, Rhifyn 10 (2018) Polisi Cynllunio Cymru - Rhifyn 12 (llyw.cymru)

Prifysgol Caerdydd (2005) Capitalising on languages and culture: scoping study. Language-culture-economy

Swyddfa Ystadegau Gwladol (Rhagfyr 2022) Y Gymraeg, Cymru - Swyddfa Ystadegau Gwladol (ons.gov.uk)

Yr Archifau Gwladol - legislation,gov.uk - Deddf yr Amgylchedd 2016 - https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/3/contents/welsh

Yr Archifau Gwladol - legislation.gov.uk - Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011 - https://www.legislation.gov.uk/cy/mwa/2011/1/contents/enacted/welsh

# Atodiad 4 Polisi CTH/5 CDLl Mabwysiedig Conwy

**Polisi CTH/5 - Yr Iaith Gymraeg**

1. Bydd y Cyngor yn sicrhau bod datblygiadau yn cefnogi a chynnal lles tymor hir yr iaith Gymraeg, ac yn gwrthod datblygiadau a fydd, oherwydd eu maint, graddfa neu leoliad yn niweidio'n sylweddol gymeriad a chydbwysedd ieithyddol cymuned. Mae strategaeth y CDLl wedi cael ei hasesu o ran ei heffaith ar yr iaith Gymraeg ac amlygwyd y gofynion canlynol:

a. Bydd safleoedd tai a ddyrannwyd yn Abergele a Llanrwst a'r safle defnydd cymysg a ddyrannwyd yn Nolgarrog angen 'Datganiadau Lliniaru' yn unol â chanlyniadau'r Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg;
b. Dylai 'Datganiad Ieithyddol a Chymunedol' ddod gyda:

- Ceisiadau am dai ar safleoedd heb eu dyrannu o ddeg uned neu fwy yn yr Ardal Strategaeth Datblygu Trefol a phum uned neu fwy yn yr ardal Strategaeth Datblygu Gwledig;
- Datblygiad masnachol, diwydiannol neu dwristiaeth ar safleoedd heb eu dyrannu gydag arwynebedd o 1,000 metr sgwâr neu fwy yn ardal y Cynllun; a
- Datblygiad sy'n debygol o arwain at golli cyfleusterau cymunedol fel a ddiffinnir ym Mholisi CFS/6;

c. Unwaith y darperir safleoedd tai annisgwyl ar gyfer ardal strategaeth ofodol yn unol â'r ffigurau yn nhabl 3 HOU1a, bydd hyn yn sbarduno adolygiad a fyddai'n cyflwyno asesiad o'r holl geisiadau am dai heb eu dyrannu yn erbyn yr iaith Gymraeg;
d. Dylid cyflwyno asesiad mwy manwl ar ffurf 'Asesiad Effaith Cymunedol ac Ieithyddol' gyda:

- Cheisiadau tai ar safleoedd ar hap o 20 uned neu fwy yn yr Ardal Strategaeth Datblygiad Trefol a deg uned neu fwy yn yr Ardal Strategaeth Datblygiad Gwledig;

- Datblygiad masnachol, diwydiannol neu dwristaidd ar safleoedd heb eu dyrannu gydag arwynebedd o 2000 metr sgwâr neu fwy yn ardal y Cynllun.

2. Ledled ardal y Cynllun, bydd y Cyngor yn annog darparu arwyddion dwyieithog a dal gafael ar enwau Cymraeg traddodiadol ar gyfer datblygiadau a strydoedd newydd.

4.7.6.1 Mae'r Gymraeg yn rhan annatod o gymunedau lleol a'u treftadaeth. Bydd y Cyngor yn cefnogi ac yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg, drwy sicrhau bod digon o gyfleoedd o ran cyflogaeth a thai i gadw siaradwyr Cymraeg ledled Ardal y Cynllun a chyfyngu ar ddatblygu yn y Pentrefi a'r Pentrefannau.

4.7.6.2 PC/10 – 'Arfarniad Cynaliadwyedd / Asesiad Amgylcheddol Strategol' a PC/33 - 'Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg' yn rhoi manylion asesiad y Strategaeth Ofodol o'r CDLl o'r effaith ar yr iaith Gymraeg. O ganlyniad i'r gwaith asesu, dylai ymgeiswyr gyflwyno Datganiad Lliniaru yn y cam ymgeisio i benderfynu ar natur y lliniaru ar gyfer y dyraniadau tai yn Abergele a Llanrwst a'r safle defnydd cymysg yn Nolgarrog. Bydd y Cyngor yn paratoi CDLl 6 – Canllaw Cynllunio Atodol (CCA) 'Iaith Gymraeg' i hysbysu ymgeiswyr am ofynion y Datganiad Lliniaru.

4.7.6.3 Efallai y bydd mathau annisgwyl o ddatblygiad, ar safleoedd sydd heb eu dyrannu yn y CDLl ac nad ydynt wedi'u cynnwys yn y cyflenwad safleoedd ar hap (llai na deg uned), angen asesiad i bennu effaith ar yr iaith Gymraeg. Bydd ceisiadau ar safleoedd tai heb eu dyrannu ar gyfer deg uned neu fwy yn yr Ardal Strategaeth Datblygu Trefol a phum uned neu fwy yn yr Ardal Strategaeth Datblygu Gwledig yn gofyn am asesiad iaith Gymraeg ar ffurf Datganiad Cymunedol ac Ieithyddol, gan gynnwys manylion am fesurau lliniaru. Unwaith y bydd y targed tai ar hap yn cael ei fodloni ar gyfer ardal strategaeth ofodol yn unol â'r ffigurau yn nhabl 3 HOU1a, byddai hyn yn arwain at adolygiad o'r CDLl â'r gofyniad i asesu'r holl geisiadau tai yn y dyfodol ar safleoedd heb eu dynodi ar gyfer effaith ar y Gymraeg.

4.7.6.4 Byddai datblygiadau masnachol, diwydiannol neu dwristiaeth ar safleoedd heb eu dyrannu gydag arwynebedd o 1,000 metr sgwâr neu fwy a chynigion y byddai'n debygol o arwain at golli cyfleuster cymunedol fel y diffinnir ym hefyd

angen asesiad drwy Ddatganiad Cymunedol ac Ieithyddol. Dylai hyn gael ei gyflwyno yn y cam cais cynllunio a bydd manylion o'r hyn sy'n ofynnol yn y Datganiad yn cael ei gynnwys yn y CCA Iaith Gymraeg.

4.7.6.5 Lle bo ceisiadau yn cael eu cyflwyno yn ardal y Cynllun ar safleoedd sydd heb eu dyrannu ar raddfa fwy, yn llawer mwy na'r trothwyon uchod, gan gynnwys datblygiadau preswyl, masnachol, diwydiannol, twristiaeth ac isadeiledd ar raddfa fawr, mae'r effeithiau cronnus ar gymunedau a'r iaith Gymraeg yn debygol o fod yn fwy. Dylai cynigion o'r fath ddod gydag Asesiad Effaith Cymunedol ac Ieithyddol, yn cynnwys manylion am fesurau lliniaru. Dylid cyflwyno'r rhain hefyd yn ystod y cam cais cynllunio, a bydd manylion am yr hyn sydd ei angen yn yr Asesiad ar gael yn y CCA Iaith Gymraeg.

4.7.6.6 Bydd canlyniadau'r Datganiadau Cymunedol ac Ieithyddol, Asesiadau Effaith a Datganiadau Lliniaru a gyflwynir yn unol â Pholisi CTH/5 yn cael eu hasesu yn ystod y cam gwneud cais, a bydd y Cyngor yn gwrthod datblygiadau a fydd, oherwydd eu maint, graddfa neu leoliad, yn niweidio'n sylweddol ar gydbwysedd cymeriad ac ieithyddol cymuned.

4.7.6.7 Mae arwyddion, datblygiadau ac enwau strydoedd i gyd yn ffyrdd o hyrwyddo diwylliant nodedig Cymru a dylid eu hannog trwy'r broses gynllunio.